



Pwy Dalodd Amdani?

Hanes Ymgyrch Ddarlledu
Cymdeithas yr Iaith

S4/C

Pwy Dalodd Amdani?

Hanes Ymgyrch Ddarlledu
Cymdeithas yr Iaith

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas yr Iaith Gymraeg
Ystafell 5
Y Cambria
Rhodfa'r Môr
Aberystwyth
SY23 2AZ

www.cymdeithas.org

Argraffiad cyntaf Awst 1985
Ailargraffiad Tachwedd 2010

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Castell Nedd

cymdeithas  o bobol sy'n gweithredu'n ddi-drais
dros y gymraeg a chymunedau cymru
fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid

Rhagair Argraffiad Newydd

Wedi ffurfio llywodraeth newydd yn Llundain ym Mai 2010, penderfynodd y Glymblaid Geidwadol/Ryddfrydol gwtogi'n ddifrifol ar wariant cyhoeddus mewn ymateb i'r argyfwng ariannol a achoswyd ynghynt gan y banciau yn y sector breifat. Bwriad y llywodraeth newydd oedd naill ai cwtogi'n ddifrifol ar gyllidebau cyrff cyhoeddus neu gael gwared â nhw'n gyfan gwbl.

I'r Gweinidog Diwylliant newydd, Jeremy Hunt – gŵr a gydnabai na wyddai fawr ddim am Gymru – rhyw gwango arall oedd S4C, ac fe aeth ati i geisio cwtogi ar ei chyllideb ac i geisio cael gwared â hi fel endid annibynnol. Ni wyddai ddim am gyfraniad y sianel at ddyfodol y Gymraeg, na dim chwaith am ei hanes hi – am y frwydr fawr a fu i'w sefydlu.


Yn fwy difrifol, daeth yn amlwg nad yw pobl ifainc yng Nghymru'n gwybod fawr ddim am y frwydr hon chwaith. Wrth i ni wynebu brwydr newydd felly dros y sianel yn 2010, penderfynwyd ailgyhoeddi'r llyfryn hwn er mwyn ein hatgoffa o'r frwydr a fu genhedlaeth yn ôl ac fel symbyliad ar gyfer brwydr heddiw.

Boed hyn hefyd yn symbyliad i ni wrth wynebu'r dyfodol. Ateb i anghenion yr '80au oedd S4C yn ei ffurf ar y pryd. Mae angen yn awr nid yn unig amddiffyn S4C ond hefyd ddatblygu cwrmpawd ei gweithgarwch er mwyn sicrhau fod y Gymraeg ar flaen datblygiadau yn yr oes ddigidol newydd.

Meinir Ffransis — Argraffiad Tachwedd 2010

Rhagair

Bu miloedd o bobl Cymru'n weithredol dros y blynyddoedd yn yr ymgyrch dros Sianel Gymraeg, ac ni allwn mewn llyfr fel hwn ond cynnig dehongliad rhai unigolion o'r cyfnod cyffrous hwn. Gwahoddwn felly unrhyw sylwadau a gwybodaeth bellach oddi wrth ddarllenwyr, a cheisiwn gynnwys y rhain mewn llyfr sylweddol ar hanes Cymdeithas yr Iaith sydd i'w gyhoeddi'n ystod y ddwy flynedd nesaf. Danfonwch at: Swyddfa Cymdeithas yr Iaith, 5 Maes Albert, Aberystwyth, Dyfed. [Cyfeiriad 2010: Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ]



Cartwn o'r Cymro, Medi 30, 1980

1. Buddugoliaeth

“Mae’r frwydr dros sianel deledu Gymraeg wedi’i hennill” — roedd cynnwrf dieithr yn llais diduedd cyflwynydd y newyddion radio am un o’r gloch ar y dydd Mercher bythgofiadwy hwnnw, Medi 17, 1980.

“I believe today has seen the surrender to blackmail by a vacillating Home Secretary,” medd Delwyn Williams AS (o barchus goffadwriaeth) yn chwyrn, gan ychwanegu fod Whitelaw wedi colli’i hygrededd o fewn y blaid Geidwadol, yn arbennig yng Nghymru, wrth ildio i bwysau a chaniatau sianel Gymraeg i Gymru. Pur debyg oedd barn y Dr Roger Thomas AS: “Mae Mr Whitelaw a Mr Edwards wedi gwrando ar y Cymry sy’n dodu’u barn yn y papure,” meddai, “a’r Cymry hyn sy’n fodlon dod â therfysg i’r wlad.”

Llawenydd tawel, ar y llaw arall, oedd ymateb Mrs Gwynfor Evans gan iddi hi gael sicrwydd mewnlol ers misoedd na fyddai’n rhaid i’r ymryd arfaethedig gychwyn o gwbl — cadarnhad o hynny oedd cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol. Dim ond rhyw fis cyn hynny yr ysgrifenasai Saunders Lewis i’r *Western Mail* i ddweud nad oedd modd yn y byd i’r llywodraeth ildio ar fater mor bwysig ac y byddai’r ymryd yn siŵr o fagu dimensiwn trasiedi Roegaidd a wnâi les mawr i’r ymwybod Cymreig; ac roedd golygydd *Y Faner*, Jennie Eirian, hithau yn gweld yr ymryd fel digwyddiad anochel, ond ei bod hi’n arswydo rhag ei effeithiau. Ond ffydd dawel Mrs Evans a brofodd yn iawn.

Daeth y datganiad ar ddiwedd wythnos o dyndra llethol. Cafwyd nifer o awgrymiadau fod y llywodraeth o’r diwedd yn ystyried newid ei meddwl. Buasai’r tri gŵr doeth (sef Syr Goronwy Daniel, Cledwyn Hughes a GO Williams yr Archesgob) i ymweld â’r Ysgrifennydd Cartref ynghynt, ac yn sgil hynny bu hwnnw’n ymgynghori ag aelodau seneddol Toriaidd Cymreig i fesur eu hymateb. Roedd y papurau dyddiol hefyd yn llawn o ddyfalu ac awgrymiadau fod y llywodraeth ar fin newid eu meddwl. Yn ystod yr wythnos bu protestiadau dyddiol a chynyddol i bwysu ar yr awdurdodau: rhwygwyd ffeiliau a llenyddiaeth yn swyddfeydd Whitelaw yn Carlisle gan bedwar myfyriwr o Gymru; meddiannwyd cyntedd adeilad HTV Caerdydd gan nifer o famau, a pheintwyd sloganau Cymdeithas yr Iaith dros y waliau; aeth criw o weinidogion Anghydfurfiol hefyd i feddiannu swyddfeydd yr IBA yng Nghaerdydd. A’r bore cyn y cyhoeddiad arestiwyd dau aelod o’r Gymdeithas, Euros Owen ac Arwyn Sambrook, yn Cheltenham, wrth eu bod yn ymchwilio i weithredoedd posibl ar fastiau darlledu. Arweiniodd hyn yn ddiweddarach at yr achos o gynllwyn yn eu herbyn nhw ynghyd â Wayne Williams, a charchariadau i’r tri.

Deuai negeseuon gobeithiol yn ddyddiol, bron, fod pobl ddylanwadol yn dechrau ymddiddori yn y frwydr. Holwyd cwestiwn ar y mater yng nghynhadledd Brydeinig y Blaid Ryddfrydol, ac wrth fod Mr Geraint Howells yn paratoi i ateb, fe ddaeth David Steel lawr yn annisgwyl at y meic i ddweud ei fod yn bwriadu danfon

neges bersonol at Mrs Thatcher fel arweinydd un blaid at y llall, i'w cheryddu am mai mater personol i arweinydd plaid oedd cadw at yr addewidion yn ei maniffesto. Daeth neges o gefnogaeth hefyd oddi wrth swyddog o dras Cymreig yn y Gymuned Ewropeaidd; ac roedd darpar-arweinydd y Blaid Lafur, Mr Michael Foot, yntau yn ceisio dylanwadu y tu ôl i'r llenni.

Codwyd tymheredd yr wythnos ola mewn cyfarfodydd a anerchai Gwynfor bron bob nos — Medi 11eg yn Aberdâr, 12fed yn Trallwng, 13eg yn Sycharth a Dinbych, a'r noson cyn y cyhoeddiad, ar yr 16eg yn Abertawe — cyfarfodydd gorlawn o frwdfrydedd a pharodrwydd i herio'r llywodraeth. Roedd Cymdeithas yr Iaith wrthi yn paratoi ar gyfer ymgyrch weithredol a fyddai'n dwyn cannoedd o weithredwyr ar strydoedd Cymru mewn modd nas gwelwyd erioed mewn ymgyrch dros yr iaith. Torrodd ildiad y llywodraeth ar draws y llif cynyddol o deimladau yng Nghymru. Roedd ymateb Gwynfor ei hun i'r cyhoeddiad yn dawel ac urddasol. "Dyma," medde fe, oedd "buddugoliaeth mwya'r ganrif i'r iaith Gymraeg", ond ni ddatgelodd a ildiai yntau ai peidio a derbyn tro bedol Mrs Thatcher a'i gweision.

Y noson honno, yng Nghrymch, roedd y dorf o dros fil ar bigau'r drain. Rhedai gwres disgwylgar drwyddynt fel egni trydanol. Pawb a'u meddyliau ar yr un pwnc, pawb yn disgwyl yn eiddgar am eiriau un dyn. Ni fu mwy o emosiwn, na mwy o gymysgedd o emosiynau mewn tyrfa erioed: balchder oherwydd ildiad y llywodraeth; edmygedd a chariad tuag at yr un a orfododd y datganiad o enau'r ysgrifennydd gwladol lletchwith; a mwy na dim efallai, ofn — ofn na fyddai Gwynfor yntau hefyd yn ildio, yn derbyn telerau'r llywodraeth ac yn datgan ei fod am roi'r gorau i'w fwriad i ymprydio. Cododd Gwynfor a datgan, er ei fod yn bryderus am rai o'r amodau, y byddai'n bwyta ei bwdin Nadolig wedi'r cyfan! Gellid teimlo'r rhyddhad yn rhedeg drwy'r dorf, llawer yn wylo a phawb yn falch dros y dyn hwn a fuasai'n barod i aberthu ei fywyd dros Gymru.

Ond, sut tybed y daeth y sefyllfa ryfedd hon i fod ym 1980? Sefyllfa lle y gwelwyd gwewyr cenedlaetholdeb Cymreig ar ei anterth ar ôl iddo ddisgyn mor ddwfn ym 1979. Sut y cychwynnodd y symudiad dros sianel Gymraeg? A phwy oedd y bobl — dros y blynyddoedd — a dalodd amdani?

2. Gosod y Sylfeini

Nid mewn faciwm y digwyddodd y frwydr fawr ym 1980, ac nid mewn faciwm y cychwynnodd ymgyrch Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn niwedd y 60au. Fe osodwyd y sylfeini i'r ymgyrch nôl yn hanes cynnar y mudiad cenedlaethol. O'r cychwyn cyntaf, pan ddaeth darlledu drwy gyfrwng y radio gyntaf o fewn cyrraedd y boblogaeth, bu rhaid i Gymry frwydro am bob cam bychan o gydnabyddiaeth i anghenion iaith a hunaniaeth y genedl. Dengys JE Jones yn ei lyfr *Tros Gymru* fel y bu'n rhaid i Blaid Cymru ymladd yn galed am bob consesiwn. Pan gychwynodd darlledu sain ym 1923, gwrthodai'r BBC ystyried Cymru fel cenedl, ac ni roid dim rhaglenni cyson yn Gymraeg. Deuai'r unig raglen gyson Gymraeg ym 1927 unwaith yr wythnos o orsaf yn Nulyn gan lywodraeth Iwerddon!

Mae'n anodd credu, erbyn hyn, mor elyniaethus oedd y BBC tuag at y syniad o Gymru fel cenedl. Roedd y BBC o dan yr Arglwydd Reith yn ymgorfforiad o Brydain Fawr a'i holl ethos — heb hyd yn oed gynnwys y dosbarth gweithiol Seisnig. Ym 1927, cyhoeddwyd adroddiad gan Bwyllgor Adrannol Llywydd y Bwrdd Addysg, *Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd*, ac ynddo fe ddywedwyd: “Ystyriwn bolisi presennol y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig fel un o'r prif fygythiadau i fywyd yr iaith Gymraeg”. Crynhoir agwedd y BBC yn ymateb Mr ER Appleton, pennaeth gwasanaeth Cymreig y BBC (a reolid o Fryste) i'r cyhoeddiad uchod: “Wales of her own choice is part of the British Commonwealth of Nations, of which the official language is English. When His Majesty's Government decided to form a corporation for the important function of broadcasting, it was natural that the official language be used throughout.

“To use the ancient languages regularly—Welsh, Irish, Gaelic and Manx—would be either to serve propaganda purposes or to disregard the needs of the greatest number in the interest of those who use the language for aesthetic and sentimental reasons rather than for practical purposes...”

“If the extremists who desire to force the language upon listeners in the area were to have their way, **the official language would lose its grip.**”

Dyna'r perygl—fod yr iaith Saesneg yn colli ei gafael! Dywed JE Jones: “Diddorol yw sylwi ar ddefnyddio'r gair 'eithafwr' mor gynnar â 1927 ar y rhai a ofynnai am ychydig o Gymraeg ar y radio.”

Ym 1930, sefydlwyd trefn ranbarthol y BBC, ac er waetha cannoedd o brotestiadau, fe sefydlodd y Gorfforaeth “Western Region” i gynnwys deheudir Cymru a de-orllewin Lloegr. Ni dderbyniai canolbarth a gogledd Cymru unrhyw raglenni Cymraeg. Honnodd y BBC mewn pamffled *Radio in Wales* na allai'r cyfartaledd o bobl a ddaliai drwyddedi gyfiawnhau rhoi gwasanaeth gwell i Gymru. Pan ofynnodd un o aelodau seneddol Cymru gwestiwn ar y mater yn y Tŷ, y cwblw a wnaed oedd chwerthin am ei ben. (Cymharer yr ymateb pan soniwyd am yr ympryd arfaethedig yn y senedd hanner can mlynedd yn ddiweddarach — chwerthin a

gafwyd pryd hynny hefyd). Amddiffynnodd y BBC y drefn ranbarthol newydd yn eu blwyddlyfr ym 1934 mewn erthygl yn dwyn y teitl “The Kingdom of Arthur” gan ddal fod i’r “deyrnas” unoliaeth ddiwylliannol! — doedd dim pwys am unoliaeth Cymru!

Mae’r agwedd hon tuag at Gymru a’i hiaith yn y BBC wedi newid tipyn erbyn heddi. Nid yw Cymru yn gymaint targed i’w gwawdio neu i’w hanwybyddu yn llwyr erbyn hyn. Ond y mae’r dadleuon a ddefnyddiwyd yn erbyn corfforaeth ddarlledu annibynnol a thonfedd radio Gymraeg yn gyfarwydd i bawb a fu’n brwydro dros y Sianel Gymraeg.

Y ddadl fawr gyntaf oedd fod yr anhawsterau technegol yn ei gwneud yn amhosibl i drin Cymru fel endid, gan nodi fod tirwedd fynyddig Cymru yn rwystr mawr. Ond ym 1930 fe gyhoeddodd EG Bowen gynllun manwl yn y *Western Mail* gyda mapiau a siartiau i egluro ei gynllun. Awgrymodd gynnwys rhaglenni o Gymru ar un donfedd yn cael ei darlledu o ddau drosglwyddydd, un yn y de a’r llall yn y gogledd. Er i’r BBC fynnu ei bod yn dechnegol amhosibl i drosglwyddo’r un donfedd ar ddau drosglwyddydd, dyma oedd yr union gynllun a fabwysiadwyd yn ddiweddarach gan y BBC, yn eironig, ar gyfer ardal Llundain pan oedd hynny o fudd iddyn nhw.

Trefnodd Plaid Cymru ymgyrch gref i ennill cefnogaeth yng Nghymru ac i bwysu ar y BBC. Ym 1932 pasiodd cynhadledd i ystyried galw ar aelodau’r Blaid a phob Cymro i wrthod talu am eu trwyddedau setiau radio. Yn awr, fe gododd y Gorfforaeth fwgan arall — doedd dim digon o donfeddi i’w sbario i roi un i Gymru. Ym 1934 daeth pedair tonfedd yn wag, ond honnodd y BBC yn syth fod mwy o’u hangen yn Lloegr a’r Alban ac ni roddwyd un i Gymru a hynny er fod gan Ulster ei thonfedd ei hun gyda hanner poblogaeth Cymru a chan yr Alban eisoes ddefnydd tair. Dadl arall, hyd yn oed y pryd hwnnw, oedd fod diffyg deunydd i raglenni yng Nghymru — yr un ddadl â honno am ein diffyg doniau gan wrthwynebwyr y sianel.

Gan fod y pwysau o Gymru yn ddyfalbarhau’n egniol, fe wahoddodd y BBC yn Llundain lys Prifysgol Cymru i sefydlu pwyllgor ymgynghorol ar fater darlledu; a chyhoeddodd y Colonel Dawney, Pennaeth Rhaglenni’r BBC, mai’r pwyllgor fyddai y “sianel swyddogol a gydnabyddid gan y Gorfforaeth i gyflwyno barn Cymru”. Disgwylent i’r pwyllgor fod yn was bach saff, ond gwnaethant gamgymeriad. Trefnodd y Blaid fod pwysau o’r cychwyn ar y pwyllgor gan bob math o gymdeithasau a chynghorau lleol ac enwadau yn galw am (a) stiwdio ym Mangor, (b) am reolwr yng Nghaerdydd a wyddai anghenion Cymru, (c) am o leiaf ddeunaw awr yn Gymraeg yr wythnos, ac (ch) am orsaf i Gymru gyfan a fyddai ar waith cyn diwedd 1934. Tyfodd y pwyllgor yn llais cryf dros Gymru, a gwahoddwyd EG Bowen fel cynghorwr technegol; y cynrychiolwyr ar rai o’r dirprwyaethau at y Gorfforaeth oedd Saunder Lewis, WJ Gruffydd a David Lloyd George. O dan arweiniad Saunders Lewis fe enillwyd y frwydr a chytunwyd i wneud Cymru’n uned ar gyfer radio, gyda’i thonfedd ei hun; ond collwyr gwael oedd y BBC gan iddynt honni mai rhyw ddarganfyddiad newydd ym myd technoleg a’u galluogodd i ddarlledu rhaglenni i Gymru fel uned. Ildiasant hefyd i bwysau i gynyddu’r oriau

o Gymraeg i bump a hanner awr yr wythnos a doedd dim mwy i fod yn ôl eu llafarydd, a hynny pan oedd 900,000 o Gymry Cymraeg. Ym 1936, sefydlwyd stiwdio gan y BBC ym Mangor.

Hyd yn hyn, Saeson uniaith fu'n gyfrifol am ddarlledu yng Nghymru, ond yn awr penodwyd Hopkin Morris (yr AS Rhyddfrydol wedyn) i fod y Cymro cyntaf i fod yn Gyfarwyddwr Rhanbarth Cymru. Daliai nifer i bwyso am Gorfforaeth Ddarlledu i Gymru, ond bu rhaid aros yn hir cyn cael unrhyw gonsesiwn yn y maes yma, a does dim ymreolaeth Gymreig llwyr hyd heddiw. Dadleuai'r Blaid y gallai Cymru fod yn hunan gynhaliol mewn darlledu, ac fe gafwyd tair blynedd i brofi fod hynny'n gwbl ymarferol yn union cyn y rhyfel, pryd y cynyddodd yr oriau Cymraeg i 20 awr yr wythnos. Yn ystod y tair blynedd yma, fe gynyddodd y trwyddedau yng Nghymru 54% (dros ddwywaith y cynnydd yn Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon), ac fe brofodd y gwasanaeth Cymraeg yn hynod boblogaidd. Yn anffodus, byr fu hoedl cyfnod yr addewid a phan ddaeth y Rhyfel dilëwyd y rhaglenni Cymraeg o'r donfedd, a bu'n rhaid i Hopkin Morris ymladd yn galed iawn i gael 20 munud y dydd yn ôl, ynghyd ag ychydig o raglenni achlysurol eraill. Ar yr un pryd, cynyddodd darllediadau tramor y BBC (na ddeuent â cheiniog o elw i'r Gorfforaeth) mewn nifer o ieithoedd i 133 awr bob dydd erbyn 1943.

Dyfyniad o'r **Ddraig Goch** (rhifyn etholiad arbennig)
Mai 1929:

Tŷ'r Cyffredin, Tachwedd 15, 1926. Codwyd o'r papurau dyddiol: "Mr Ellis Davies appealed to the Postmaster-General to establish in North Wales a Broadcasting Station in which the Welsh language would be used.

"LOUD LAUGHTER IN THE HOUSE. Mr Ellis Davies: 'I cannot understand why members laugh.'"

Roedd Siarter y BBC i ddod i ben ym 1946, a bu Cymry ymwybodol yn pwysu'n galed iawn i geisio cael Corfforaeth Ddarlledu Gymreig i reoli dros donfedd y radio yng Nghymru ar gyfer y cyfnod newydd wedi'r Rhyfel. Ond, roedd y llywodraeth wedi dod i sylweddoli yn ystod y Rhyfel pa mor rymus oedd y radio fel erfyn propaganda. Ynghynt, ni cheisiai'r llywodraeth reoli'r BBC mewn unrhyw ffordd; ond yn ystod y Rhyfel, y llywodraeth oedd un o brif ffynnonellau incwm y BBC er mwyn cynnal y darllediadau tramor, ac yn awr roedd ganddynt afael ar y cyfrwng. Ym 1944 roedd Gwynfor Evans wedi mynegi pryder am fwriad y llywodraeth i gychwyn darlledu masnachol oherwydd y modd y byddai hyn yn sicr o filwrio'n erbyn buddiannau'r Gymraeg. Ar y pryd roedd gan gwmni Rediffusion wasanaeth yn ailddarlledu rhaglenni mwyaf poblogaidd y BBC i gartrefi yn ne Cymru lle'r oedd trydan, ac anwybyddent y rhaglenni Cymraeg yn llwyr.

Mor gynnar â 1944, hefyd, mynegwyd pryder ynglŷn â dylanwad potensial teledu ar y Gymraeg. Rhagwelwyd y byddai teledu yn dod yn declyn poblogaidd

iawn o fewn yr ugain mlynedd wedi'r rhyfel (i gymryd lle'r radio yn yr un modd ag y cymerodd y 'talkies' le y 'silent movies'!). Dywedodd Gwynfor Evans mewn darlith ym 1944:

“Mae'n rhaid i ni fod yn barod yng Nghymru i fanteisio'n llawn o'r cychwyn cyntaf ar bosibiliadau teledu... Rhaid mabwysiadu a datblygu'r dechnoleg newydd o'r cychwyn neu fe gaiff ei ddefnyddio er drwg i Gymru.” Pwysodd am gael ffilmiau yn Gymraeg, ac hefyd yn Saesneg am Gymru. Yn y pedwardegau hefyd y cyhoeddwyd pamffledyn gan y Blaid yn dwyn y teitl *TV in Wales*, ac ynddo mae'r ddau awdur yn dadlau fod cael gwasanaeth teledu cyflawn i Gymru yn angenrhaidd brys a'i fod yn beth cwbl ymarferol:

“Mae'r teledu yn gymaint mwy na chyfrwng adloniant, ac hyd yn oed o addysg i Gymru,” meddir. “Gallai wneud mwy nag unrhyw un sefydliad arall i gynnal a hybu'r iaith ac egni deallusol y Cymry, ac i sicrhau na chaiff etifeddiaeth y canrifoedd ei erydu.”

Bu'n rhaid cadw llygad barcud ar y modd y trefnai'r BBC eu gwasanaethau Cymraeg ar y radio; er enghraifft, yn gynnar yn y pumdegau trosglwyddwyd y rhaglenni Cymraeg i donfedd aneglur; a gorfodwyd pobl Cymru i brotestio eto. Ffurfiwyd 'Cymdeithas Gwrandawyr' ac ymrwymodd tua dau gant i wrthod talu am eu trwydded radio gan arwain nifer i ymddangos o flaen eu gwell yn y llysoedd. Newidiwyd y donfedd yn ôl.

Sefydlwyd dau gomisiwn Brenhinol yn y pumdegau; y cyntaf, Beveridge, i ymchwilio i faes radio; a'r ail, comisiwn Pilkington yn niwedd y pumdegau, dros radio a theledu. Bu dirprwyathau o'r Blaid o flaen y ddau gomisiwn am oriau yn dadlau o blaid Corfforaeth Radio yn gyntaf, ac yna Corfforaeth Ddarlledu i Gymru. Llwyddwyd i gael ambell i gonsesiwn, megis sefydlu Cyngor Darlledu Cymru yng ngofal rhaglenni Cymraeg a Saesneg. Ym 1959 galwyd cynhadledd genedlaethol gan Arglwydd Faer Caerdydd i lunio polisi i'w gyflwyno, ar ran Cymru, i Bwyllgor Pilkington. Daeth cynrychiolwyr o dros bedwar ugain o awdurdodau lleol a nifer helaeth o gymdeithasau, o dan gadeiryddiaeth Syr Cennydd Traherne, Arglwydd Raglaw Morgannwg. Penderfynwyd y “dylai fod Corfforaeth Ddarlledu Cymru, a honno'n gyfrifol i'r Senedd”. Ond condemniwyd y cynnig hwn gan Gyngor y BBC yng Nghymru mewn modd taeg ac anonest, ac fe'i anwybyddwyd gan y llywodraeth.

Erbyn cyfnod Pilkington, daethai'r teledu i ran helaeth iawn o gartrefi Cymru, ac roedd ei ddylanwad yn amlwg yn cynyddu. Cwynodd yr Urdd ym 1960:

“Mae sefyllfa presennol teledu yng Nghymru yn tanseilio'n gyflym ein hymdrechion ac yn dadwneud y cyfan a gyflawnwyd gennym oddi ar 1922. Ni allwn oddef hyn.” Ond goddef bu'n rhaid; a phan oedd hysbysebu am gwmni masnachol i gael y 'franchise' am ardal y gorllewin (yn cynnwys Cymru a de-orllewin Lloegr), methwyd cael cwmni Cymreig i gynnig, a TWW a lwyddodd; yr unig gonsesiwn i Gymru oedd bod pwyllgor Cymreig y tu fewn i TWW.

Rhydd Gwynfor Evans yr hanes yn *Bywyd Cymro* am yr ymdrech, o dan arweiniad Dr Haydn Williams, i ffurfio cwmni masnachol annibynnol Cymreig—Teledu

Cymru. Y rhwystr cyntaf oedd fod y llywodraeth wedi gosod yr amod cwbwl anymarferol fod yn rhaid i'r cwmni ddarlledu 10 awr yr wythnos; oherwydd yr amod bu'n rhaid cael stiwdios newydd a oedd yn ddurd iawn. Dibynnai llwyddiant y cwmni'n llwyr ar y nifer o bobl a allai dderbyn ei signal, a profodd y nifer hwnnw'n rhy fach i'w gynnal; un rheswm dros hynny oedd fod yn rhaid prynu erial newydd i dderbyn y signal, ac hefyd gwrthoda'r cwmnïau ailddarlledu (megis Rediffusion eto), gario'r rhaglenni Cymraeg. Ni allai'r rhaglenni, chwaith, gyrraedd rhannau helaeth o Gymru, ac ni chafwyd dim help gan yr ITA, a oedd yn gyfrifol am godi trosglwyddion newydd, na chwaith gan y llywodraeth. Oherwydd hyn, doedd dim gobaith i'r cwmni lwyddo'n fasnachol, ac roedd y cwmnïau masnachol Seisnig wrth eu bodd yn gweld Teledu Cymru yn methu. Ar waetha'r methiant ariannol, profodd y cwmni ei bod yn bosibl cael rhaglenni poblogaidd yn Gymraeg — roedd y rhaglenni plant a'r newyddion yn arbennig o dda a phoblogaidd. Cymerwyd bron y cyfan o'r staff arloesol drosodd gan y BBC a TWW (ac mae nifer ohonynt yn dal i ymddangos ar S4C heddiw). Nid pwrpas y cwmni oedd gwneud elw, fe'i rhedwyd fel ymddiriedolaeth gyda'r bwriad o fuddsoddi pob arian nôl er lles Cymru. Daeth y cwmni i ben ar ôl llai na blwyddyn o ddarlledu, ar ôl dwy flynedd o waith caled i'w sefydlu, ym 1963, a chymerwyd yr oriau Cymraeg drosodd gan TWW. Wedi hynny, pwyswyd yn gyson am gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a thros gael mwy o'r rhaglenni ar yr oriau brig.

Mae'n rhyfedd meddwl fod y rhaglenni Cymraeg cynnar hyn yn dod o stiwdios, megis Manceinion, yn Lloegr. Yn hwyrach ymlaen y cychwynwyd trosglwyddo rhaglenni Cymraeg ar drosglwyddydd oedd yn gwasanaethu Cymru yn unig. Achosodd hyn broblem yn y de, gan i'r rhaglen uniaith Saesneg gael ei rhoi ar y trosglwyddydd cryf gan y BBC, a rhoddwyd i'r Cymry drosglwyddydd newydd gan orfodi'r cartrefi a fynnai gael rhaglenni Cymraeg fynd i'r gost a'r drafferth o newid set ac erial. Er hynny, roedd cael trosglwyddydd yng Nghymru yn ddigwyddiad o bwys; yn y canolbarth fe achosodd llawer mwy o wrthdaro na dyfodiad S4C; casglwyd tua 6 mil o enwau ar ddeiseb yn ardal Aberystwyth yn protestio'n erbyn yr oriau newydd yn Gymraeg. Erbyn hyn, caed 14 awr yr wythnos yn Gymraeg a chodwyd yr un hen fwgan eto o ddiffyg doniau yn y Gymru Gymraeg. Medde Alun Oldfield Davies yn *Barn mis Chwefror*, 1964:

“Daroganwyd mai methiant llwyr fyddai ceisio gwasanaeth sylweddol o raglenni radio i Gymru. Profodd egni, hyder a diwydrwydd tanllyd Sam Jones a'r ychydig Gymry dawnus a fu'n gwmni iddo yn y blynyddoedd cynnar fod ffydd yn gallu symud mynyddoedd. Mynyddoedd go fawr yr adeg honno oedd rhagfarn y Sais ar y naill law a difaterwch y Cymro ar y llaw arall. Bellach daeth ein cyfle i gyflawni'r un math o gamp mewn gwasanaeth teledu i Gymru, a theimlaf yn sicr y bydd Chwefror 9ed 1964, yn ddiwrnod a fydd yn haeddu sylw yn hanes ein cenedl.”

Dyma'r cyfnod y dechreuodd Cymdeithas yr Iaith ymddiddori ym mhwnn darlledu. Ceir yr hanes byr yn *Tân a Daniwyd* am drydydd Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas yn y Belle Vue yn Aberystwyth ar 25ain Ionawr, 1964.

Pasiwyd cynnig yn y cyfarfod yn “gresynu fod rhai pobl wedi manteisio ar

anwybodaeth y cyhoedd fel esgus i greu drwgdeimlad rhwng y Cymry Cymraeg a phobl di-Gymraeg” — cyfeiriad at y ddeiseb a oedd yn cylchredeg ar y pryd yn ardal Aberystwyth. Dywedir yn *Tân a Daniwyd*:

“... fe baratodd Mr a Mrs Edwards, Cynwyd, femorandwm i'r Gymdeithas yn pwysleisio'r angen am wasanaeth teledu Cymraeg, a chysylltwyd ag Alwyn D Rees ynglŷn â'r modd mwyaf effeithiol o hybu'r amcan. Ein pryder pennaf ar y pryd oedd yr ardaloedd hynny yng Nghymru lle nad oedd modd derbyn unrhyw raglenni Cymraeg o gwbl a bu Geraint Jones (Twm, Trefor) o gangen Blaenau Morgannwg yn weithgar yn hel tystiolaeth ar y mater ac yn trefnu cyfarfodydd gyda swyddogion y BBC — ond rhagymadrodd, megis, oedd hyn i gyd i frwydr ffyrnig yn y dyfodol.”

Nid aeth y Gymdeithas ati i'r afael o ddifri ag ymgyrch dros wasanaeth Cymraeg teilwng yn y cyfnod hwn.

Erbyn 1968, felly, daethpwyd i'r sefyllfa lle'r oedd Cymru'n cael ei chydabod yn uned (o leia gan y BBC); ac lle'r oedd math ar gyfundrefn ddarlledu Gymreig yn bod. Roedd ychydig o gynnydd yn yr oriau Cymraeg wedi bod, a hynny wedi creu gwrthymateb ffyrnig mewn rhai ardaloedd. Ond, atodiad yn unig i'r prif wasanaeth oedd y rhaglenni Cymraeg o hyd; pan godai'r angen e.e. adeg y Nadolig neu Wimbledon, hawdd oedd gwthio'r Gymraeg o'r neilltu; roedd y gwasanaeth ymhell o fod yn wasanaeth cyflawn yn Gymraeg. Roedd hi'n amlwg nad oedd posib, o fewn y fframwaith a fodolai, i gael unrhyw welliant sylfaenol yn y gwasanaeth Cymraeg heb gael gwrthdaro ffyrnig pellach. Fe fyddai'n rhaid wrth fframwaith newydd er mwyn datblygu'r gwasanaeth, a daeth y cyfle ymhellach ymlaen gyda dyfodiad y bedwaredd sianel.

3. Dechrau Gweithredu

Ym 1967/1968 gallwn weld cychwyn camau rhagarweiniol rhyw fath o ymgyrch gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ym maes darlledu. Roedd aelodau'r Gymdeithas yn dechrau sylweddoli, o bosib, bod achub yr iaith yn mynd i olygu llawer mwy na chael rhai ffurflenni wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg — er, a bod yn deg, ni chredai neb mai'r ffurflenni eu hunain oedd yn bwysig ond yn hytrach y statws newydd i'r iaith; y ffaith bod Cymry yn gwrthod y taogrwydd o wneud eu gwaith swyddogol drwy'r Saesneg a'u bod yn mynnu ei wneud yn Gymraeg. Byddai'r pwysigrwydd newydd i'r Gymraeg yn arwain yn naturiol at agwedd newydd a mwy hunan hyderus ymhlith y Cymry Cymraeg a fyddai'n gweddnewid y sefyllfa yng Nghymru. Ond, yn awr, fe ddaeth dechrau sylweddoli y byddai'n rhaid i Gymdeithas yr Iaith roi tipyn mwy o ffurf a hwb i'r gweddnewid yma. Tystia Gwilym Tudur i'r ffaith fod yna rhyw synnwyr newydd o ddifrifwch yn y cyfnod yma, gyda chriw o bobl ifanc yn barod i ymroddi'n llwyr i'r frwydr a'i wneud yn ffordd o fyw; pobl a oedd yn barod i weithio o ddifri oherwydd sylweddoliad o anferthedd y dasg oedd i'w chyflawni.

Wrth edrych o gwmpas ar y problemau eraill a wynebai'r Gymraeg, roedd dau faes yn hunan amlwg: yn gyntaf, maes addysg, ond roedd llawer o bobl eisoes ar waith yn y maes yma gan gynnwys nifer o aelodau'r Gymdeithas ei hun fel athrawon a myfyrwyr. Roedd ansicrwydd am yr union gyfraniad y gallai'r Gymdeithas fel mudiad ei wneud, ansicrwydd a barhaodd tan yr wythdegau pryd y gwnaeth y Gymdeithas ymyrryd o ddifri yn y maes o'r diwedd. Maes arall a gynigiai ei hun ar ddiwedd y chwedegau oedd maes darlledu. Wrth gwrs, roedd teledu yn dal yn rym cymharol newydd, dim ond ers deng miynedd ar y mwya y treiddiodd hwn i'r rhan fwyaf o gartrefi Cymru ac roedd gwir ofn ei ddylanwad ar yr aelwydydd Cymraeg — “y bocs bach yn y gornel a siaradai Saesneg yn ddi-baid”.

Felly, penderfynodd Pwyllgor Canol y Gymdeithas ymgyrchu dros wasanaeth darlledu Cymraeg, gan ategu'r alwad am fwy o oriau yn yr iaith. Teimlai un neu ddau yn anfodlon am hyn, gan y gwyddent nad oedd posibilrwydd yn y byd i'r BBC na Harlech gynyddu'n sylweddol y ddarpariaeth Gymraeg — byddai hynny'n creu gwrthymateb ffyrnig ymhlith pobl ddi-Gymraeg y cyfryngau a Chymru'n gyffredinol. Roedd yna ymdeimlad y byddai'n rhaid wrth newid mwy sylfaenol, ond ansicrwydd ynglŷn â'r union lwybr y gellid ei ddilyn. Y targed i'r ymgyrchu cynnar hyn oedd y BBC am mai'r “British Broadcasting Corporation” oedd yn cynrychioli'r gorthrwm Prydeinig ar Gymru ac ar yr iaith, ac fe'i llysenwyd y “British Brainwashing Corporation”. Roedd arweinwyr y Gymdeithas ar y pryd yn amheus a oedd cyfiawnhad dros weithredu yn erbyn cwmni preifat fel Harlech; ond doedd dim amheuon o'r fath ynglŷn â chorfforaeth gyhoeddus fel y BBC a oedd yn eiddo, mewn egwyddor, i'r bobl. Hefyd, newydd gychwyn oedd teledu Harlech ym 1968 ac roedd teimlad y dylid rhoi chwarae teg iddynt i gael eu traed

oddi tanynt; ac roedd pawb yn falch fod TWW (a fu mor elyniaethus tuag at Teledu Cymru) wedi colli'r 'franchise'.

Arferiad y Gymdeithas ar y pryd oedd i gael gweithred, achos llys a rali, felly ystyr ymgyrchu yn y cyfnod yma oedd trefnu rali a gweithred; a dyna a wnaethpwyd ym 1968. Roedd y Gymdeithas eisoes wedi trefnu bod deiseb yn galw ar y BBC i wella'r gwasanaeth Cymraeg yn mynd at yr aelodau ledled Cymru yn Nhachwedd 1967. Aethpwyd o ddrws i ddrws yn y Bala a chasglu dros ddwy fil o enwau yn y dre honno'n unig, heb nemor neb yn gwrthod arwyddo — ond yn anffodus nid oedd cystal ymdrech yn y gweddill o Gymru. Roedd brwydr yn cael ei hymhladd ar yr un pryd, a oedd yn rhan o'r frwydr ddiddiwedd yn erbyn y Bwrdd Post am ffurflenni, etc. dwyieithog, dros gael y drwydded deledu yn ddwyieithog. Roedd amryw yn gwrthod talu am eu trwyddedau, ac yn Rhagfyr 1967 cafwyd buddugoliaeth pan ildiodd y Bwrdd Post, a gallodd y Gymdeithas wedyn droi ei hegni oddi wrth iaith y trwyddedau at y gwasanaeth a ddarparwyd. Cwyn y Gymdeithas oedd fod prinder oriau Cymraeg, prinder arian i gynhyrchu rhaglenni o safon, a bod angen rhaglenni oedd yn adlewyrchu Cymreictod. Yn *Tafod y Ddraig* mis Hydref 1967, dywedir mai'r nod oedd "sicrhau gwasanaeth annibynol i Gymru ar y radio a'r teledu".

Yn *Tafod y Ddraig* Ebrill 1968 fe geir hysbyseb yn annog aelodau a chefnogwyr y Gymdeithas i ddod i rali yng Nghaerdydd ym mis Mai, lle byddid yn galw am (a) newid agwedd y BBC, (b) wario mwy i wella ansawdd rhaglenni, (c) mwy o oriau o Gymraeg, (ch) Sianel Gymraeg, (d) Gorfforaeth Ddarlledu Annibynol. Cynhaliwyd y rali a gorymdaith ar Fai 11eg at y Deml Heddwch er mwyn cyflwyno'r ddeiseb gyda 6,500 o enwau arno. Ymhlith y gorymdeithwyr roedd rhai'n cario baneri gyda'r geiriau "Sianel Gymraeg"; ac roedd yno nifer hefyd o staff y BBC yn cynnwys cynhyrchwyr rhaglenni — cawsant eu ceryddu'n ddiweddarach gan y Gorfforaeth. Anerchwyd y rali gan yr Athro Jarman a ddangosodd fod y nod o Sianel Gymraeg yn gwbl ymarferol, a chan Dafydd Iwan a rybuddiodd y byddai angen rhoi sylw i'r Gymraeg ar deledu Harlech yn ogystal â'r BBC. Bu gorymdaith o ddwy filltir at Bontcanna, at ganolfan newydd Teledu Harlech, ac yno rhoddwyd rhybudd iddyn nhw na fyddai'r Gymdeithas yn barod i aros yn rhy hir cyn gweld cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg. Dywedodd Gareth Meils mewn araith: "Ni fyddwn yn fodlon ar chwe awr yr wythnos o raglenni Cymraeg ac Endaf Emlyn!" (a oedd ar y pryd yn ddarlledwr newydd enwog).

Bu'n rhaid aros tan fis Tachwedd cyn cael y datblygiad nesaf yn yr ymgyrch ddarlledu. Y mis hwnnw, fe dderbyniodd aelodau'r Gymdeithas gylchlythyr yn eu gwahodd i gyfarfod un noson yng Nghaerdydd i wrando ar anerchiadau gan Emyr Llywelyn ac eraill. Teithiodd ceir lawr o Aberystwyth a mannau eraill; ond er mawr syndod i'r aelodau cawsant wybod wrth gyrraedd nad oedd cyfarfod wedi'i drefnu o gwbl — yn hytrach, roedd pawb i fynd yn syth i stiwdios y BBC yn Stacey Rd, Caerdydd er mwyn eu meddiannu y noson honno. Wedi dod dros y sioc cychwynnol, cytunodd pawb ei fod yn syniad da ac yn sicr yn antur newydd i'r Gymdeithas. Ar y pryd, doedd y BBC heb symud yn llwyr i'w canolfan newydd

yng Nghaerdydd, ac roedd y stiwdio yma mewn hen gapel wedi'i drawsnewid, yn rhan ddwyreiniol y ddinas. Cafwyd mynediad trwy dwyllo'r gofalwr oedd wrth y drws, a rhuthro i mewn i'r stiwdios lle y gwersyllwyd am rhyw bedair neu bump awr o tua 8 o'r gloch ymlaen. Roedd yr ymateb yn syfrdanol! Torrwyd ar draws rhaglenni rhwydwaith Prydeinig y BBC y noson honno i roi bwletinâu am yr hyn oedd yn digwydd yn eu stiwdios yng Nghaerdydd. Danfonwyd unedau newyddion a ffilmio draw i siarad â'r meddianwyr. Roedd y dull yma o weithredu mor newydd fel na wyddai neb beth i'w ddisgwyl, na beth oedd yn mynd i ddigwydd nesaf. O safbwynt aelodau cyffredin y Gymdeithas a oedd yn cymryd rhan, ymddangosai fod hynny'r un mor wir am y Gymdeithas hefyd! Doedd y gwaith trefnu heb fod yn fanwl, a doedd dim paratoadau ar gyfer arhosiad hir, ac oherwydd 'galwadau natur' fe ymadawodd aelodau'r Gymdeithas â'r adeilad ar ôl rhyw bump awr. Ond, roedd y weithred wedi'i chyflawni, a gofynion y Gymdeithas wedi cael cyhoeddusrwydd.

Bu gwrthdystiad hefyd yn stiwdio'r BBC ym Mangor, a chof un o'r gweithredwyr yw fod Mr John Roberts Williams yn neidio a dawnsio yn ei ddieter wrth iddynt losgi'r 'Union Jack'.

Cafodd y Gymdeithas gryn 'impact' gyda'r gweithredoedd, ond doedd dim dilyniant tan yr hydref 1970, er i nifer o unigolion bwysleisio pwysigrwydd y maes yn gyson. Ym 1969 fe gymerodd yr ymgyrch peintio arwyddion drosodd, ac fe ddaeth yr arwisgo i fonopoleiddio'r holl gyhoeddusrwydd. Erbyn diwedd 1969, a rhan fawr o 1970 roedd ymwybyddiaeth fod dyddiad yr etholiad cyffredinol yn nesu ac roedd llawer o aelodau'r Gymdeithas yn dychwelyd at eu gwaith traddodiadol gyda Phlaid Cymru — dros dro beth bynnag. Ond, yng Nghyfarfod Cyffredinol 1969 fe benderfynwyd a chrisialwyd polisi darlledu'r Gymdeithas, sef yng nghynnig dau:

“Ein bod yn hawlio gan y llywodraeth sianel genedlaethol i Gymru ar gyfer rhaglenni Cymraeg ar y teledu, yn ychwanegol at y sianel ar gyfer y Cymry di-Gymraeg, a thonfedd ar gyfer rhaglenni Cymraeg ar y radio; ac yn parhau'r ymgyrch dorcyfraith, gan wrthod talu trwydded radio a theledu, i'r pwrpas hwn.”

Ychydig o unigolion ymroddedig yn unig, fodd bynnag, fel Emyr Llywelyn a Gwilym Tudur (a wynebodd yr achos llys cyntaf yn yr ymgyrch yn Aberaeron) oedd yn gwrthod talu'r dreth deledu. Un rheswm dros hyn oedd fod trwch aelodaeth a chefnogwyr y Gymdeithas ar y pryd yn fyfyrwyr nad oeddynt yn berchen ar eu setiau teledu eu hunain. Roedd yn rhaid disgwyl tan yr ymgyrch o weithredu uniongyrchol difrifol cyn bod y cannoedd a'r miloedd yn ymuno yn yr ymgyrch o wrthod talu. Roedd y datblygiadau sylweddol nesaf yn yr ymgyrch i ddigwydd ar ôl deunaw mis o ysbaid, ar ôl Cyfarfod Cyffredinol Hydref 1970.

4. Cynllunio Ymgyrch

“Bod y Gynhadledd yn sylwi nad yw'r BBC a Harlech wedi cymryd unrhyw gamau tuag at weithredu'n hargymhellion radio a theledu yng Nghymru. Rhown rybudd cyhoeddus iddynt ein bod ni'n bwriadu cychwyn ymgyrch benderfynol i sicrhau fod gwylwyr a gwrandawyr yng Nghymru'n cael derbyn gwasanaeth cyflawn Cymreig a Chymraeg” — dyma eiriau cynnig a basiwyd yn ddiwrthwynebiad yng Nghyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith yn Neuadd y Plwyf, Aberystwyth yn Hydref 1970. A'r tro hwn yr oedd y Gymdeithas o ddifri! Yr oedd yr ymgyrch ddarlledu ar droed, a gallwn ddilyn ei hynt trwy'r ddegawd ganlynol.

Pam fod y Gymdeithas yn sydyn yn penderfynu mynd i'r afael o ddifri â'r ymgyrch ar ôl iddyn nhw, ac eraill, roi ond sylw ysbeidiol yn unig i'r maes hwn ers blynnyddoedd? Nid oherwydd bod trwch yr aelodaeth wedi'u hargyhoeddi o werth yr ymgyrch — fe ddaliodd eu bryd nhw yn gadarn ar yr ymgyrch arwyddion hyd nes yr haf canlynol; bryd hynny y ffrwydrodd yr ymgyrch ddarlledu i fywyd a sylw cyhoeddus (yn nodweddiadol) gyda'r gweithredu torcyfraith difrifol cyntaf ac, yn arwyddocaol iawn, yn cyd-ddigwydd â chyfnod distaw yn yr ymgyrch arwyddion yn dilyn achos mawr Brawdlys Abertawe a'r cyhoeddiad am sefydlu Pwyllgor Bowen gan y llywodraeth i ymchwilio i'r mater. (Mae *Tafod y Ddraig* Mawrth 1971 yn cwyno “nid oedd cefnogaeth yr aelodau i'r ymgyrchoedd hyn — [dros ddarlledu] — gystal ag yr oeddem ni wedi gobeithio”). Nid aeth y Gymdeithas i'r afael â mater darlledu chwaith oherwydd fod rhai unigolion penderfynol y tu fewn iddi yn gwthio'r ymgyrch hon — er bod hynny'n wir.

Na, i ddeall pam i Gymdeithas yr Iaith ymgymryd â'r gwaith yn systematig y tro hwn, rhaid deall y newid cyffredinol a ddaeth dros y mudiad yn y cyfnod hwn a'i galluogodd i ymgymryd ag ymgyrch o'r fath. Trwy'r chwedegau, buasai Cymdeithas yr Iaith yn fudiad rhan amser, gyda phwyllgor canol yn cyfarfod unwaith y mis am rhyw ddwy awr i drafod un frwydr ar y tro, a oedd yn gyfyngedig fel arfer i ennill gŵys, neu ddisg treth neu ffurflen trwydded car yn y Gymraeg; a'r trafodaethau yn seilio o gwmpas y brotest nesa neu ymateb i ryw garchariad. Nid mater o drefniadaeth yn unig oedd yr agwedd rhan amser yma, roedd hefyd yn rhan o feddylfryd llawer iawn o aelodau'r Gymdeithas. Roedd llawer o'r aelodau — efallai'r mwyafrif — yn gweld y Gymdeithas o hyd fel atodiad i Blaid Cymru; roedd eu prif weithgarwch gyda'r Blaid, ond gwelent yr angen am fudiad iaith fel atodiad, a gweithgarwch atodiadol oedd ganddyn nhw.

Erbyn Hydref 1970, roedd y sefyllfa'n aeddfed i hyn oll newid; yn gyntaf o ran meddylfryd aelodau'r Gymdeithas. Roedd etholiad cyffredinol newydd fod yn haf 1970 a doedd Plaid Cymru heb gyflawni'r toriad trwodd mawr a ddisgwylid, felly roedd llawer mwy o aelodau Cymdeithas yr Iaith yn barod i roi blaenoriaeth eu hamser beunyddiol i weithredu uniongyrchol yn hytrach nag aros 4–5 mlynedd arall am yr etholiad cyffredinol nesaf; ymddangosai hyn yn amser hir iawn i aelodau

ifanc y Gymdeithas ar y pryd. Yn sgil rhamant a sylw yr ymgyrch arwyddion hefyd, denwyd i mewn llawer o Gymry ifainc nad oedden nhw erioed wedi bod yn ymhel â gwleidyddiaeth ffurfiol o'r blaen, ac erioed wedi bod yn aelodau o Blaid Cymru, ac roedd teyrngarwch gyntaf y rhain i Gymdeithas yr Iaith. Felly, roedd gan y Gymdeithas yr aelodaeth angenrheidiol i ymladd ymgyrch.

Hefyd, yn Hydref 1970, bu newidiadau sylfaenol yn nhrefniadiaeth y Gymdeithas. Yn arwynebol iawn gellid dweud i'r Gymdeithas ddatblygu o fod yn fudiad rhan amser i fod yn fudiad llawn amser. Sefydlwyd swyddfa amser llawn, a sefydlwyd 'Senedd' yn lle'r Pwyllgor Canol a oedd i gyfarfod drwy'r dydd yn fisol o hyn allan. O dan y Senedd sefydlwyd pump grŵp i ymdrin â gwahanol ymgyrchoedd; un o'r grwpiau hyn oedd y grŵp darlledu a fyddai'n gwneud gwaith cyson rhwng cyfarfodydd Senedd i lunio'r ymgyrch o ddydd i ddydd.

Mae perygl, er hynny, gorbwysleisio'r newid fel rhywbeth sydyn a ddaeth dros y Gymdeithas, e.e. ceisiwyd cael cyfundrefn o gelloedd ledled Cymru, ond ychydig iawn ohonynt a weithiodd mewn realiti; a dim ond dau o'r grwpiau ymgyrchu a wnaeth gyfarfod yn gyson i wneud unrhyw waith sylweddol — sef y grwpiau arwyddion a darlledu. Ond, roedd bodolaeth grŵp darlledu, swyddfa amser llawn ac aelodaeth ymroddedig yn galluogi'r Gymdeithas yn ymarferol, am y tro cyntaf, i ymgymryd ag ymgyrch o faintioli a chymlethdod yr ymgyrch ddarlledu.

O'r blaen, yn ymarferol, ni allai'r Gymdeithas ymgymryd yn llwyddiannus ond ag ymgyrchoedd cyfyngedig iawn — y mwyaf uchelgeisiol oedd gofyn am newid iaith arwyddion ffyrdd Cymru — nad oedd yn golygu llawer o drefnu, dim ond danfon y gweithredwyr allan.

Y cam cyntaf oedd i benderfynu ar bolisi manwl. A gwelwn yma gychwyn newydd yn natur ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith o ran cynllunio ymgyrch, o ran ymchwilio, gweithio allan polisi, trafod yn fanwl gydag awdurdodau, gwaith cyhoeddusrwydd, protestiadau symbolaidd yn cynnwys ymprydio a gŵyl nosau; a hyn i gyd yn rhagflaenu gweithredu uniongyrchol difrifol er mwyn dwysáu teimladau am yr ymgyrch, ei wneud yn bwnc llosg ac ennyn cefnogaeth carfannau eraill yng Nghymru. Gwelwn yma gynllunio ymgyrch mewn modd a gafodd ei efelychu'n ddiweddarach yn yr ymgyrch dai ac yn yr ymgyrch dros Gorff Datblygu Addysg Gymraeg. Yr ymgyrch ddarlledu oedd y gyntaf i gael ei chynllunio yn y ffordd yma.

Ffurio polisi oedd y cam cyntaf, ac yn Nhachwedd 1970, cyhoeddwyd y llyfryn dwyieithog *Darlledu yng Nghymru*. Dyma oedd y tro cyntaf i'r Gymdeithas gyhoeddi dogfen bolisi fanwl; cyn hyn, heblaw am y cylchgrawn *Tafod y Ddraig*, roedd y cyhoeddiadau'n gyfyngedig i anogaeth ar faterion syml fel arwyddion Cymraeg, lle nad oedd angen tystiolaeth ddogfennol mor fanwl. Parodd y llyfryn yma dipyn o syndod ymhlith y cyhoedd yng Nghymru, cafodd ei ganmol hyd yn oed gan John Eilian yn yr *Herald Gymraeg*.

Yn y llyfryn, gosodwyd allan yr achos dros wasanaeth darlledu Cymraeg ar y cychwyn gan egluro pam fod darlledu mor bwysig i ddyfodol yr iaith; cafwyd adrannau wedyn ar swyddogaeth foesol y cyfryngau darlledu, imperialaeth

ddiwylliannol, a'r effaith ar blant Cymru — pethau a gymerwn yn ganiataol y dyddiau hyn ond a oedd yn bwysig mewn cyfnod pan oedd cynifer, hyd yn oed yn y dosbarth academiaidd Cymraeg, yn barod i dderbyn popeth yn Saesneg.

Aethpwyd ymlaen yn y llyfryn i fanylu ar amcanion y Gymdeithas yn yr ymgyrch, sef sianel deledu Gymraeg gyflawn, sianel deledu Saesneg i Gymru, ac yn gyfatebol tonfeddi radio Cymraeg a Saesneg. Mae'n bwysig hefyd nodi mor bellgyrhaeddol a sylfaenol oedd yr amcanion eraill a nodwyd, sef Corfforaeth Ddarlledu Annibynol i Gymru a fyddai'n gyfrifol am y sianeli a'r tonfeddi uchod ac yn rheoli y sianeli eraill a ddarlledid yng Nghymru, sef ITV a BBC 1. Awgrymwyd, gyda llaw, y dylai'r sianel Saesneg i Gymru gymryd lle BBC 2 gan ddefnyddio rhaglenni BBC 2 i lanw'r amser. Pwysleisiwyd ansawdd rhaglenni, oherwydd dyma'r gwrthwynebiad mwyaf oedd gan Gymry Cymraeg yn y cyfnod i'r ymgyrch dros sianel Gymraeg; roedd y rhaglenni Cymraeg a dderbynid ar y pryd mor amrwd o ran safon oherwydd prinder cyllid fel na fynnai pobl sianel yn llawn o'r math yma o raglenni. Ymestynnai'r amcanion yn y llyfryn hyd yn oed mor bell â gorsafoedd radio lleol gan fynnu system wedi'i wladoli ar raddfa leol.

Fel mewn llawer o ymgyrchoedd, mae llwyddiant yn dibynnu ar ffactorau allanol — fe ddigwyddai fod ar y pryd y bedwaredd sianel yn segur ac yn bosibl ei defnyddio yn ystod y ddegawd oherwydd y newidiad o VHF i UHF. Felly, roedd seiliau'r ymgyrch eisoes yn bod ac yn ymddangos yn wrthrychol dderbyniol; gallai'r bedwaredd sianel fod yn sianel Gymraeg a gellid llenwi'r bylchau ar HTV a BBC Cymru gyda mwy o raglenni Saesneg o Gymru i ddatblygu ymhén amser i fod yn sianel Saesneg gyflawn o Gymru. Roedd hi hefyd yn bwysig sicrhau fod pawb yng Nghymru yn gallu derbyn y gwasanaeth — pwnc llosg arall yn y saithdegau. Rhain oedd y camau cyntaf tuag at y nod. Cafwyd hefyd yn y llyfryn ymdriniaeth amrwd ar y costau ariannol; ac ymdriniaeth fanwl, seiliedig ar ymchwil yng Nghaerdydd ynglŷn â'r sefyllfa gyfreithiol a sefyllfa presennol y gwasanaeth darlledu yng Nghymru, gydag atodiad manwl. Un o'r pwyntiau propaganda mwyaf llwyddiannus ar y pryd oedd fod y BBC yn darlledu 168 o oriau'r wythnos mewn ieithoedd tramor ledled y byd, e.e. 70 awr mewn Arabeg, dros 10 awr mewn Chineg, 38 awr mewn Ffrangeg, 28 awr mewn Sbaeneg (na ddeuent â cheiniog o arian i goffrau'r BBC); ond yn amharod i ddarparu ar gyfer Cymry Cymraeg.

Yn ôl at yr ymgyrch ei hunan. Fel y dywedwyd, am y tro cyntaf yn hanes y Gymdeithas, fe fu ymdrech i gynllunio ymgyrch. Pedwar aelod oedd ar y grŵp darlledu ar y cychwyn; sef Gwyneth Wiliam, a bwysleisiai'n gyson effaith ddinistriol darlledu Saesneg yng Nghymru; Ffred Ffransis ac Arfon Gwilym a wnai llawer o'r gwaith trefnu o'r swyddfa yn Aberystwyth; a Gronw ap Islwyn a wnai llawer o'r gwaith ymchwil yng Nghaerdydd. Roedd yr amser a roddwyd i'r gwaith trefnu a'i natur trwyadl yn hollol newydd yn y Gymdeithas. Byddai cyfarfodydd y grŵp darlledu yn niwedd 1970 a dechrau 1971 yn arfer parhau am benwythnos cyfan: fel arfer byddai'r cyfarfodydd yn fflat Gronw yng Nghaerdydd, gyda Ffred ac Arfon yn teithio (yn ddi-gerbyd!) i lawr o Aber, a Gwyneth o Bontypridd. Deuai'r pedwar at ei gilydd ar nos Wener i ddechrau trafod, ac ai'r trafodaethau ymlaen trwy ddydd

a nos Sadwrn ac ymlaen i fore dydd Sul pryd y dychwelai pawb adref ar ôl amser cinio i weithredu ar y cynlluniau yn ystod yr wythnos. Roedd hyn, gyda llaw, yn wir hefyd yn ystod y cyfnod o dri mis o weithredu mawr ym 1973.

Nid oedd pawb yn y Gymdeithas yn croesawu'r duedd newydd yma: yng nghyfarfod o Senedd y Gymdeithas yn Hydref 1970, yn dilyn y cyfarfod cyffredinol, dim ond o un bleidlais y trechwyd gwelliant gan Emyr Llywelyn na ddylai'r Gymdeithas gyhoeddi llyfryn manwl ar ein hamcanion darlledu, ond yn hytrach y dylid mynd allan i weithredu'n syth. Teimlai Emyr, ac eraill, fod peryglon biwrocataidd yn y dull o gyfarfodydd, trafodaethau, cyhoeddiadau, swyddfa barhaol ac o bosib swyddogion parhaol yn y dyfodol; teimlid y gallent fynd yn law farw ar Gymdeithas yr Iaith ac na weddent i Gymdeithas weithredol. Y dyfyniad mawr oedd: "Ni fyddai'r Basgiaid yn mynd ati'r ffordd hyn". Ond, fe benderfynwyd trwy fwyafrif o un i ddilyn y llwybr hwn a chynllunio adeiladu'r ymgyrch yn fanwl; plediai pleidwyr y safbwynt hwn y byddai hyn yn sicrhau parhad yn yr ymgyrch yn hytrach na gweithgarwch ysbeidiol fel y gweddai i natur gymhleth yr ymgyrch ddarlledu, a oedd mor wahanol i ymgyrchoedd y gorffennol; dadleuwyd hefyd y byddai hyn yn gosod seiliau cadarn a chyfiawnhad dros yr ymgyrch o weithredu difrifol a ragwelai pawb fel peth anochel yn y dyfodol. Nid oedd pawb, hyd yn oed ar y grŵp, yn argyhoeddedig o lwyddiant; credai Gronw, er enghraifft, er y byddai'r llywodraeth yn ildio ar fater cymharol ddibwys iddyn nhw, fel iaith arwyddion ffyrdd, fod y gyfundrefn ddarlledu'n mynd at galon gafael y wladwriaeth ar y bobl, ac na fyddent byth yn ildio'n sylfaenol ar y mater yma. Ond roedd pawb yn gytûn fod cyfrifoldeb ar y Gymdeithas i frwydro.

Ceir y disgrifiad gorau o gynllunio'r ymgyrch rhwng Cyfarfod Cyffredinol 1970 a haf 1971 mewn erthygl yn *Tafod y Ddraig* ym mis Mawrth 1971, a oedd yn amlwg wedi'i anelu at aelodaeth gyffredinol y Gymdeithas nad oeddent yn sylweddoli arwyddocâd yr hyn oedd yn digwydd. Yn yr erthygl, ceisir dangos yn gyntaf natur yr ymgyrch, a thry'r awdur at orffennol yr ymgyrch:

"O edrych yn ôl dros gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Canol yn y cyfnod hwnnw (1968/69) fe welir bod pob math o symudiadau'n cael eu hawgrymu, ond nis gweithredwyd hwy. Mae'n amlwg mai'r ddau brif wendid yn yr ymgyrch oedd diffyg cynllun cyson a chynyddol o weithredu, a'r ffaith nad oedd neb â chyfrifoldeb dros weinyddiad yr ymgyrch arbennig hon. Ni ellir disgwyl cyflawni nod mor fawr â chwyldroi'r cyfryngau darlledu yng Nghymru trwy un gwrthdystiad symbolaidd, na thrwy un ddeiseb, na thrwy unrhyw weithred unigol. Rhaid oedd mynd ati i lunio cynllun cyson a chynyddol o weithredu ar lefel genedlaethol."

Eir ymlaen i ddisgrifio sut yr adeiladwyd yr ymgyrch, yn amlochrog. Roedd yr holl gamau hyn ar y pryd o dan gysgod digwyddiadau mwy dramatig yr ymgyrch arwyddion, ond yr oeddynt yn gosod seiliau ar gyfer ymgyrchu mwy agored a chyhoeddus erbyn yr haf canlynol.

Ym mis Tachwedd 1970, penderfynwyd ar gynllun gweithredu symbolaidd i ddwyn sylw cyhoeddus at yr alwad am sianel deledu Gymraeg a oedd newydd ei gyhoeddi yn y llyfryn. Dywedir yn yr erthygl yn *Nhafod y Ddraig* (uchod), y

dewiswyd Llundain fel targed, gan mai yn y fan honno yr oedd y prif awdurdodau darlledu a oedd yn ffurfio polisi; ond mae'n debyg yr oedd hefyd yng nghefn meddyliau cynllunwyr y gweithredu, y sylw mawr a gafwyd yn y wasg Lundeinig a Phrydeinig y mis Chwefror cynt i'r brotest yn yr Uchel Lys. Am dri diwrnod yn olynol bu aelodau'r Gymdeithas yn rhwystro'r ffordd yn ymyl Pencadlys y BBC yn Regent Street: y diwrnod cyntaf trwy rwystro'r fynedfa i'r pencadlys; yr ail ddiwrnod trwy rwystro'r ffordd y tu allan; a'r trydydd diwrnod, chwech o ddewrion yn ymestyn eu hunain yn ofalus ar draws Oxford Street (dyma'r adeg y tynnwyd y llun enwog o Gronw ap Islwyn yn eistedd fel Mahatma Gandhi barfog ar y ffordd gan edrych i fyw llygaid goleuadau bws deulawr Llundain!). Bob diwrnod fe arestwyd yr aelodau — rhyw dri dwsin i gyd, a'u dwyn gerbron llys y diwrnod canlynol ar gyhuddiad o rwystro'r ffordd. Cafodd rhai eu trin y diwrnod canlynol ac eraill eu traddodi i garchar am ddeuddydd i ddisgwyl gwrandawriad, Roedd y rhai cyntaf hyn yn cael eu carcharu o ganlyniad i'r ymgyrch ddarlledu yn cynnwys nifer a ddaeth yn enwog erbyn hyn ar y cyfryngau, pobl fel Huw Jones a John Pierce Jones.

O'i gymharu â'r sylw a roddwyd yn fyd-eang i brotest yr Uchel Lys, naw mis ynghynt, tila iawn oedd y cyhoeddusrwydd a ddilynodd y gweithredoedd hyn. Ond llwyddwyd sicrhau fod y neges am yr ymgyrch newydd yn cyrraedd yr awdurdodau darlledu, ac yn cyrraedd rhywfaint yn fwy o bobl Cymru. Yn gyfochrog â'r gweithredu hyn, ceisiwyd trefnu ymgyrch i addysgu'r cyhoedd yng Nghymru am ofynion yr ymgyrch (y tro cyntaf erioed i Gymdeithas yr Iaith ymgymryd ag ymarferiad cyfathrebu o'r fath), trwy ddosbarthu 50,000 o daflenni a threfnu gorymdaith a rali wrth y Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Yn ôl safonau'r nifer a arferai ddod i raliau'r Gymdeithas yn y dyddiau hynny, digon gwan oedd y gynulleidfa o 150; ond roedd cam bach arall wedi'i gymryd yn yr ymgyrch. Ceisiwyd dangos dwyster teimladau aelodau'r Gymdeithas ynglŷn â'r mater trwy gynnal gwynos tu allan i bencadlys y BBC yn Llandaf, ar y nos Galan oeraf ers blynddoedd; a llwyddwyd i ddangos dwyster teimladau'r dwsin a ddaeth ynghyd!

Ar Ionawr 12fed, 1971, aethpwyd yn ôl i Lundain a thorriwyd ar draws eisteddiad o Dŷ'r Arglwyddi gan bedwar aelod o Gymdeithas yr Iaith gyda'r alwad enwog: "Arglwyddi Lloegr, gwrandewch ar lais y Gymru ifanc" — wrth fod cadwyni un o geidwaid y tŷ yn cael eu troi o gwmpas gyddfau'r protestwyr wrth iddynt gael eu llusgo allan. (Cyhoeddodd y *Guardian* fod Mr Eryl Owain wedi dangos marciau coch ar ei wddf! Y tri arall oedd Ieuan Bryn, Ffred Ffransis a Dyfrig Siencyn). Ar ôl cael eu cadw i mewn tan ddiwedd yr eisteddiad gollyngwyd y pedwar eithafwr yn rhydd eto ar strydoedd Llundain. Efallai'n siomedig am na chawsant eu cyhuddo o "deyrnfradwriaeth" o leiaf — aethant ati i dorri i mewn i balas San Steffan eto'r noson ganlynol gyda'r bwriad o feddiannu swyddfa'r Gweinidog Post a Thelathrebu, a oedd â chyfrifoldeb dros ddarlledu. Nid oedd safon ymchwil y Gymdeithas wedi codi i'r lefel a gyrhaeddwyd yn nes ymlaen yn y ddegawd; a chan nad oedd ganddynt unrhyw syniad ble'r oedd y swyddfa arbennig honno, ceisiodd tri o'r pedwar fynediad drwy'r ffenestr gyntaf a ddaeth i'r amlwg. Fe'u harestwyd

gan yr heddlu y tu fewn i'r storws ffeiliau! Doedd dim cymaint o ymboeni yn y cyfnod hwn am ymchwil manwl oherwydd nawws weithredol y cyfnod, lle credid, i raddau helaeth, mai'r parodwydd i weithredu a derbyn y canlyniad oedd bwysicaf, nid yr union weithred a gyflawnwyd.

Pan aeth y tri i mewn drwy'r ffenestr, gadawyd Dyfrig Siencyn ar y stryd y tu allan fel swyddog cyhoeddusrwydd gyda'r ddyletswydd hollbwysig o ffonio'r wybodaeth yn ôl i Gymru. Fe'i holwyd gan heddwad a'i gwelodd ar y stryd p'un ai Cymro oedd e, a chan iddo ateb "no-o" mewn acen ogleddol gref iawn, fe'i arestiwyd yn syth. Broliodd arolygwr yr heddlu wrth y tri arall: "We've got your publicity man!" a bu 'news blackout' llwyr am y weithred. Bu'r pedwar yng ngharchar Brixton am bum wythnos yn disgwyl achos llys (ar adeg streic bost), ac yn yr achos o'r diwedd cawsant ddedfryd ohiriedig o 2 fis o garchar (a wnaethpwyd gan Ffred ar ddiwedd y mis canlynol — ond stori arall yw honno). Parhaodd y Grŵp Darlledu i geisio codi'r stêm yn yr ymgyrch, ar waethaf pob diffyg sylw a roddwyd i'w hymdrechion. Yr oedd y cynllun nesaf yn fwy uchelgeisiol. Trefnwyd ym mis Mawrth '79 daith gerdded 100 milltir dros bedwar diwrnod o Lanelwy i Fangor, trwy Corwen, Bala, Blaenau Ffestiniog, Pwllheli a Chaernarfon; gyda'r bwriad o gasglu trwyddedau teledu ar y ffordd i'w llosgi ar ddiwedd y daith o flaen Pencadlys y BBC ym Mangor. Bu tua 200 o bobl mewn rali ar gychwyn y daith o flaen Eglwys Gadeiriol Llanelwy pryd yr anerchwyd gan Lewis Valentine, Gwilym R Jones a Dafydd Iwan. Yr oedd esgob newydd Llanelwy hefyd wedi cytuno i siarad, ond fe dynnodd yn ôl wedi ofni y gallai'r cynllun ynghylch trwyddedau teledu ymddangos fel pe bai'n rhoi sêl ei fendith ar weithredu torcyfraith. Cymerodd tua 150 o aelodau'r Gymdeithas ran yn y daith hon, a chafwyd ymateb eithaf brwd o'r diwedd gan y cyhoedd mewn rhai mannau ar hyd y ffordd — yn arbennig ym Mhorthmadog a'r Ffôr. Ar y prynhawn Sadwrn, cynhaliwyd gwasanaeth awyr agored ar lan Llyn Celyn o dan arweiniad y Parch WJ Edwards.

Er nad oedd pethau'n dod yn rhwydd, roedd hi'n amlwg fod erbyn hyn digon o benderfyniad i ddyfalbarhau â'r ymgyrch hon, ac roedd pobl yn dechrau ei chymryd o ddifri. Yr wythnos cyn y daith gerdded, roedd Gronw a Ffred wedi cyflwyno'r achos gerbron Cyngor Darlledu Cymru — sef bwrdd llywodraethol y BBC yng Nghymru. Yn dilyn y cyfarfod hwn, cychwynodd y BBC ar astudiaeth o ofynion y Gymdeithas a arweiniodd fisoedd yn ddiweddarach at adroddiad yn pwysleisio costau uchel y cynllun. Sbardunodd hyn y ddadl yn y Senedd ac yng Nghymru, ac yn y pen draw ystyriaeth gan Bwyllgor Crawford. Cyn y daith gerdded, hefyd, roedd grŵp bach o Gymry amlwg* wedi gwahodd enwau pobl oedd yn barod i ymrwymo i wrthod talu am eu trwyddedau teledu, ac erbyn mis Ebrill roedd cannoedd wedi ymrwymo a disgwylient dderbyn tua mil o enwau erbyn mis Mai. Ond, roedd ymgyrch y Gymdeithas yn ddistaw ym misoedd Ebrill

* Enwau'r grŵp: Dr Pennar Davies, Mr Ithel Davies, Parch Gwyndaf Evans, Dr Bobi Jones, Mr Gwilym R Jones, Mr John Gwilym Jones, Dr Tudur Jones, Parch RS Thomas, Parch Lewis Valentine a Mr Ned Thomas.

a Mai oherwydd y sylw aruthrol a roddwyd i'r achos cynllwyn (arwyddion) ym Mrawdlys Abertawe.

Eto, yn syth ar ôl achos Abertawe, dechreuwyd ar drefniadau'r ddeiseb genedlaethol a'r daith gerdded oedd i gychwyn ym Mangor yn dilyn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac i ddiweddu wrth y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd. Roedd cyfarfodydd y grŵp darlledu yn y cyfnod hwn yn mynd yn fwy difrifol, wrth bod yr aelodau'n sylweddoli y byddai'n rhaid trefnu yr ymgyrch weithredol dorcyfraith mwyaf difrifol yn hanes Cymdeithas yr Iaith os am gael toriad trwodd a dangos dwyster yr argyfwng. Penderfynwyd ar yr 'egwyddor' o ddifrod cyfyngedig i offer darlledu, gyda'r sylweddoliad y gallai hynny olygu gwerth miloedd o bunnoedd o ddifrod, ac efallai flynyddoedd o garchar i'r gweithredwr.

Cyhoeddwyd bwriad y Gymdeithas i weithredu o ddifri mewn cynhadledd i'r wasg yng ngwesty'r Park, Caerdydd ym Mehefin 1971, gan roi'n fwriadol ar blât i'r heddlu ddeunydd achos cynllwyn—a wireddwyd yn yr hydref—a fyddai'n llwyfan mawr i'r ymgyrch. Roedd cyfnod y gwrthdaro mawr ar fin dechrau.

5. Y Gwrthdaro Mawr

Yr ymgyrch ddarlledu fel prif ymgyrch Cymdeithas yr Iaith

Er mwyn deall arwyddocâd ac effaith y gweithredu a ddaeth ym mis Gorffennaf 1971, rhaid cofio eto am orffennol ymgyrchoedd y Gymdeithas. Hyd yr amser hwnnw, yr oedd gweithredu torcyfraith y Gymdeithas wedi bod yn gyfyngedig i atal trethi, rhwystro ffyrdd a'r difrod mwyaf oedd symud arwyddion ffyrdd. Felly, yn y cyd-destun yma y clywodd Cymru'n syn fod aelodau o Gymdeithas yr Iaith wedi cyflawni difrod gwerth £5,000 yn stiwdio Granada, Manceinion. Yr ymateb yn syth gan lawer o genedlaetholwyr oedd "fandaliaeth bur"; ac ni chymerwyd y cam hwn cyn mynd trwy gyfnod o ddadlau brwd y tu fewn i'r Gymdeithas ei hun. Y sylweddoliad cyntaf oedd fod gwahaniaeth rhwng difrodi arwydd ffordd Saesneg, a oedd ynddo'i hun yn drais yn erbyn yr iaith a'r gwareiddiad Cymraeg ar y naill law, ac ar y llaw arall ddifrodi offer darlledu a oedd ynddo'i hun yn niwtral h.y. yn rhywbeth y gellid ei ddefnyddio i drosglwyddo gwasanaeth Cymraeg neu Saesneg. Penderfynwyd, fodd bynnag, na ellid yn foesol wahanu'r offer oddi wrth y defnydd a wnaed ohono; a bod cyfiawnhad dros daro'n erbyn yr awdurdodau darlledu (hyd yn oed y cwmnïau preifat) a oedd yn gweithredu'n anghyfiawn yn erbyn y Gymraeg, a thros ddifrodi eu heiddo; ar yr amod, wrth gwrs, bod y gweithredwyr yn cymryd y cyfrifoldeb ac yn cynnig eu hunain am y canlyniadau, er mwyn dangos difrifoldeb y mater ac er mwyn cael cyfle i ddadlau'r achos gerbron pobl Cymru. Roedd dadl hefyd ynglŷn â phriodoldeb gweithredu mewn mannau fel Manceinion a Bryste a olygai amddifadu pobl gogledd neu dde-orllewin Lloegr o'u gwasanaeth — a oedd hyn yn gyfiawn? Ond, ar y llaw arall, a oedd pwynt mewn amharu ar y gwasaneth a'r offer darlledu yng Nghymru — a gynhwysai'r ychydig oriau o Gymraeg a oedd gyda ni? Penderfynwyd bod gorsafau teledu Manceinion a Bryste yn dargeddi cymwys gan eu bod yn darlledu o Loegr i Gymru ac yn cynrychioli imperialaeth ddiwylliannol.

Cafwyd pythefnos mawr o weithredu, felly, ym mis Gorffennaf 1971. Am dri y bore, dydd Llun y 13eg o Orffennaf, dringodd deg aelod o'r Gymdeithas bump o fastiau teledu trwy Gymru; yr aelodau oedd Arfon Gwilym, Mici Plwm, Wali Williams, Dafydd Yoxall, Wayne Williams, Ffred Ffransis, Elfed Lewys, Philip Wyn, Myrddin Williams a Trystan Iorwerth. Eu bwriad yn y weithred ddi-drais hon oedd i orfodi yr awdurdodau darlledu i ddiffodd y mastiau trwy eu presenoldeb corfforol. Fel y dywedodd y *South Wales Evening Post* y noson honno o dan y pennawd "Language Men Risk Death", yr oedd tri posibilid o farw: yn gyntaf, syrthio oddi ar yr ysgol fach a arweiniai i fyny'r mastiau, ac na arferai ond gweithwyr profiadol ei dringo; yn ail, pelydreiddio o belydrau'r mast; neu'n drydydd, drydaneiddio os amherid â'r gwifrau. Cafwyd oriau o drafod gan y grŵp darlledu cyn rhoi cyfarwyddion i'r aelodau. Rhoddwyd taclau dringo a bachau iddynt ar gyfer dringo'r ysgolion a gwneud eu hunain yn ddiogel ar y platfformau,

rhoddwyd cyfarwyddion iddynt beidio ymyrryd â'r gwifrau o gwbl, a gwnaed trefniant i ffonio'r awdurdodau yn syth i ddweud am yr hyn oedd wedi digwydd. Arhosodd y bechgyn ar y mastiau am bedair awr ar ddeg, hyd bump o'r gloch y prynhawn, â'r wlad o'u cwmpas ymhell i lawr yn dechrau troi fel petasen nhw mewn breuddwyd.

Fel y digwyddodd, nid oeddynt wedi dringo'n ddigon uchel i fyny'r mastiau—rhyw gan troedfedd ar gyfartaledd—ac ni ddiffoddwyd y mastiau (roedd rhaid aros i fyny tan 5pm am na ddechreuai'r rhaglenni y pryd hynny cyn 4pm, â'r bwriad oedd rhwystro'n sumbolaidd yr awr gyntaf o deledu). Cafwyd sawl anffawd wrth geisio cyflawni'r weithred uchelgeisiol(!) hon. Bu nifer yn tynnu allan y funud olaf, felly bu'n rhaid i griw o Glwyd fynd lawr i fast Preseli yn Nyfed, ac un darpar



weithredwr o'u plith yn troi ar ei figwrn wrth redeg am yr ysgol a gorfod dychwelyd i dŷ saff a threulio drwy'r dydd yn y gwely. Yn Llanddona, Môn, tynnodd un gweithredwr allan ac fe ruthrwyd un o Aberystwyth i gymryd ei le; wrth i hwnnw geisio dod o hyd i'w gydweithredwr yn ymyl y mast, cafodd sioc ei fywyd i weld yr hyn a ymddangosai fel dyn du yn codi o'r ddaear o'i flaen! — un o'r gwylywyr ydoedd, wedi blacio'i wyneb er mwyn ceisio peidio bod yn rhy amlwg. Yng Ngwenfo, yn ymyl Caerdydd, fe lusgwyd y ddau fachgen ysgol Wayne Williams a Trystan lorwerth i ffwrdd o'r platform, 100 troedfedd i fyny, gan yr heddlu yn yr arddangosiad mwyaf anghyfrifol a di-alw amdano o nerth. Ym Mlaenplwyf ger Aberystwyth aeth Elfed Lewys a Philip Wyn dros hanner ffordd i fyny'r mast, i mewn i fath o banel i ymgysgodi rhag y tywydd; clywsant yn ddiweddarach y gallent fod wedi niweidio'u clustiau am byth pe bai awyren wedi hedfan drosodd yn isel ar y pryd. Cymerwyd enwau'r gweithredwyr i gyd wrth iddyn nhw ddisgyn o'r mastiau, ac fe'u gollyngwyd yn rhydd. Ond yr oeddynt i gydgyfarfod eto ym Mrawdlys yr Wyddgrug mewn achos o gynllwyn.

Roedd y Gymdeithas wedi trefnu deg diwrnod yn ddiweddarach, fod y gweithredoedd o ddifrod difrifol cyntaf i fod yn Stiwdios Granada, Manceinion a Bryste yr un noson. Ni lwyddodd y criw a aeth i lawr i Fryste i gael mynediad i'r adeilad, ac fe'u gollyngwyd yn rhydd ar ôl cael eu holi gan yr heddlu. Ond yr oeddynt hwythau hefyd i ymddangos yn ddiweddarach ym Mrawdlys yr Wyddgrug. Roedd y tri a aeth o barti ffarwel yn y Rhyl draw tua Manceinion mewn car diogel, wedi dod o hyd i ffordd rwydd i mewn, trwy ymchwil ymlaen llaw. Am ddau y bore roedd yr holl ardal yng ngorllewin y ddinas yn ddistaw, ac wedi cael mynediad cawsant, trwy lwc anhygoel, fod drws y prif ystafell reoli ar agor (gan fod y gofalwr nos yn defnyddio'r lle i wneud paned — a oedd i arwain at fygwth a dyrnu gan y gweithwyr yn erbyn y gweithredwyr, gyda chydweithrediad yr heddlu, gan y gwyddent y collent eu swyddi am eu hesgeulustod). Wedi baricedio'r drws, roedd yn rhaid i Goronwy Fellows, Myrddin Williams a Ffred Ffransis benderfynnu yn y fan a'r lle sut i droi'r 'egwyddor' o ddifrod cyfyngedig yn realiti. O'u blaenau, roedd deuddeg sgrin set monitor; felly, fe dorrwyd pedwar, fe grafwyd wyneb pedwar a gadawyd llonydd i bedwar. Ymddengys, flynyddoedd yn ddiweddarach yn semanteg naïf a gwirion braidd, ond nid oedd manylion felly yn bwysig ar y pryd — dim ond yr ewyllys a'r parodrwydd i weithredu a herio'r drefn a derbyn y canlyniadau. Fe dorrwyd lensys rhai camerâu a nifer o setiau eraill, a dinistriwyd llawer o ffeiliau. Rhoddwyd offer gwerthfawr ar draws y drws, a chan bod yr ystafell yn 'soundproof' ni chlywodd neb ddim o'r hyn a ddigwyddodd.

Eisteddodd y tri a gwneud paned iddyn nhw eu hunain gan ofalu gadael 25 ceiniog newydd (roedd yr arian degol newydd ddechrau) yn dâl am y coffi, siwgr a'r llaeth. Roedd digon o gyfle i ddianc yr un ffordd ag y daethant i mewn, ond byddai hynny'n difetha pwrpas y weithred. Ar ôl tua awr fe gyrhaeddodd yr heddlu. Ni phoenent ddim am yr offer gwerthfawr yn ymyl y drws a thorasant drwodd i lusgo'r gweithredwyr allan. Yn unol â'i gyfarwyddion ynghynt, ailadroddodd Goronwy dro ar ôl tro. "Fy enw yw Goronwy Fellows, rwy'n ddauddeg pedwar oed, rwy'n



Tafod y Ddraig

MISOLYN CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG pris 6ch

CYNLLWYN

Ffred Ffrancis

Elfed Lewis

Mici Plwm

Philip Wyn

Myrddin Williams

Goronwy Fellows

Trystan Iorwerth

Gareth ap Siôn

Arfon Gwilym

Wali Williams

Dafydd Yoxall

Gronw Dafis

Wayne Williams

Gwynn ap Gwilym

Meilir Owen

Selwyn Hans

Llew ap Gwest

byw yn 30 Aled Avenue, y Rhyl; mae gennych chi gopi o 'natganiad a dw'i ddim yn bwriadu dweud dim byd pellach." Dyma'i ateb i bob cwestiwn nes i'r heddlu ddechrau gwylltio. Trawsant y tri gweithredwr yn ffyrnig, ond ni wnaethpwyd cwyn swyddogol yn eu herbyn gan i'r gweithredwyr deimlo fod yr heddlu'n poeni y gallai fod ffrwydron yn adeilad Granada a'u bod yn ceisio achub bywydau. Ond deallwyd wedyn, gan gyd-garcharorion yng nghanolfan gaethiwo Risley, mai dyma'r driniaeth arferol a gai troseddwy'r ar ddwylo heddlu Manceinion.

Cyhuddwyd y tri o wneud gwerth £5,000 o ddifrod; a dywedodd y barnwr yn ddiweddarach, yn y llys, nad oedd dim diolch iddyn nhw nad oedd teledu Granada i ffrwrdd o'r awyr am amser hir. Fe'u traddodwyd i ganolfan gaethiwo Risley a'u hebrwng yn ôl i'r llys ynadon am wrandawriad bob wythnos am bump wythnos. Ar ôl pump wythnos, fe dynnodd yr heddlu y cyhuddiadau'n ôl; ond wrth i'r tri gerdded o'r llys fe'u harestiwyd eto a'u dwyn i swyddfa'r heddlu yn yr Wyddgrug, lle cawsant wybod fod 13 o aelodau'r Gymdeithas wedi cael eu cyhuddo'r diwrnod cynt o gynllwynio i dresmasu ar dir yr awdurdodau darlledu i ddifrodi eu heiddo. Fe'u cyhuddwyd hwythau o'r un drosedd.

Dyma ddangos y modd penderfynol yr oedd yr heddlu a'r wladwriaeth am geisio sathru ar Gymdeithas yr Iaith. Meddai Alwyn D Rees yn *Barn*:

"O'r braidd y mae tresmasu heb wneud niwed i ddim yn drosedd o gwbl — heb sôn am fethu â thresmasu fel y rhai a aeth at stiwdio'r BBC ym Mryste", gellid yn hawdd fod wedi delio a'r troseddau, hyd yn oed ddifrod Manceinion, mewn llysoedd ynadon; "ond, am yr ail waith mewn blwyddyn, gwelodd y llywodraeth yn dda i gynnal sioe fawr yng Nghymru ar sail mân droseddau. Drwy droi achosion cyffredin yn achosion brawychus o 'gynllwyn', medrai dynnu'r Uchel Lys i mewn i'r fusnes a gwneud cosbau trymach yn bosibl."

Mynnodd y bechgyn mai achos gwleidyddol ydoedd a dyma oedd i liwio eu hagwedd pan ddaeth yr achos i lys yn yr Wyddgrug o'r diwedd ym mis Tachwedd 1971 — eu penderfyniad i wrthwynebu'r llys bob cam gan mai llys gwleidyddol ydoedd i geisio sathru ar y Gymdeithas.

Ond, yn ôl at yr haf. Tra'r oedd y tri yn dal yng nghanolfan Risley bu'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mangor, ac fe'i dilynwyd gan daith gerdded hir i Gaerdydd. Cynhaliwyd rali dros y sianel o flaen stiwdios y BBC ym Mangor hefyd. Yn sydyn roedd y papurau yn llawn o'r ymgyrch ddarlledu. Ffrwydrodd i fywyd a chymryd drosodd ym meddyliau'r cyhoedd ac o fewn y Gymdeithas fel y brif ymgyrch dros yr iaith. Y daith gerdded hon oedd y peth mwyaf uchelgeisiol i'r Gymdeithas fentro arno yn y maes cysylltiadau cyhoeddus. Fe gychwynodd gyda rali fawr mewn maes parcio ym Mangor a'r Dr Tudur Jones yn annerch y dorf. Ar ddiwrnod ola'r daith cychwynodd 200 gerdded y deuddeg milltir o Bontypridd i'r brifddinas, ond chwyddodd y nifer i 500 wrth gerdded trwy Gaerdydd at y Swyddfa Gymreig. Bu o gwmpas hanner cant yn cerdded bob dydd a chasglwyd dros 10,000 o enwau ar y ddeiseb yn gofyn am Gorfforaeth Ddarlledu Gymreig a fyddai'n gyfrifol am sianel Gymraeg a Saesneg a'r tonfeddi radio, ac am sicrwydd y byddai pob rhan o Gymru yn derbyn y gwasanaeth. Roedd dau o aelodau ifanc y Gymdeithas wedi cerdded

pob cam o'r daith, sef Geraint Tudur o Fangor a Rhodri Glyn Tomos o Wrecsam, ac Elfed Lewys ond wedi colli un diwrnod. Anerchwyd y rali yng Nghaerdydd gan Dr Phil Williams, Gwynfor Evans, Y Parch Jacob Davies a John Owen a ddywedodd (yn Saesneg), "Os cynllwyniwch gyda'r wladwriaeth cewch CBE, os cynllwyniwch yn ei herbyn edrychwch dan eich gwllau yn y nos", a Gronw Davies. Cafwyd, hefyd, neges o gefnogaeth gan Carwyn James a oedd ar y pryd yn hyfforddwr tîm rygbi'r Llewod Prydeinig.



Y cerddwyr yn Nhalybont

Fel hyn yr ysgrifennodd Arfon Gwilym, a wnaeth y rhan fwyaf o'r gwaith trefnu am y daith yn *Tafod y Ddraig*, Medi 1971:

"'Go home Pakis!'; 'Cewch i 'neud tipyn o waith'; 'Welsh Nash eto'. Dyma adwaith rhai o bobl Cymru i aelodau Cymdeithas yr Iaith wrth iddynt fynd heibio ar eu taith gerdded genedlaethol i ennill sianel deledu Gymraeg. Nid yn hawdd y gall neb anghofio'r rhan honno o'r daith drwy Drawsfynydd ar ddiwrnod y llifogydd mawr, y glaw wedi tywallt i lawr ers ben bore a phawb yn wlyb at ei groen, a rhyw wraig yn gweiddi o ben drws ei thŷ: 'Oes gynnnoch chi ddim byd gwell i'w

wneud yn y tywydd yma y diawlaiad gwirion.' Wrth edrych yn ôl roedd pethau felly ymhlith munudau ysgafna'r daith.

"Ond, ar y cyfan, eithriadau prin iawn oedd y rhai hynny oedd yn ysgyrnygu'u dannedd. Drwy gydol y pythefnos cawsom ein syfrdanu gan faint y gefnogaeth oedd i'r ymgych ddarlledu a'r anfonlonrwydd mawr oedd i'w deimlo ym mhob rhan o Gymru ynglŷn â'r gwasanaeth teledu. O'r rhai hynny y gofynwyd iddynt arwyddo'r ddeiseb bodlonodd dros 80% ar gyfartaledd. Cawsom ninnau gyfle gwych i gyflwyno'n hachos ni fel cenedlaetholwyr mewn modd uniongyrchol i bobl ledled y wlad am y tro cyntaf erioed mewn llawer lle. Amheuthun oedd cael trin a thrafod yr iaith Gymraeg ar ddrysau tai, a chanfod fod llawer mwy o gefnogaeth i ni fel Cymdeithas nag a ddychmygwyd erioed — pan fo'r achos yn cael ei gyflwyno yn syml ac yn deg. Hyd yn oed yn rhannau Seisnigedig o'r De roedd hi'n amlwg fod pobl yn deall ac yn gwerthfawrogi ein brwydr. Yr unig siom efallai oedd gweld cyn lleied wedi dod ynghyd i Gaerdydd i rali mor bwysig, i guro cefnau'r degau o bobl a roddodd eu gwyliau o'r neilltu er mwyn cyfrannu at yr achos ac i ddatgan eu parodrwydd i frwydro ymlaen drwy ddŵr a than.

"Ar y cyfan, fodd bynnag, bu'r fenter yn llwyddiant diamheuol. Rhaid talu teyrnged uchel i arweinwyr dygn megis Elfed Lewys a Gwilym Tudur, a llu o rai eraill na ellir cychwyn eu henwi, i ferched Rhyddypennau a Felinfach am baratoi bwyd i'r teithwyr, i'r holl siaradwyr yn y gwahanol gyfarfodydd ar hyd y daith, ac i'r degau o deuluoedd ledled Cymru a agorodd eu drysau i'r cerddwyr ac a ddangosodd eu croeso a'u haelioni mewn modd na all neb ei anghofio. Diolch o galon. Gobeithiwn yn awr fod yr hâd wedi eu hau, ac y cawn weld ffrwyth ein hymdrechion cyn bo hir iawn."

Cynllwyn

Ym mis Medi daeth amser yr achos traddodi yn yr Wyddgrug, a daeth tro annisgwyl arall pan wrthododd y pump cyfieithydd swyddogol â chyfieithu yn y llys am eu bod yn cefnogi galwad y Gymdeithas am achos uniaith Gymraeg. Methwyd mynd ymlaen â'r achos traddodi, a defnyddiwyd dull cyfreithiol anghyffredin iawn, sef i gynnal yr achos traddodi yn absenoldeb y diffynyddion o flaen barnwr Uchel Lys yn Llundain. Penodwyd Hydref 25ain fel diwrnod cychwyn yr achos cynllwyn mawr yn erbyn yr 17 aelod. Aeth y Gymdeithas ati'n syth i drefnu rali yn Aberystwyth o blaid y sianel a gwnaeth naw o bobl amlwg ymdyngedu yno i beidio talu am eu trwyddedau teledu; llwyddasant gael 200 o'r 400 a oedd yn bresennol yn y rali i wneud yr un modd. Roedd mwy a mwy o garedigion yr iaith yng Nghymru yn dod i gefnogi'r alwad am sianel Gymraeg. Bu cyfraniad pwysig i'r ddadl gan Dr Phil Williams yn *Barn* mis Medi 1971, yn ateb dadleuon anonest yr awdurdodau fod y sianel yn dechnegol amhosibl. Dangosodd Dr Phil, mewn manylder, fod sefydlu sianel Gymraeg ar y bedwaredd sianel yn bosibilrwydd cwbl ymarferol ac aeth ymlaen i ddadlau'n gryf dros ei sefydlu. Cafodd ei ddadleuon ddylanwad ar Alwyn

D Rees a fu'n ansicr cyn hynny ynglŷn â dymunoldeb y sianel a daeth yntau'n lladmerydd cryf dros yr achos.

Daeth yr achos cynllwyn yn yr Wyddgrug ond ychydig fisoedd ar ôl yr achos cynllwyn ym maes arwyddion ym Mai 1971 ym Mrawdlys Abertawe, ac roedd pawb yn dueddol o gymharu'r ddau achos. Sylwai'r gohebwy'r ar un gwahaniaeth pwysig: yn Abertawe, bu Dafydd Iwan a rhai o'r diffynyddion eraill yn dadlau'r achos yn gyhoeddus gyda phob tyst a gyda'r erlyniad a'r barnwr yn gyson drwy'r prawf. Yn yr Wyddgrug, fodd bynnag, penderfynodd mwyafrif mawr y diffynyddion i wrthod cydweithio na chydweithredu â'r llys o gwbl gan eu bod yn ystyried y cyhuddiad o gynllwyn yn benderfyniad gwleidyddol i geisio torri'r Gymdeithas. Gwnaethant dorri ar draws yr erlyniad a chlerc y llys reit ar gychwyn yr achos, a phenderfynu treulio'r achos yn y celloedd o dan y llys, fel bod y ffars yn dod yn amlwg wrth i'r erlynydd, y barnwr a'r rheithgor syllu ar ddoc gwag.

Yn ystod y penwythnos cyn yr achos, daeth rhyw 50 o aelodau ynghyd i'r neuadd Babyddol yn yr Wyddgrug i aros gyda'i gilydd i drafod yr ymgyrch a dulliau o weithredu. Ac ar y noson cyn yr achos bu nifer i fyny drwy'r nos yn darllen, yn eu tro, y testament newydd ar ei hyd, er mwyn ceisio paratoi ar gyfer y prawf. Dyma gyfnod y diddordeb mawr yn y dull di-drais o weithredu gydag awduron Cymraeg yn ysgrifennu llyfrau ar fywydau Gandhi a Martin Luther King. Fore'r achos aeth nifer o aelodau i eistedd o flaen car y barnwr a'i atal am gyfnod rhag dod i'r llys, a bu nifer yn yr oriel gyhoeddus yn torri ar draws y trafodion. Ond yn wahanol i'r Barnwr Mars Jones yn Abertawe, roedd y barnwr hwn, Talbot, yn anghyson iawn ei agwedd tuag at y gwrthdystwyr; fe ddanfonodd rhai i'r ganolfan gaethiwo, ond gorchymyn bod eraill yn cael eu hebrwng o'r llys a'u gollwng yn rhydd. Yr olaf ddigwyddodd wedi'r ymyrraeth enwocaf yn ystod y prawf (y cyrhaeddodd yr hanes amdano dudalennau blaen yr holl bapurau Prydeinig) pan neidiodd Meinir Evans o'r oriel i ffynnon y llys gyda chopi o'r *TV Times* i gyflwyno tystiolaeth uniongyrchol i'r barnwr am gyn lleied o Gymraeg oedd ar y teledu.

Aethpwyd trwy'r achosion fesul un. Cymerwyd yn gyntaf achos Ffred, Goronwy a Myrddin yn torri i mewn i stiwdio Granada. Wrth i'r cyhuddiadau gael eu darllen bu'r tri (nad oeddynt yn enwog am ddifyrru mewn nosweithiau llawen) yn cynnal cyngerdd byr fyfyr yn y doc, gan ganu "Peintio'r Byd yn Wyrdd" drosodd a throsodd. Fel yr adroddent wedyn, roedd eu canu mor wael fel y cawsant flwyddyn o garchar — gan dorri eu hunan hyder fel perfformwyr cyhoeddus am byth! Fe'u hebryngwyd i'r celloedd ac aethpwyd ymlaen â'r achos yn eu habsenoldeb ac yn ddiwrthwynebiad. Bu'r erlyniad wrthi'n ceisio profi, nid yn unig ffeithiau moel y digwyddiadau ond bod cynllwynio bwriadol wedi bod, ac fe alwyd gohebwy'r a newyddiadurwyr i dystio i'r ffaith fod bwriad i weithredu fel hyn wedi'i gyhoeddi ar ddechrau'r haf. Yn y cyswllt hwn gwrthododd y darlledwr R Alun Evans roi unrhyw dystiolaeth i'r llys. Aethpwyd trwy'r diffynyddion a ddringodd y mastiau fesul dau, i gyd yn eu habsenoldeb. Ac wedyn daethpwyd at achos mwy cymhleth y pump oedd wedi bwriadu torri i mewn i Bencadlys y BBC ym Mryste.

Bu cryn ddadlau cyfreithiol ynghylch yr achos hwn, ynglŷn â phwy oedd wedi

**CYMDEITHAS YR IAITH
BRAWDLYS YR WYDDGRUG
RALI FAWR
AR ÔL
Y DDEDFRYD
SADWRN TACHWEDD 13**



am 2.30

**YM MAES PARCIO
STRYD NEWYDD**

Siaradwyr:

**GARETH MILES, EMYR LLEW,
DR TUDUR JONES**

**ABERTHWCH CHWI DDIWRNOD
ABERTHODD RHAIN EU RHYDDID
DOWCH YN EICH MILOEDD**

bwriadu mynd yno i wneud difrod a phwy oedd wedi bwriadu teithio draw yn unig. Plediodd un yn ddieuog a chael ei amddiffyn gan gyfreithiwr, a'r pedwar arall yn gwrthod pledio. Roedd dau ohonynt wedi gwneud datganiad i'r heddlu yn cydnabod cyfrifoldeb a'r ddau arall heb wneud datganiad. Dim ond y ddau a gydnabu gyfrifoldeb a gafwyd yn euog yn y prawf hwn, a'r tri arall yn ddieuog.

Wrth i'r profion fynd rhagddynt, roedd peth gweithgarwch y tu allan i'r llys. Bu pum darllediad gan aelodau'r Gymdeithas ar radio annibynnol, sef cyfarpar a allai dorri ar draws rhaglenni teledu mewn cylch o ddwy filltir i ddarlledu neges gan y Gymdeithas. Bu aelodau hefyd o gwmpas y dref yn siarad â phobl i esbonio'r hyn oedd yn digwydd yn y llys ac i ddadlau'r achos dros sianel Gymraeg.

Roedd y tyndra yn y llys ei hun yn dwysáu wrth i'r profion dynnu tua'r terfyn ar ôl cyfnod o bythefnos. Penderfynodd y barnwr ddedfrydu pawb gyda'i gilydd, ar ddiwedd y gwahanol achosion, ac roedd mwy a mwy o'r diffynyddion felly'n cael eu hunain yng nghanolfan gaethiwo Risley. Erbyn y penwythnos cyn dyfarnu ar y prawf olaf a chyn y dedfrydu, roedd 22 yn Risley (gan gynnwys pump oedd wedi'u danfon yno am dorri ar draws y llys). Ymhlith y carcharorion oedd y Parch Elfed Lewys, ac fe gafodd ganiatâd i arwain gwasanaeth crefyddol y tu fewn i'r carchar. Bu'r 22 yn brysur yn paratoui ar gyfer y gwasanaeth gan gopïo allan emynau i'w rhannu i'r gweddill. Yn yr Wyddgrug, llwyddwyd defnyddio'r llys fel llwyfan gwleidyddol, i sôn am yr angen am y Sianel Gymraeg ac am wasanaeth darlledu cyflawn i Gymru. Yn ystod y diwrnod olaf, cymerwyd sesiwn gyfan o'r llys i alw tystion, fel Alwyn D Rees, Parch Eirian Davies, Dr Tudur Jones, Dan Lyn James, Tedi Millward, Gwilym Tilsley, ac eraill, i effaith teledu Saesneg ar ragolygon y Gymraeg. Cafodd y diffynyddion hefyd gyfle i wneud eu datganiadau'n llawn (parodd datganiad Gronw dros ddwy awr), ond ni chafodd hyn unrhyw effaith ar y barnwr:

"I have not heard from any one of you one word of repentance!" meddai'n ddig—sef bron yr union eiriau ag a ddefnyddiwyd bymtheg mlynedd yn ddiweddarach gan y barnwr yng Nghaerdydd wrth ddedfrydu tri yn yr ymgyrch addysg.

Ac wrth ddedfrydu Ffred i ddwy flynedd, meddai, "Mr Ffrancis's record shows a path of persistent and remorseless violence. Your belief is that if you do not like something you must destroy it or do it harm in order to bring about a change. This type of belief strikes at the root of society and leads to violence". A hynny ar ôl i Ffred fynd yn fanwl trwy'r amodau oedd yn angenrheidiol cyn y gellid cyflawnhau difrodi eiddo, sef (1) sicrhau bod pob dull arall wedi'i ddihysbyddu'n gyntaf, (2) sicrhau nad oedd perygl o unrhyw fath i fywyd (3) aros i gymryd cyfrifoldeb am y ddifrod, a (4) ceisio esbonio'r weithred i bobl Cymru.

Ar ôl i'r barnwr ddedfrydu Myrddin a Goronwy, fe waeddodd Goronwy (a oedd wrthi ar y pryd yn ceisio meistrolï'r Gymraeg): "Wnewch chi byth ladd yr iaith Gymraeg, y barnwr blydi Saesneg, y bastard hyll", ond ni chyfieithwyd ei eiriau! Fel y dywedodd Alwyn D Rees yn *Barn*:

"Un o'r pethau chwithig yn yr Wyddgrug oedd fod ansawdd ddeallusol yr hyn

a ddywedid o'r doc gymaint yn uwch na'r hyn ddywedid o'r fainc." (Tybed ai am eiriau Goronwy y meddyliai?!). Diddorol yw sylwi, fel y sylwodd Ned Thomas ar y pryd, nad myfyrwyr oedd 15 o'r 17 a ymddangosodd yn yr Wyddgrug; roedd ymgyrchoedd y Gymdeithas yn dechrau tynnu teyrngarwch pobl o bob dosbarth a galwedigaeth.



FRED FFRANKIS
Sent to prison

Fight for all-Welsh
TV channel will go
on – new secretary



DAFYDD IWAN
New chairman

FOUR GAOLED IN LANGUAGE CASE

FOUR GAOLED AS MARATHON ENDS



MI GYSGA'I LAWER TAWELACH HENO EFO'R DIHIRYN YNA DAN GLO

Hebryngwyd y pedwar a ddedfrydwyd i garchar Risley, ar ôl i Dafydd Iwan (sef yr is-gadeirydd ar y pryd) godi yn y llys a gweiddi: “Paid â phoeni Gronw, fe aiff yr ymgyrch yn ei blaen”, ac ar ôl yr ymgais, a ddigwyddasai bob dydd ers pythefnos, i eistedd o flaen y bws a gludai'r heddlu a'r carcharorion.

Cymysg oedd yr ymateb ymhlith aelodau'r Gymdeithas a'r cyhoedd yng Nghymru i'r dedfrydu, sef blwyddyn yr un i Myrddin, Goronwy a Ffred (a blwyddyn arall i Ffred a oedd wedi'i ohirio ym Mrawdlys Abertawe), chwech mis yn syth i Gronw a chwech mis gohiriedig i bawb arall. Roedd Ffred wedi disgwyl cael y ddwy flynedd, ond roedd y dedfrydau ar y tri arall a garcharwyd yn arbennig o lym. Doedd Myrddin na Goronwy o'r braidd wedi ymddangos o flaen llysoedd o'r blaen, ac roedd yn anarferol iawn i rywun gael deuddeg mis yn syth am weithred o ddifrod — yn arbennig gan fod y swm swyddogol ar y cyhuddiad terfynol ddim ond yn £850. Cafodd Gronw chwech mis am iddo wneud galwad ffôn at y cyfryngau i'w hysbysu fod aelodau'r Gymdeithas wedi dringo'r mastiau.

Cafwyd yr ymateb traddodiadol gyda rali weithredol y Sadwrn canlynol yn yr Wyddgrug, ac ar ôl gorymdaith geir draw at Foel y Parc, fe ddringwyd y mast gan Cen Llwyd ac Emyr Hywel i gymeradwyaeth y dorf oddi tanynt. Meddianwyd y stafelloedd o dan y mast am oriau gan nifer fawr o aelodau, ac ni allai'r heddlu gyrraedd atynt gan fod ugeiniau o geir y modurgad wedi'u parcio pob cam o'r ffordd fach gul at y mast ei hun.

Erbyn y Nadolig, gwelai'r carcharorion angen i ddwsáu'r ymgyrch ymhellach a buont ar ympryd dros y Nadolig y tu fewn i furiau'r carchar. Fe'u cefnogwyd gan



Aelodau'r ympryd ym Mangor

yn agos at gant o aelodau a ddaethant at ei gilydd i ddwy ganolfan ym Mangor ac Abertawe i ymptydio am dri diwrnod, gan gynnwys dydd Nadolig.

Ar ddydd Gwener, Ionawr 21ain 1972 ymwelodd aelodau'r Gymdeithas â phedair gorsaf drosglwyddo, sef Llanddona, Nebo, Preseli a Moel y Parc ac ymyrryd â'r telediad o raglenni'r Awdurdod Teledu Annibynnol. Gwnaed peth niwed i orsaf Nebo, ac meddai'r Gymdeithas mewn datganiad:

“O ganlyniad i'r gweithredoedd olaf (dringo mastiau a Granada) fe garcharwyd pedwar o'n haelodau am gyfnodau sylweddol. Erbyn hyn y mae'r rhain wedi bod yng ngharchar am bron dri mis a does dim datblygiad arwyddocaol o du'r awdurdodau wedi bod o gwbl.”

Eir ymlaen: “Rydym ni wedi blino aros.” A hynny dros ddeng mlynedd cyn i'r sianel ddod yn ffaith!



Gorymdaith Cymdeithas yr Iaith ar brif heol Y Rhyl.
Gwelir Dafydd Iwan, Arfon Gwilym a Dyfrig Siencyn ar y blaen.

Y diwrnod wedyn, ar Ionawr 22ain fe arweiniwyd gorymdaith o 350 o bobl trwy dref y Rhyl gan Dafydd Iwan a mamau Goronwy a Ffred. Ond ni chafwyd unrhyw doriad trwodd mawr na dechrau unrhyw fath o wrthryfel agored yng Nghymru. Mae'n wir i ddweud fod nifer o aelodau'r Gymdeithas wedi'u dychryn gan y dedfrydau — falle i rai gamddeall wedi'r cyfan y dull di-drais o weithredu gan gredu, oherwydd i'r dull arwain at garchar, ei fod wedi methu. Lle'r oedd y diffynyddion am ddangos, trwy eu parodrwydd i dderbyn y canlyniadau cyfreithiol yn ddi-ildio heb geisio tynnu'n ôl (fel yr oedd y Barnwr Talbot eisiau) eu bod yn fuddugol ar y drefn.

Mae'n sicr yn wir fod blwyddyn digon tawel ar y ffrynt gwleidyddol wedi

dilyn y Brawdlys, a bod nifer o aelodau'r Gymdeithas wedi troi at ddulliau eraill o weithredu, e.e. dyma gyfnod dechrau cwmni Adfer. Ond, ar y llaw arall, ni ddylid gweld hyn fel methiant mawr, oherwydd nid oedd unrhyw fwriad wedi'i gynllunio yn strategaeth y Gymdeithas i ddilyn yr achos cynllwyn gyda chyfnod mawr o weithredu uniongyrchol, roedd Cyfarfod Cyffredinol 1971 wedi penderfynu hynny ychydig cyn yr achos. Dyma'r Cyfarfod Cyffredinol mwyaf yn hanes y Gymdeithas erioed. Symudwyd y lleoliad, a oedd eisoes wedi'i symud o ystafell mewn gwesty i Neuadd y Plwy, yn awr i'r Pier yn Aberystwyth lle daeth bron mil o aelodau ynghyd. Yn ôl tystiolaeth pawb oedd yno, dof a saff oedd natur y Cyfarfod Cyffredinol yma (ar waetha'r cynnwrf pan guddiwyd tri gweithredwr yn yr ymgyrch arwyddion yn y neuadd a'r heddlu'n ceisio dod i mewn i'w harestio).

Y penderfyniad a basiwyd ynghylch darlledu oedd fel a ganlyn: "Ein bod yn datgan cefnogaeth lwyr i'r camau a gymerwyd yn barod yn yr ymgyrch ddarlledu, ac yn credu y bu'n rhaid cymryd y camau hyn; a'n parodrwydd i gymryd camau cyffelyb eto yn y dyfodol." — h.y. cynnig yn edrych tua'r gorffennol ac yn sôn am "barodrwydd" ar gyfer y dyfodol, yn hytrach na sôn am unrhyw gynlluniau pendant. Cyflwynodd Emyr Llywelyn o lawr y Cyfarfod Cyffredinol welliant bod yr aelodau oll a oedd yn bresennol yn ymrwymo i fynd allan i weithredu'n uniongyrchol dros sianel Gymraeg. Trechwyd y gwelliant hwn gan fod yr aelodau'n amlwg yn barod i ddilyn dymuniadau'r diffynyddion a oedd i ymddangos yn llys yr Wyddgrug. Dywedodd Ffred wrth wrthwynebu'r gwelliant bod y Gymdeithas eisoes wedi dangos drwy'r gweithredu ei bod o ddifri yn yr ymgyrch, a bod posibilrwydd yn awr y byddai Pwyllgor Crawford yn ystyried y mater, ac nad oedd angen arwain yr aelodau at weithredoedd difrifol pellach ar y pryd hwnnw; ac ychwanegodd, mewn modd braidd yn annheg, os byddai angen trefnu gweithred pellach y byddai'n gwybod at bwy i droi (sef at gynigwyr a chefnogwyr y gwelliant).

Roedd y cynnig hefyd yn galw ar bob Cymro gyda set deledu i wrthod talu'r dreth o £7 o hynny ymlaen, a chyfrannu'r arian at gronfa Radio Annibynnol y Gymdeithas. A dyma oedd prif ergyd yr ymgyrch yn ystod y flywyddyn ganlynol, yn ogystal ag ail ymgais gyfansoddiadol i gael cymaint o gefnogaeth â phosib i'r nod o sianel Gymraeg. Mewn llythyr at Mr Christopher Chataway (y Gweinidog Post) yn Chwefror 1972 mae Arfon Gwilym, ysgrifennydd y Gymdeithas, yn rhoi hanes yr ymgyrch ac yn dangos faint o gefnogaeth a gasglwyd, gan gyfeirio at gynghorau sir Môn, Meirion, Caernarfon a Chaerfyrddin ac awdurdodau lleol eraill yn ymestyn o Gyngor Dinas Abertawe i Gyngor Tre Ffestiniog, a Chymdeithas Gogledd Cymru o awdurdodau lleol — oll yn cefnogi'r alwad. Cyfeiriodd Arfon hefyd at y ffaith fod Cyngor Darlledu Cymru, sef corff llywodraethol y BBC yng Nghymru, o ganlyniad i'w hymchwil, wedi dangos yn glir mai penderfyniad gwleidyddol ydoedd mater y sianel; yr oedd yn dechnegol bosibl, ac yn ddymunol gan lawer o bobl i weld sianel Gymraeg, ond nid oedd y gost o fewn posibilrwydd cyrraeddadwy i'r BBC, gan danlinellu mai penderfyniad gwleidyddol oedd yma i'r llywodraeth.

Yn rhoi pwysau ar y llywodraeth, yr oedd y nifer cynyddol o bobl oedd yn gwrthod talu treth deledu. Yn ail hanner 1971, mae *Tafod y Ddraig* yn llawn



“Dirprwyaeth oddi wrth Undeb y Bedyddwyr –
Eisie prynu amser i hysbysebu.”

anogaeth ar bobl i wrthod talu; ac ar ôl y cyfnod o weithredu uniongyrchol ac achos yr Wyddgrug roedd enwau’n dylifo i mewn. Cafwyd cefnogaeth ac anogaeth hefyd yn nhudalennau *Barn*. Roedd *Barn* yn y cyfnod, o dan olygyddiaeth Alwyn D Rees, yn gyfrwng dylanwadol iawn ar y Cymry proffesiynol. Roedd wedi trefnu e.e. ar ddiwedd y chwedegau bod cannoedd o Gymry amlwg yn gwrthod dangos eu disg treth modur nes ei fod ar gael yn ddwyieithog, ac ennill y frwydr honno. Dyma Alwyn D Rees nawr yn rhoi ei holl bwysau y tu ôl i Gymdeithas yr Iaith a’r ymgyrch ddarlledu:

“Cododd to ifanc arwrol sy’n cymryd yr hyn a ddywedasom ni (sef ymgyrchwyr ‘dilettante’ y gorffennol) o ddifrif, ac yn amlygu’r penderfyniad sy’n gweddu i genedl mewn argyfwng. Ac yn raddol, gwelir cenhedlaeth eu tadau’n ymrestru tu ôl iddynt rhag cywilydd. Ni chawn ymfodoli ar siarad mwyach. Fel y proffwyda Trevor Fishlock (gohebydd) yn y *Times*, gall hon fod yn frwydr lawer chwerwach na brwydr yr arwyddion ffyrdd. Gwyddom fod cryn anesmwythyd wrth weld y cymylau’n crynhoi. Un ffordd sydd i osgoi’r storm; rhaid i bobl ddylanwadol, sy’n dal i gredu yn effeithiolrwydd dulliau cyfansoddiadol, ddefnyddio’r dylanwad sydd ganddynt ar frys i sicrhau sianel deledu Gymraeg dan reolaeth pwyllgor neu

gyngor Cymraeg — cyn i bwerau cibddall gael rhagor o hwyl ar hau y gwynt drwy garcharu meibion a merched cyfiawnder.

“Chwi aelodau seneddol Cymru, chwi gynghorau lleol, chwi weinyddwyr, chwi grefyddwyr a phawb o ewyllys da, a wnewch chi helpu i greu ymgyrch anorchfygol?”

Yn *Tafod y Ddraig* Ebrill 1972, gwelwn fod o fewn un wythnos achosion yn erbyn cefnogwyr a wrthodai dalu'r dreth deledu yn yr Wyddgrug, Caerdydd, Aberteifi, Machynlleth, Aberystwyth, Llanfaircaereinion, Llantrisant, Wrecsam, Llangefni, Fflint a Chaerfyrddin. Bu achos hefyd yn erbyn Tecwyn Williams yn llys ynadon Prestatyn, a diddorol yw sylwi, ddeuddeg mlynedd yn ddiweddarach, iddo ymddangos eto o flaen yr un llys yn dilyn protest gan y Gymdeithas yn erbyn Cyngor Sir Clwyd. Yn y rhifyn Ebrill yma cyhoeddwyd enwau rhagor o bobl a wrthodai dalu, gan gynnwys y Parch Eirian Davies yr Wyddgrug; ac ym mis Gorffennaf 1972, adroddir iddo fod o flaen llys yr Wyddgrug a derbyn £15 o ddirwy a £5 o gostau. Mae llawer o enwau'r bobl a wrthodai dalu yn dra diddorol, e.e. yn Hydref 1972 bu Clive Betts a ddaeth wedyn yn enwog fel gohebydd gyda'r *Western Mail* o flaen llys Caerdydd a chael £10 o ddirwy a £2 o gostau.

Ym mis Mawrth 1972, roedd y Gymdeithas wedi cael llythyr oddi wrth y Gweinidog Post, oedd yn cynnwys y geiriau:

“The fourth channel in the VHF network is to be allocated to a new national (sic) service at some future date. There are no present plans for such an allocation, but from the national (sic) interest it would defeat the orderly development of the fourth channel if its facilities were taken into use on a piecemeal basis.”

Felly, ceisiwyd dwysáu'r ymgyrch wrthod talu. Fe garcharwyd nifer o'r rhai a fu yn y llysoedd wedi gwrthod talu eu dirwyon. Bu'r Parch Bryn Roberts, Wrecsam, yng ngharchar Walton am bythefnos, ac fe'i cymerwyd i'r adran ysbyty er mwyn sicrhau gofal amdano. Daeth ef drwy ei brofiad yn rymusach gan ymddiried yn Ffred iddo gael ei gell yn deml lle y gallai weddio ac addoli Duw. Y flwyddyn ganlynol, cymerodd ei fab, Ifan, ran weithredol yn yr ymgyrch a chael chwe mis o garchar.

Yn y cyfnod hwn oddi ar Brawdlys yr Wyddgrug, bu datblygiad diddorol arall, sef i nifer o feinciau ynadon wrthod cosbi'r bobl a gafwyd yn euog o fod heb drwydded deledu. Y fainc gyntaf i wneud hyn oedd Mainc Aberaeron (sef y cyntaf hefyd i gosbi am yr un drosedd pan ymddangosodd Gwilym Tudur o'u blaen), a ryddhaodd yn ddiamod Mr Gwynfryn Evans, rheolwr Hufenfa Felin-fach. Dilynwyd yr esiampl gan fainc Hendy Gwyn yn rhyddhau'r Parch Aled Gwyn, llys ynadon Caerdydd yn rhyddhau dau a llys y Bala yn rhyddhau'n ddiamod hefyd. Roedd Mr Tom Jones cadeirydd mainc y Bala wedi dod o dan lach Alwyn D Rees yn *Barn* ynghynt am gosbi rhai a wrthodai dalu'r dreth, ond y tro hwn, dyfynodd eiriau'r disgyblion o'r Testament Newydd ar ôl gwrando ar areithiau'r diffynyddion, gan ddweud “da oedd i ni fod yma”.

Arweiniodd y datblygiad hwn at helynt mawr y tu fewn i'r gyfundrefn gyfreithiol yn Lloegr — bod ynadon yn gwrthod gweinyddu'r gyfraith. Daeth yr Arglwydd Hailsham, sef yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd, i Fangor yr haf hwnnw i roi darlith

i ynadon Cymru gan eu gorchymyn i weinyddu'r gyfraith; pwysleisiodd nad oedd hi'n addas rhoi rhyddhad diamod i bobl oedd wedi gweithredu yn y modd yma. Profociodd yr ymweliad hwn fflach weithredol sydyn yn yr ymgyrch gyda mil o brotestwyr yn dod i amgylchynu'r adeilad yng ngholeg Bangor lle'r oedd Hailsham yn siarad. Yr adeg hon, hefyd, gwnaeth Hailsham ei gymhariaeth enwog rhwng aelodau'r Gymdeithas a 'baboons' yr IRA gan awgrymu mai mater o radd yn unig oedd y gwahaniaeth rhwng gwrthod talu'r dreth deledu a saethu rhywun — mai'r ffin a'r egwyddor bwysig oedd cadw'r gyfraith. Ar y llaw arall gwelai'r Gymdeithas y ffin a'r egwyddor bwysig fel y dull di-drais o weithredu gyda'r anghenraid canlynol, yn aml, i dorri'r gyfraith. Ysgrifennwyd golygyddol yn y *Guardian* yn beirniadu Hailsham yn hallt — byddai'r un man iddo ddweud mai dim ond i raddau y mae'r sawl sy'n parcio'i gar ar ddwy linell felen yn wahanol i lofrudd, meddid.

Wrth bod aelodau'r Gymdeithas yn anesmwytho yn ystod y flwyddyn hir 1972, gyda'r ansicrwydd a oedd Pwyllgor Crawford, a sefydlwyd i edrych yn bennaf ar fater derbyniad teledu yng Nghymru, yn edrych ac yn bwriadu adrodd ar fater sianel deledu Gymraeg ai peidio (fel y gwnaeth yn y diwedd), yr oedd yna weithredu ysbeidiol i gadw'r nod yn llygaid y cyhoedd. Ym Mehefin 1972, ysgrifennodd Saunders Lewis ragair newydd i *Tynged yr Iaith*, i nodi dengmlwyddiant cychwyn y Gymdeithas, ac ynddo soniodd am fater darlledu:

“Heddiw teledu yw pennaf lleiddiad y Gymraeg. Dyna'r pam y mae cael awdurdod teledu a darlledu annibynnol i Gymru yn fater byw neu farw'r iaith. Y frwydr hon yw brwydr galetaf Cymdeithas yr Iaith. Costiodd eisoes yn ddrud i'w haelodau ifanc. Arwydd eu bod hwy'n ennill peth tir yw bod yr aelodau seneddol Cymreig yn rhoi diwrnod i drafod y mater yn Nhŷ'r Cyffredin a bod y Cyngor Darlledu Cymreig yn sefydlu pwyllgor i ystyried a ellid o gwbl drefnu awdurdod teledu Cymreig annibynnol. Nid oes fawr o obaith y daw dim o werth oddi wrth na'r Cyngor na Thŷ'r Cyffredin. Canys arf boliticaidd fwyaf nerthol y dydd hwn yw'r teledu. Y mae'r cyfresi dramaau Saesneg gyda'u brenhinoedd Tuduraidd rhamantus neu eu harwyr o blismyn neu eu cyfresi digrifwch yn gynheiliad cadarnach i Brydeindod, i genedlaetholdeb Seisnig ac i gyfundrefn economaidd Lloegr na'r holl areithiau politicaidd a'r holl bapurau newydd. Bydd yn rhaid wrth chwyldro cyn y teifl y proletariat Cymreig ymaith yr hualau hyn.”

Ym Mehefin, hefyd, meddiannwyd adran weinyddol y BBC yng Nghaerdydd ac am ddau y bore ar yr 28ain o'r mis arestiwyd naw o aelodau yn sgwâr Cavendish yn Llundain (pump ohonynt yn y tŷ bach!). Cyhuddwyd y naw, Gwerfyl Arthur, Meinir Evans, Iestyn Garlick, Terwyn Tomos, Gerallt Rhun, Alwyn Llwyd a Walter Glyn Williams (Wali), Dyfrig Siencyn a Ieuan Roberts (Ieu Rhos) o fod ag offer yn eu meddiant ar gyfer gwneud difrod troseddol. Fe'u cadwyd ar ddihun drwy'r nos yn swyddfa'r heddlu er iddynt erfyn am y cyfle i gysgu, a'u holi'n ddi-baid. Cyn eu harestio, roeddynt wedi bod i weld ffilm 'How to steal a million dollars', ac ymddangosai hyn yn ddiddorol iawn i'r heddlu! (Cyda llaw, ar y ffordd allan o'r sinema fe'u cyfarchwyd gan ferch ifanc yn gwneud arolwg ar ran y bwrdd twristaidd: “And why are you visiting London?” gofynnodd, a'r naw yn ei chael

hi'n anodd iawn i roi ateb gonest!). Aeth yr achos hwn o lys i lys, ac o'r diwedd fe'u traddodwyd i ymddangos flwyddyn yn ddiweddarach yn llys anenwog Rhif 1 yn yr Old Bailey yn Llundain; a'r cyfreithiwr mewn strach llwyr yn ceisio dwyn rhyw fath o gyhuddiad — ni wyddent ar ba adeilad nac ymhle y bwriadwyd gwneud difrod, er y gwyddent ei fod yn ymwneud â'r ymgyrch ddarlledu. Newidiwyd y cyhuddiad i un o gynllwyn, ond fe'u cafwyd yn ddieuog ar gyfarwyddyd y barnwr a thaflwyd yr achos allan.

Ym mis Gorffennaf, aeth pedwar gweithredwr lawr i Lundain gyda'r bwriad o dorri i mewn i adeilad yr ITN yno. Yn anffodus, nid oedd yr ymchwil wedi'i wneud yn ddigon gofalus. Wedi torri i mewn drwy ffenestr ar y llawr isaf dyma'r pedwar, Enfys Williams, Meinir Evans, Emyr Hywel a Jeff (Bach) Ifan, yn sylweddoli eu bod yn yr adeilad anghywir — sef, rhyw archfarchnad fwyd, a'r clychau larwm yn sgrechian drwy dawelwch y bore bach! Wedi dianc ar ras, galwasant am dacsï ac wrth geisio penderfynu beth i'w wneud cofiwyd fod adeilad archifdy'r BBC yn ymyl, ac yno yr aeth y tacsï â'r pedwar blinedig. Llwyddwyd sicrhau mynediad yn weddol hawdd, ac fe gafodd o leia dau o'r pedwar hwyl fawr yn mynd trwy'r rhesi ar resi o ffeiliau i chwilio am y rhai mwyaf adas i'w rhwygo — ffeil ar y coroni, Winston Churchill ac ar yr FWA. Ffoniwyd wedyn am yr heddlu: "We've destroyed some files," meddai'r llefarydd. "What? Fire!" gwaeddodd yr heddwad, a chyn pen dim roedd clychau'n canu ac arestiwyd y pedwar. Ar Hydref 31, daeth yr achos o flaen ynad o'r enw Neil McElligott, a chan i'r cyhuddedig fynnu'r hawl i siarad Cymraeg yn y llys a chanu nerth esgyrn eu pennau pan wrthodwyd eu cais, fe gasglodd yr ynad nad oeddynt yn llawn llathen, a gorchymyn eu bod i'w cadw yn y ddalfa tan Dachwedd 20ed am brofion ac adroddiadau meddygol a meddyliol! Bu'r merched yn ymprydio am saith niwrnod yn Holloway fel protest ychwanegol.

Pan ddaeth Tachwedd 20fed, arestiwyd 43 o aelodau'r Gymdeithas am brotestio y tu fas i adeilad y BBC yn Portland Place, Llundain*. Cosbwyd Emyr Hywel yn syth, ond traddodwyd y tri arall i'w dedfrydu yn llys y Goron ar Ragfyr 8ed, lle y cawsant ryddhad diamod — ar ôl treulio deuddeg wythnos i gyd yn y carchar.

Parhai a wnâ'r pwysau cyfansoddiadol. Yng Ngorffennaf, mabwysiadodd Llys Prifysgol Cymru adroddiad pwyllgor yn argymhell sefydlu sianel deledu Gymraeg dan reolaeth bwrdd annibynnol. Ac mewn dadl yn yr Uwchbwyllgor Seneddol yr un mis, roedd hi'n amlwg fod mwyafrif aelodau seneddol Cymru bellach yn cydnabod mai dyma'r unig ateb ymarferol i broblem deledu Cymru.

Penderfynodd Undeb yr Annibynnwyr ym mis Hydref alw ar Gristnogion i ystyried peidio â chodi trwydded deledu; a'n fuan wedyn cyhoeddwyd fod 27 o wŷr amlwg wedi anfon llythyr at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Gweinidog Telathrebu yn eu hannog i sefydlu tonfedd radio a sianel deledu i Gymru; trefnwyd hyn gan

* Dyma enwau nifer a arestiwyd yn Llundain yn y cyfnod hwn: Hywel Glyn Thomas, Ifan Roberts, Glenys Henson, Gwen Perys Jones, Lynn Carter, Huw Roberts, Philip Wyn, Heulwen Davies, Lilian Jones, Anne Preston, Arthur Tomos, Hywel Bryn Thomas, John Owen, Neil Jenkins, Arfon Gwilym, Wayne Williams, Gwilym Jones Lewis, Phyl Edwards, Terwyn Tomos, Gwyneth Ffrancon, Dyfrig Siencyn, Ann Roberts, Trystan Iorwerth, Marged Davies, Sian Ellis, Mari Morgan.

Syr Goronwy Daniel*. Ym mis Tachwedd, penderfynodd Eglwys Bresbyteriaidd Gogledd Cymru alw ar eu 54,000 o aelodau i ysgrifennu at y Weinyddiaeth Bost a Thelathrebu i ofyn am sianel Gymraeg; ac os na cheid ateb boddhaol i ystyried gwrthod talu'r dreth teledu. Yr un wythnos, dirwywyd Ifan Prys Edwards am fod heb drwydded deledu.

Ond eto, nid pawb oedd yn cefnogi. Mae gwrthwynebiad obsesiynol Dr Jac L Williams wedi tyfu'n chwedl (gweler atodiad ar y diwedd am safbwynt y Dr Williams) ac fe gafodd gefnogaeth ar Dachwedd 8ed, 1972 (y diwrnod y traddodwyd y naw i lys yr Old Bailey), pan draddododd Mr Aneirin Talfan Davies, brawd Syr Alun Talfan, HTV, ddarlith radio flynyddol BBC Cymru ar ddarlledu. Pennawd y *Western Mail* drannoeth hyn oedd "Welsh Channel would push language into wilderness".

Atebwyd y dadleuon hyn gan Alwyn D Rees yng ngolygyddol *Barn* mis Rhagfyr, ac mewn erthygl gan Saunders Lewis yn yr un rhifyn. Bu *Barn* eto yn huawdl yn ateb dadleuon yr IBA pan wnaethant ddatganiad yn lladd ar y syniad o sianel Gymraeg; ym mis Chwefror 1973, mae golygyddol o bump colofn yn ateb dadleuon yr IBA ac yn condemnio eu hagwedd nhw a'r BBC tuag at Gymru: "Ni all y naill gorff na'r llall feddwl yn nhermau Cymru yn gyntaf."

Ond, erbyn y cyfnod hwn, roedd dros flwyddyn wedi mynd heibio oddi ar achos yr Wyddgrug a thyfu roedd y teimlad o fewn y Gymdeithas fod rhaid wrth weithredu difrifol eto i geisio symud y llywodraeth o'i difaterwch. Yn y cyfarfod cyffredinol yn Hydref 1972, penderfynwyd:

"Oni fydd y Gweinidog Post yn Llundain yn ymateb yn ffafriol erbyn diwedd y flwyddyn i'r cynllun o sefydlu gwasaneth darlledu cyflawn i Gymru, gyda blaenoriaeth i Sianel Deledu Gymraeg, y byddwn ni fel Cymdeithas yn mynd ati yn drwyadl i amharu ar waith yr awdurdodau darlledu drwy ddulliau a allai gynnwys amharu ar eu gweinyddiaeth a'u gwasanaeth a pheri difrod cyfyngedig i eiddo yn ystod misoedd cyntaf 1973."

Ar ddiwedd 1972, felly, roedd paratodau manwl ar y gweill ar gyfer trefnu tri mis yn llawn o'r gweithredu prysuraf a welwyd yn hanes y Gymdeithas.

* Enwau'r 27: Y Fonesig White, Mr Graham Saunders, Syr Ben Bowen Thomas, Syr Cennydd Treherne, Yr Anrhydeddus Ralph Beaumont (cyn AS Torïaidd), Yr Arglwydd Chalfont, Y Gwir Anrhydeddus James Callaghan, Dr GO Williams (Archegob Cymru), Syr Goronwy Daniel, Syr David Davies (Cyn-Gadeirydd Bwrdd Croeso Cymru), Mr Gwilym Prys Davies (Cadeirydd Bwrdd Ysbytai Cymru), Syr Michael Duff (Arglwydd Raglaw Sir Caernarfon), Lady Edwards (Llywydd yr Urdd), Lady Olwen Carey-Evans, Mr Gwynfor Evans, Mr Dai Francis (Undeb y Glöwyr), Mr IB Griffith, Y Gwir Anrhydeddus James Griffiths, Syr Julian Hodge, Cledwyn Hughes, Mr Tom Jones (Arweinydd yr Undeb Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol), Capten Mext Lewes, John Morris, Yr Arglwydd Ogwr, Mr Gordon Parry, Dr Thomas Parry, Goronwy Roberts AS.

6. Y Tri Mis o Weithredu

Erbyn dydd Calan 1973 roedd y sefyllfa'n aeddfed ar gyfer gweithredu uniongyrchol o blaid sianel Gymraeg. Roedd y nod a'r polisi wedi'u gosod, a'r cysylltiadau i gyd wedi'u gwneud, ac roedd to newydd o aelodau ifanc penderfynol iawn tu fewn i'r Gymdeithas. Roedd hefyd grŵp darlledu helaeth o ddwsin o bobl, yn cynnwys pedwar a oedd yn gweithio'n amser llawn yn llythrennol ar yr ymgyrch. Byddai'r grŵp hwn yn cyfarfod bob wythnos ar y Sadwrn neu'r Sul mewn mannau fel Aberystwyth, Caerfyrddin, Caerdydd, neu'r gogledd, lle byddai pawb yn adrodd nôl am y cynlluniau roedden nhw'n gweithio arnyn nhw, a byddid yn cynllunio ymlaen ar gyfer yr wythnos neu ddwy ganlynol. Cwynai un aelod o'r grŵp, Eryl Owain, a oedd ar y pryd yn ddarpar athro yn ysgol Dyffryn Ardudwy, fod bron ei holl amser yn mynd wrth deithio nôl a blaen o gyfarfodydd grŵp. Ond, roedd yr hunan ddisgyblaeth yma o orfod adrodd nôl yn gyson yn cynhyrchu ymgyrch weithredol mwy ffrwythlon nag erioed yn hanes y Gymdeithas.

Rhwng ail wythnos mis Ionawr a diwedd mis Mawrth, cawyd dwy neu dair gweithred bob wythnos. Roedd Cymry, a hyd yn oed gefnogwyr y Gymdeithas a oedd wedi arfer darllen a chlywed am Gymdeithas yr Iaith fel mudiad a darodd allan yn achlysurol, wedi'u synnu wrth ddarllen ddydd ar ôl dydd bod torri i mewn wedi bod mewn stiwdio deledu arall neu swyddfeydd eraill neu dorri ar draws darlenniadau a.y.b. Profodd y tri mis hwn o weithredu (sydd, gyda llaw, wedi aros yng nghof y Gymdeithas yn syml iawn fel 'Y Tri Mis o Weithredu'), fod y Gymdeithas yn gwbl o ddifrif ynglŷn â'r ymgyrch hon. Un sgil effaith anffodus, o bosib, o'r difrifoli yma ar yr ymgyrch ac ar frwydr yr iaith yn gyffredinol, ac ar yr ymroddiad i'r Gymdeithas gan ei haelodau, oedd fod llawer o aelodau eraill yn cael yr argraff nad oedd lle iddyn nhw yn y Gymdeithas oni bai eu bod yn barod i dorri'r gyfraith yn ddifrifol. Ni ddywedwyd hyn erioed gan y gweithredwyr — i'r gwrthwyneb, pwysleisiwd bod lle i bawb y tu fewn i'r Gymdeithas. Ond, mae gweithredoedd yn gadarnach eu heffaith ar feddyliau pobl na geiriau, gan amlaf, ac yn ystod y flwyddyn ganlynol collwyd nifer o aelodau a oedd naill ai ddim ond gyda'r Gymdeithas 'am y reid', neu oherwydd amgylchiadau personol dilys, yn teimlo na allent dorri'r gyfraith o ddifrif.

Ond, yn ôl at ymgyrch weithredol. Yn ail wythnos Ionawr 1973 bu aelodau'r Gymdeithas yn blocio mynedfeydd cerbydau i ganolfannau HTV a'r BBC. Yn adroddiad y *South Wales Echo* ar y pryd, dangoswyd fel y bu i gang o weithwyr adeiladu ar y safle gael eu defnyddio gan yr awdurdodau darlledu i dynnu'r gwrthdystwyr i fwrdd, ac mae'r gohebydd yn adrodd fel y bu ef yn llygad dyst i weld merched yn cael eu llusgo gerfydd eu gwallt, yna'n codi eu hunain yn dawel ac ail fynd nôl i'r brotest. Roedd y seiliau o weithredu di-drais wedi'u gosod yn gadarn erbyn hyn. Drwy'r holl gyfnod yma, fe gymerodd bawb gyfrifoldeb am eu gweithredoedd ac ateb gerbron llysoedd yn eu cannoedd. A thrwy'r cyfnod yma,

Tafod y Ddraig 5c

MAWRTH 1973

MANCEINION
(TELEDU GRANADA)
Rhodri Toms
Wayne Williams
Cathi McGiH
Gaenor Elis Williams
Owain Wyn

HOLME MOSS
(mest trosglwyddo)
Marged Elis
Ifan Roberts
Arfon Jones
Luned Davies

Parch EMLYN JOHN

Parch BRYN ROBERTS

OND GYFELLION ANNWYL,
RYCH CHI'N CAEL 'BORE DA'
AR Y.M.F. YN AWR, YN
OGYSTAL AG AR RADIO 4!
BETH RHAGOR Y'CH CHI EISIE?

LLUNDAIN
(TY'R CYFFREDIN)
Mair Owen
Carolyn Watcyn
Phylip Huws
Eleri Llwyd
Palmer Parri
Berwyn Roberts

LLUNDAIN (BBC)
Menna Elfyn
Nia Huws
Delyth Beasley
Rhian Bebb
Elinor Roberts

CAERDYDD
Llys y Goron:
Wayne Williams
Wynford James
Llys Cyffredin:
Trebor Roberts
Eilian Williams
Huw Roberts
Ifan Roberts
Dyfrig Berry
Dai Williams
Huw Williams
Rhodri Toms

BRYSTE (BBC)
Selwyn Jones
Huw Davies
Dilwyn Roberts
Gwilym Huws Jones
Gareth Dobson

HARRI P.-J.



hefyd, roedd achosion eraill yn erbyn Cymry hŷn gan mwyaf, am iddynt wrthod talu'r dreth deledu.

Ar Ionawr 19, yr un prynhawn ag y rhyddhawyd Ffred o garchar ar ôl gwneud dwy flynedd yn dilyn Brawdlys yr Wyddgrug, meddiannwyd stiwdios HTV ym Mhontcanna Caerdydd gan ugain aelod. Yn dilyn hynny, torrodd chwech o aelodau, sef David Emlyn Williams, Huw Roberts, Ifan Roberts, Rhodri Glyn Thomas, Huw Williams a Dyfrig Berry i mewn i stiwdios y BBC yn Broadway, Caerdydd, gan faricedio eu hunain i mewn a chael eu harestio a'u cyhuddo o wneud difrod troseddol. Yr un mis, bu Wayne Williams a Wynfford James ynghyd â dau arall, yn difrodi faniau y BBC yng Nghaerdydd. Daeth eu hachos i lys yr ynadon, Caerdydd lle daeth yr heddlu â chŵn i ymlid y cefnogwyr; cafodd un bachgen ei gnoi'n ddifrifol ac fe'i cymerwyd i'r ysbyty. Cosbwyd y ddau arall £5 yr un yn y llys, ond danfonwyd Wayne a Wynfford i lys y Goron i gael eu dedfrydu ar Fawrth 26ain; cafodd Wynfford ddirwy o £25 a charcharwyd Wayne am dri mis. Ac, yn ddiweddarach fyth, cymerwyd Wayne o'r ganolfan gaethiwo ym Mryn Buga draw i lys ynadon Manceinion i ateb am ei ran mewn gweithred arall.

Erbyn diwedd mis Ionawr, wedi'r gweithredoedd cychwynol hyn a oedd yn gymharol ddiniwed, cafwyd trafodaeth yn y grŵp darlledu ynglŷn â chynyddu neu ddwysáu'r ymgyrch am yr ail fis. Penderfynwyd ar y dull hynod o rywiaethol o gywilyddio bechgyn i weithredu drwy ofyn i bump o ferched gymryd rhan yn y toriad i mewn difrifol cyntaf. Ar Chwefror 7fed torrodd Menna Elfyn, Nia Ceidiog, Delyth Beasley, Rhian Bebb ac Elinor Roberts i mewn i adran gyhoeddiadau'r BBC yn Marleybone, Llundain, gyda'r bwriad o ddinistrio ffeiliau a chopïau o'r *Radio Times*. Cawsant eu harestio, ond eu rhyddhau'n ddiadmod yn yr achos llys ym mis Mawrth. Ar Chwefror 16 aeth pump aelod i Fanceinion, yn ôl at safle'r weithred ddifrifol gyntaf ym 1971 yn erbyn cwmni Granada a gwneud difrod sylweddol iawn i'r faniau yn y maes parcio y tu allan; y pump oedd Cathy McGill, Gaenor Elis-Williams, Hywel Tomos, Owain Wyn a Wayne Williams. Ar un noson, eto gan geisio ail adrodd bwriad 1971, bu pump arall — Selwyn Jones, Gwilym Hughes Jones, Huw Davies, Gareth Dobson ac Elis Dilwyn Roberts, yn difrodi faniau'r BBC ym Mryste; cawsant eu cadw yng ngharchar Pucklechurch am wythnos cyn cael eu rhyddhau ar fechnïaeth. Daeth criw o 30 i'w cefnogi yn y llys y diwrnod canlynol, ac aeth y rhain yn syth i flocio mynedfeydd y BBC ym Mryste. Roedd y math yma o weithredu, sef difrodi faniau, yn newydd a mynegodd Alwyn D Rees amheuaeth am briodoldeb y dull gan fod ofn arno y cai ei ddehongli fel fandaliaeth gyffredin: “gan,” meddai, “nad yw'r berthynas rhwng y weithred sumboliadd a'r hyn y mae'n symbol ohono mor hunan-amlwg ag a fu yn achos yr arwyddion ffyrdd.” (Roedd y Gymdeithas ei hun eisoes wedi bod drwy'r cyfyng gyngor hwn ac wedi ei ddatrys). “Ond,” ychwanegodd, “cyn inni feiddio rhoi cyngor o bellter diogel, daw geiriau eirias Padraig Pearse i'n hatal (gydag un ferf yn y llinell gyntaf wedi ei newid):

“‘Since the wise men have not acted, I act that am only a fool;
A fool that hath loved his folly,

Yea, more than the wise men their books or their
Counting houses, or their quiet homes.
Or their fame in men's mouths;
A fool that in all his days hath done never a prudent thing,
Never counted the cost...'”

Ar Chwefror 22ain, torrodd pedwar i mewn i fast trosglwyddo Holme-Moss yng ngogledd Lloegr. Fe'u harestiwyd a'u cadw yn y ddalfa nes y 27ain pryd y cawsant eu rhyddhau ar fechniaeth. Gwnaethant ymddangos yn y diwedd gerbron llys y Goron, Huddersfield ym mis Gorffennaf, ynghyd â Ffred Ffrancis a gafodd ei ddwyn i mewn am gynorthwyo trwy wneud map o'r ffordd at y trosglwyddydd. Cafodd Ffred 12 mis o garchar, Arfon Jones chwe mis yn syth a'r tri arall chwe mis gohiriedig; ac yn ystod y flwyddyn ganlynol torrwyd y dedfrydau gohiriedig gan Meg Elis ac Ifan Roberts a olygodd chwe mis o garchar yr un i'r ddau. Dangosodd y barnwr yn y llys ddiffyg dealltwriaeth lwyr o'r hyn a oedd yn digwydd yng Nghymru; dywedodd:

“What I find intolerable is that because your campaign is not a success in Wales (sic), you should try coercion in England, because that is what it amounts to. It may be done with stones and hammers and not gelignite, but it still amounts to an attempt to coerce — illegal acts to make the authorities give in to your demands.

Judge calls Welsh group a lunatic fringe

From Our Correspondent
Huddersfield, July 4

'Times' — 5/7/73

“Ffred Ffransis and Ifan Roberts both said that the raid was organised by the senate of the Welsh Language Society. I think it is a grave reflection on the Society that the raid was organised by a man (Ffred) who had only come out of prison in January and that taking part in it was another man (Arfon) who had a suspended sentence hanging over him. This shows that the Welsh Language Society is a lunatic fringe, or has got a majority of members who prefer to keep in the background rather than go into the front line, or both. And to send a man under suspended sentence was unfair to him. I am not impressed by the seemingly inexhaustible supply of clergymen (sef y tystion cymeriad) who come here to mitigate for him.

“I shall punish you for what you have done...”

Ac wrth ddedfrydu Ffred, ychwanegodd:

“It is clear that you are not a common criminal but a fanatic.”

Yn ystod y dyddiau hyn hefyd, roedd nifer o weithredoedd o gefnogaeth yng Nghymru. Sylweddolwyd mai criwiau bach yn unig y gellid eu danfon i'r stiwdios, swyddfeydd a'r gorsafoedd trosglwyddo yn Lloegr. Meddiannwyd swyddfeydd yng Nghymru hefyd e.e. swyddfa HTV ym Mangor gan 25 o aelodau'r Gymdeithas.

Ac roedd hi'n amlwg fod y gweithredoedd hyn yn dwyn ffrwyth yn yr ymgyrch gyfansoddiadol dros y sianel. Ym mis Chwefror datganodd Cyngor Cymreig y Blaid Lafur y dylid rhoi'r bedwaredd sianel at wasanaeth Cymru, pa beth bynnag fyddai ei thynged yn Lloegr; a hynny'n bennaf er mwyn atal argyfwng yr iaith Gymraeg. Aeth dirprwyaeth o'r Blaid Lafur i weld y Gweinidog Post a chael ateb negyddol ganddo oherwydd, meddai ef, nad oedd undod ymhlith y Cymry dros hyn. Dyma gychwyn y symudiad dros drefnu cynhadledd genedlaethol o'r holl gyrff a mudiadau yng Nghymru i ddangos nad oedd honiad y llywodraeth yn gywir — y gynhadledd a gynhaliwyd ar Orffennaf 3ydd.

Daeth uchafbwynt y gweithredu uniongyrchol ar ddydd Gŵyl Dewi 1973. Y noson gynt torrwyd i mewn i swyddfeydd y BBC ym Manceinion, swyddfeydd teledu Tyne Tees yn Newcastle, swyddfeydd y BBC yn Plymouth a swyddfeydd yr IBA yn Southampton; ac ar y bore hwnnw torrwyd ar draws rhaglen fyw yn Llandudno ar Radio Dau dan ofal Pete Murray, gan ddwy aelod. A'r prynhawn hwnnw bu chwe athro yn torri ar draws Tŷ'r Cyffredin i dynnu sylw at yr ymgyrch. Y noson honno, rhoddwyd rhan helaeth o'r rhaglen newyddion *Nationwide* (sic) a oedd yn cael ei darlledu o Gaerdydd am ei bod yn Wyl Ddewi, i'r ymgyrch syfrdanol hon. Yn ystod y rhaglen bu sgwrs stiwdio rhwng Ffred a'r diweddar Gwyn Thomas a George Wright a oedd newydd gael ei benodi fel ysgrifennydd TUC newydd Cymru. (Mae'n ddiddorol cofio, pan glywodd aelodau'r Gymdeithas yng Nghaerdydd fod *Nationwide* i ddod yn fyw oddi yno roedd bwriad ar y gweill i amharu ar y rhaglen — ond canslwyd y cynllun hwnnw wedi deall fod sylw i fod i weithredu'r Gymdeithas ar y rhaglen!).

Parhaodd y gweithredu hwn trwy fis Mawrth, ac roedd hefyd llawer o achosion llys yn codi o rannau blaenorol yr ymgyrch, e.e. dirwyon yn Newcastle a Southampton, carchar gohiriedig yn Plymouth a rhyddhad amodol ym Manceinion. O ganlyniad i'r achosion hyn, a'r achosion yn erbyn pobl a wrthododd dalu am eu

trwydded deledu, a'r newyddion am weithredu pellach — roedd yr ymgyrch hon yn dal yn y newyddion bron yn ddyddiol. Ar Fawrth 15ed, aeth Tweli Griffiths a Dyfrig Berry i mewn i swyddfeydd HTV yn Llundain, a chael eu dirwyo am wneud difrod troseddol. Ar Fawrth 27ain fe lwyddwyd, am y tro cyntaf, i atal trosglwyddo o fast HTV, St Hilary yng Nghaerdydd, gan wyth aelod o'r Gymdeithas, a bu naw* yn gwneud yr un modd i drosglwyddu Nebo ar y noson ganlynol. Ar Fawrth 30ain torrwyd i mewn i Bush House, Llundain a pherwyd difrod gwerth £250. Roedd hwn yn darged arbennig o sensitif oherwydd fod y BBC mor barod i wario arian ar ddarlledu propaganda Prydeinig mewn ieithoedd tramor, ac eto bod y wladwriaeth mor amharod i roi cyllid tuag at wasanaeth darlledu Cymraeg. Y bwriad gan y gweithredwyr — Siôn Myrddin, Eifion ap Elwyn, Roger Frost a Frank Holloway — oedd i ddwyn offer o'r lle a'i gael yn ôl i Gymru i'w ryddhau pan sefydlid Sianel Deledu Gymraeg, ond yn anffodus roedd yr offer i gyd yn rhy sefydlog, a bodlonwyd ar y dull mwy traddodiadol o ddfirodi.

Ar ddiwedd mis Mawrth rhoddwyd terfyn ar y cyfnod gweithredol yma, gan fwriadu pwyso mlaen trwy ddwysáu'r ymgyrch wrthod talu'r dreth deledu, ceisio sefydlu'r Radio Annibynnol a cheisio amharu ar hysbysebion teledu masnachol — yr hyn na lwyddwyd i'w wneud yn drwyadl. Ond roedd yr achosion a'r canlyniadau a'r carchariadau i barhau yn ystod y misoedd canlynol.

Ddiwrnod cyn achos Llŷs y Goron Huddersfield ar Orffennaf 4ydd, galwyd cynhadledd o holl brif fudiadau Cymru wedi'i drefnu gan Arglwydd Faer Caerdydd a alwodd yn unfrydol ar y Gweinidog Post, Syr John Eden, i roi ystyriaeth arbennig i anghenion Cymru wrth benderfynu ar ddyfodol y bedwaredd sianel.

Roedd Cymru, trwy ddwystr yr ymgyrch, wedi'i chadarnhau y tu ôl i'r nod yma. Ar sail y gynhadledd hon, aeth pedwar i weld y Gweinidog Post, sef Archesgob Cymru, Syr Goronwy Daniel, Dr Glyn Tegai Hughes (Cadeirydd Cyngor y BBC yng Nghymru) a Mr T Glyn Davies (cynrychiolydd Cymru ar yr IBA).

Roedd cwmni Teledu Harlech hefyd yn dod y tu cefn i'r ymgyrch bellach wrth i'w gobeithion y rhoddid y sianel i'r cwmnïau annibynnol edwino. Parhaodd yr ymgyrch wrthod talu ac fe wnaeth Alwyn D Rees apêl gref yn *Barn* am i bawb i ymuno yn yr ymgyrch hon:

“Esgorodd aberth y bechgyn (sef, Arfon a Ffred o lys Huddersfield) ac ymgyrch y dreth deledu ar Gynhadledd Genedlaethol gytûn. Mewn gwlad nad oes ganddi ei senedd ei hun, dyma'r weithred gyfansoddiadol rymusaf a oedd yn bosibl. Ond does dim unrhyw sicrwydd fod y llywodraeth yn mynd i dderbyn yr hyn a benderfynwyd. Yr hyn a barai lawenydd gwirioneddol i Ffred fyddai clywed fod cannoedd, os nad miloedd, o bobl newydd yn datgan ymlaen llaw na chodant

* Enwau'r gweithredwyr: Geraint Tudur, Alwyn Daniels, Emyr Glasnant (Tyne Tees), Gareth Davies Morris, Maldwyn Lewis, Alun Roberts (Plymouth), Mair Owen, Carolyn Watcyn, Philip Huws, Eleri Llwyd, Palmer Parry, Berwyn Roberts (athrawon), Trebor Roberts a Phil (Bach) Edwards (Southampton), Osian Williams, Elen Huws a Derec ap Sion (Manceinion). Nebo — Nia Edwards, Arfon Wyn, Leah Owen, John Glyn, David Roberts, Keith Wyn Williams, Dafydd Owen, Carys Price ac Eifion Wyn Williams.

drwydded deledu o'r Nadolig nesaf ymlaen os na fydd y llywodraeth wedi cyhoeddi cyn hynny fod y bedwaredd sianel yng Nghymru i gael ei defnyddio i ddibenion Cymru gyda'r flaenoriaeth i'r Gymraeg. Ped esgorai ar hyn, ni theimlai Ffred nac Arfon iddynt ddioddef yn ofer."



Achosion Llundain Cyhuddwyd rhyw 60 o aelodau i gyd o rwystro'r ffordd yn Whitehall, ac hefyd cyhuddwyd rhai o rwystro'r heddlu wrth eu gwaith. Dyma'r rhestr llawn o'r chwe achos (tri diwrnod mewn dau lys).

Mawrth 19eg Llys Marlborough St. - £5 o ddirwy: Linda Morgan, Mared Jones, Sion Eirian, Mairin ni Donnchadha, Dewi Harris, Gruff Elis-Williams, Gethin Clwyd, Moelwen Huws, Mair Jones, Dulyn Gruffydd.

£10 o ddirwy Arfon Jones (rhwystro'r heddlu), Ifan Roberts.

Llys Bow St. - £5 o ddirwy Elaine Senior, Sian Gwyn Jones, Sioned Gwyn Davies, Anne Uruska, Eira Mai Jones, Susan Edwards, Gwawr Huws.

£10 o ddirwy Eilian Williams, Deian Evans, Eifion Wyn Williams, Arthur Roberts,

£20 o ddirwy (dwy ohonynt) Goronwy Fellows - rhwystro'r ffordd a rhwystro'r heddlu). (Fe drefnodd yr holl beth, meddai'r heddlu)

Mawrth 20ed, Marlborough St - £5 o ddirwy John Glyn Jones, Edryd Gwyndaf, Arwel Humphreys, Clare Richards, Geraint Bowyer Richards, Selwyn Jones, Sian Edwards, Gwenllian Daniel, Dyfrig Siencyn.

Bow St. - £5 o ddirwy. Owain Wyn, Gwenno Jones, Sandra Worthing, Dylan Wyn, Iona Roberts, Dyfan Roberts, Rhian Edwards, Amranwen Haf.

Mawrth 21ain Marlborough St. - £5 o ddirwy Jayne Rees, William Owen, Christopher Priest.

£15 o ddirwy Wynfford James, Wayne Williams, Huw Williams.

Bow St., - £5 o ddirwy. Gareth Huws, Glenys Edwards, Cefin Roberts, Gerwyn Jones, Einir Huws, Marilyn Roberts, Emlyn Jones, Geraint Wyn Jones, Elen Huws, Cynfael Lake, Gareth Richards.

Roedd pawb nawr yn disgwyl am adroddiad Crawford oedd i fod i gael ei gyhoeddi yn fuan. Yn nechrau 1974 cynhaliwyd rali fawr yn Llundain, ac wedi gorymdeithio Hyde Park drwy'r ddinas, arestiwyd 60 o'u haelodau am eistedd ar draws y ffordd yn Whitehall. Ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn, fis Tachwedd 1974 cyhoeddodd y llywodraeth ei bod hi wedi derbyn argymhelliad Crawford y dylid sefydlu sianel deledu Gymraeg ar y bedwaredd sianel yng Nghymru, i ddechrau darlledu o flaen y bedwaredd sianel yn Lloegr. Sefydlodd y llywodraeth bwyllgor o dan gadeiryddiaeth Siberry i weithio allan y manylion ac i adrodd o fewn tri mis. Ysgrifennodd Alwyn D Rees yn *Barn*, o dan y pennawd "Ennill Brwydr y Teledu", "wrth gydlawenhau, gweddus yw inni gydnabod mai mabwysiadu polisi Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a wnaeth Pwyllgor Crawford a'r llywodraeth," a bu Alwyn D Rees un o gefnogwyr selocaf yr ymgyrch fawr ar droad y flwyddyn.

Dyma felly oedd y fuddugoliaeth gyntaf. Ond, oherwydd hyn, roedd y cyfnod canlynol yn mynd i fod yn anodd iawn. Dangosodd Cyfarfod Cyffredinol 1974, gydag ymateb yr aelodau ar gynigion eraill, nad oedd llawer o awydd am weithredu uniongyrchol difrifol pellach ar y pryd. Roedd yr ewyllys i weithredu bob amser wedi tueddu i fod ar lanw a thrai, ac ychydig yw'r parodrwydd i weithredu pan fod pawb o dan yr argraff fod buddugoliaeth fawr wedi'i hennill. Dangosodd y cynnig ar Sianel Gymraeg hefyd rhyw aeddfedrwydd newydd, sef nad oedd y Gymdeithas yn barod i dderbyn y sianel o dan amodau anffafriol, ond bod angen sicrhau rheolaeth annibynnol arni trwy gorfforaeth Gymreig, a bod adnoddau ariannol digonol y tu cefn iddi, a bod y cyhoeddusrwydd yn effeithiol a bod sicrwydd y cai'r gwasanaeth ei drosglwyddo i bob rhan o Gymru. Yn ystod y blynyddoedd canlynol, symudwyd pwyslais yr ymgyrch i drafod yr amodau ar gyfer y sianel.

7. Tair Blynedd o Ohirio

Hydref 1974 – Chwefror 1977



“Sianel Gymraeg yn Awr” yw’r slogan gyfarwydd ar rifyn *Tafod y Ddraig*, Rhagfyr 1974, ond diwygwyd ‘yn awr’ a rhoi 1976 yn ei le. Dyma oedd yr ymateb i Adroddiad Crawford a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 1974. Sefydlwyd Crawford gyda’r bwriad o drafod derbyniad mewn ardaloedd gwledig, ond fe’i ehangwyd i wneud arolwg arbennig o’r posibiladau o ddefnyddio’r bedwaredd sianel fel Sianel Gymraeg. Chwe mlynedd ers y gweithredu torcyfraith cyntaf ym 1968 felly, gwelwyd adroddiad Crawford yn argymhell sefydlu sianel deledu Gymraeg ym 1976.

“Boed pryd y cymerir y penderfyniad ynglŷn â’r bedwaredd sianel yng ngweddill Prydain, y dylid, yng Nghymru, ei ddarparu cyn gynted â phosibl ar gyfer gwasanaeth ar wahân lle y rhoddir blaenoriaeth i raglenni Cymraeg.”

Derbyniwyd yr adroddiad, mewn egwyddor, gan Roy Jenkins yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd.

Yr hyn a drawodd golygydd *Tafod y Ddraig* bryd hynny oedd tebygrwydd argymhellion Crawford i argymhellion cynnar Cymdeithas yr Iaith — “darlledu lleiafswm o tair awr y nos a 25 awr yr wythnos, sianel dan reolaeth cyd-bwyllgor o gynrychiolwyr BBC a Harlech, a chyd-drefniant i rannu stiwdios a gweithwyr, a gofalu na fyddai rhaglenni Cymraeg yn cael eu tynnu oddi ar y sianeli eraill tan bod y 4ed sianel yn cael ei derbyn yn helaeth trwy Gymru”. Roedd y *Tafod* yn falch fod dadleuon y Gymdeithas wedi treiddio i’r awdurdodau Prydeinig, yn pwysleisio pwysigrwydd ‘delwedd’ y sianel ac yn nodi na chyfeiriwyd o gwbl at Awdurdod Darlledu yn Crawford, sef chwilen ddiweddaraf y Gymdeithas. Cam oedd Crawford, nid andros o fuddugoliaeth.

“O gofio nad argymhellwyd eto sefydlu Awdurdod Darlledu Cymreig, ac nad oedd eto sôn am i’r 25 awr yr wythnos dyfu’n wasanaeth llawn, fe welir mai camrau cyntaf at y nod a gymerwyd hyd yma,” medd Cynog Dafis, golygydd y *Tafod*. Ond roedd nodyn gobeithiol iawn:

“Y tro hwn fodd bynnag, dyma lywodraeth y dydd yn datgan cefnogaeth i’r argymhellion ac yn sefydlu gweithgor i adrodd ar ben tri mis ynglŷn â rheolaeth a pheirianwaith, a’r ystyriaethau technegol sy ynghlwm wrth sefydlu sianel Gymraeg.”

Penderfynwyd galw ar aelodau a chefnogwyr i ail godi’r drwydded deledu, ac apeliwyd ar yr awdurdodau i atal yr achosion llys yn erbyn y rhai a wrthododd dalu.

Gweithgor dan gadeiryddiaeth JW Siberry oedd yr hwn y cyfeiriodd Cynog ato uchod, a’i waith oedd ymchwilio i broblemau technegol ac ariannol. Ymhlith

aelodau'r pwyllgor oedd Owen Edwards (BBC) ac Aled Vaughan (HTV). Yn ôl calendr pawb arall, tri mis wedi Tachwedd 1974 fyddai Chwefror 1975. Ni welwyd ymddangosiad Adroddiad Siberry tan Rhagfyr 1975. Dyma ddechrau'r Gohirio Mawr. Wedi chwe mlynedd o ymgyrchu, dim ond deuddeg awr a hanner o raglenni Cymraeg a gafwyd ar y teledu mewn wythnos gyfan (o'i gymharu a 230 yn Saesneg).

Pwyslais Cyfarfod Cyffredinol 1974 oedd Awdurdod Darlledu Annibynnol:

"Yn ystod y misoedd diwethaf gwelwyd dro ar ôl tro oedi parhaus ar unrhyw benderfyniad ar fater darlledu yng Nghymru. Er bod argymhellion gwahanol gyrrff yng Nghymru yn hysbys i'r llywodraeth, negyddol fu eu hateb. Mae'n amlwg fod y cyfrifoldeb bellach yn nwylo'r llywodraeth a'u bod nhw'n parhau'r dacteg o oedi. Credwn ei bod yn hanfodol i'r camau canlynol gael eu gweithredu yn syth er mwyn sicrhau gwasanaeth darlledu ystyrlon i Gymru.

"Mynnwn fod sefydlu yn syth Awdurdod Darlledu Annibynnol i Gymru ac hefyd sianel deledu Gymraeg.

"Gan na wireddwyd y camau uchod, fel man cychwyn i sicrhau gwasanaeth radio a theledu teilwng i Gymru, bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu yn erbyn y llywodraeth ganolog a'r awdurdodau darlledu, i amharu ar eu gwaith, yn defnyddio pob dull a thacteg o fewn y dull di-drais."

Ar Dachwedd 27ain, 1974, daeth dros 50 o bobl i Landegfan, Powys i groesawu ffermwr, a thad i bedwar o blant—Bryn Owen o'r Foel a fu am wythnos yng ngharchar Amwythig am wrthod talu ei drwydded deledu.

Ar Ionawr 4, 1975 carcharwyd Mari Roberts o'r Waunfawr, a myfyriwr yng Ngholeg y Drindod, yn Risley ac ar Ionawr 11eg, 1975 treuliodd Amranwen Haf Lynch, eto o'r Drindod, bythefnos yng ngharchar Pucklechurch, y ddwy am eu rhan yn yr ymgyrch ddarlledu.

Ond ar Chwefror 13, 1975, dyma ddatganiad WH Roberts yn llys Aberystwyth:

"Rydw i wedi datgan fy mharodrwydd i godi trwydded unwaith y caem addewid am sianel ar wahân i ni'r Cymry Cymraeg. Fe gawsom yr addewid ac, yn ffyddlon i'm datganiad, fe godais drwydded heb oedi, a hynny ym mis Tachwedd diwethaf, a dyma'r drwydded."

Gobeithiol oedd datganiad Meg Elis yn Llys y Goron, Huddersfield ar Fai 16 y flwyddyn honno pan ymddangosodd ar gyhuddiad o dorri deddfryd o chwech mis a gafodd yn ystod yr ymgyrch ddarlledu. Cyn cychwyn ar ddeddfryd o garchar dywedodd:

"Nod y frwydr honno oedd cael i Gymru ei sianel deledu ei hun yn yr iaith Gymraeg; mae'r nod hwnnw yn awr ar fin ei gyrraedd, gyda chyhoeddi adroddiad Pwyllgor Crawford a argymhellodd sefydlu'r fath sianel. Mae blynyddoedd o waith caled, gweithredu cyfansoddiadol ac anghyfansoddiadol wedi galluogi pobl Cymru i wireddu eu breuddwyd, ac i gymryd cam bychan tuag at achub yr iaith."

Ym mis Mai hefyd cyflwynodd Cyngor Darlledu Cymru adroddiad i Bwyllgor Annan yn pwyso am yr union bolisi y bu'r Gymdeithas yn pwyso amdano cyhyd. Ychwanegwyd at y pwysau ym mis Hydref pan alwodd yr Arglwydd Harlech am benderfyniad brys ar fater y sianel Gymraeg "er mwyn Cymru a'r iaith Gymraeg".

**“O Bydded i’r
Heniaith Barhau..”**



**..but WILL the
language survive?**


Ond erbyn yr Hydref, roedd aelodau'r Gymdeithas yn blino aros:

"Wedi Crawford, ymatebodd y llywodraeth yn syth gan sefydlu pwyllgor arall i edrych i mewn i ochrau gweinyddol a thechnegol y sianel a rhoi tri mis iddynt gwblhau eu hymchwil. Disgwylid eu hargymhellion tua diwedd mis Ebrill... ni allwn fforddio gwastraffu'r misoedd yma yn enwedig gan y bydd angen amser wedyn i fynd ati gyda'r gwaith o baratoi adnoddau a'r staff newydd.

"Pam yr holl oedi? Teimlaf erbyn hyn fod yn rhaid i'r Gymdeithas gymryd camau pellach i sicrhau na fydd oedi pellach ym mheiriannau'r llywodraeth," meddai Huw Roberts (Castell Nedd), a dywedodd y *Tafod*:

"Wedi paratoi'r ysgrif hon, penderfynodd y Gymdeithas ailgychwyn yr ymgyrch gwrthod talu trwydded teledu."

Adeg Eisteddfod Cricieth aeth aelodau'r Gymdeithas draw i Ddyffryn Nantlle i wyllo Wynfford James a Siôn Parri yn dringo mast Nebo. Mewn cyfarfod ar faes yr Eisteddfod, penderfynwyd peidio talu am drwydded deledu nes cael ateb boddhaol gan y llywodraeth.



Yng Nghyfarfod Cyffredinol 1975, pasiwyd:

“Gan fod y llywodraeth wedi derbyn yr egwyddor o Sianel Gymraeg (er gwaetha'r oedi) trown ein prif sylw at gael Corfforaeth Ddarlledu Annibynnol i reoli'r sianel a'r donfedd radio. Yn sgil hyn, cyfarwyddwn y Grŵp Darlledu i fynd ati ar unwaith i ddatblygu polisi'r Gymdeithas ynglŷn â rheolaeth a chynllun y fath awdurdod, a chyflwyno hyn i'r senedd erbyn y Nadolig, fel y bydd y Gymdeithas mewn sefyllfa i weithio ac i weithredu i hyrwyddo'r polisi yn y flwyddyn newydd.”

Ddeng mis yn hwyr, cyhoeddwyd Adroddiad Siberry oedd yn ateb cwestiynau ynglŷn â thechnoleg sefydlu'r sianel Gymraeg, yn ogystal â rheolaeth dros dro a chyllid y sianel. Cadarnhawyd mai llesol fyddai sefydlu gwasanaeth Cymraeg ar y bedwaredd sianel a dangoswyd bod hynny'n gwbl ymarferol. Y gost yn ôl prisiau dechrau 1975 oedd £10.95 miliwn. Y siom fwyaf ynglŷn â Siberry oedd nad oedd sôn am ddyddiad cychwyn o gwbl.

“Nodwyd pe benderfynid ar ddyfodol y cynllun arfaethedig ni fyddai modd gweithredu'r gwasanaeth am gyfnod o tua tair blynedd. Roedd hyn yn tanlinellu pwynt Pwyllgor Crawford ei fod yn dra phwysig, o ystyried dyfodol yr iaith Gymraeg, i gychwyn ar y gwaith o sefydlu Sianel Deledu Gymraeg ar unwaith. Sylweddolodd pwyllgorau Crawford a Siberry un peth — sef mai mater o frys oedd sefydlu'r bedwaredd sianel yng Nghymru, mater a hawliai sylw arbennig. Serch hynny, y cyfan allai'r llywodraeth Lafur ei gynnig oedd addewid i ystyried y mater yn yr arolwg blyneddol ar wario cyhoeddus.” (o *Teledu Cymru i Bobl Cymru*, 1976).



HOME OFFICE

Report of the Committee on Broadcasting Coverage

Ym mis Chwefror 1976, torrodd saith aelod o Gymdeithas yr Iaith ar draws gweithgareddau Tŷ'r Cyffredin i geisio cael datganiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol a thorrodd tri aelod ar draws eisteddiad o Dŷ'r Arglwyddi. Yr un wythnos, torrodd aelodau ar draws gweithgareddau BBC Bangor er mwyn cael gwneud datganiad

ar y mater. Fis Ionawr hefyd, gwelwyd sawl un yn ymddangos gerbron gwahanol lysoedd ar fater y drwydded deledu — Siân Llŷr, Robat Gruffudd, Enfys Llwyd, Gwilym John, Islwyn Iago.

Fis Chwefror 1976, cafwyd clec go fawr i'r ymgyrch. Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar 19eg o Chwefror heb air ynddo am y Sianel Gymraeg, ac felly nid oedd y mater yn agored i'w drafod ar lawr y Tŷ. Yn hytrach, cafwyd ateb gan Roy Jenkins i gwestiwn gan Cledwyn Hughes AS.

"The Government are fully aware of all the arguments in favour of a fourth television service in Wales, and have accepted in principle the Crawford Committee's recommendations that it should be provided. It has also given careful consideration to the Siberry Report which set out a programme and costs for the new service. The Government have concluded, however, in the context of the recently completed review of public expenditure that the project cannot, in the present economic circumstances, command sufficient priority to justify an immediate Government subvention... The Government intend to review the situation afresh at the end of the financial year, 1976-1977." — Hansard, Chwefror 1976.

Ar yr un pryd, rhyddhawyd datganiad i'r wasg gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, Mr John Morris, yn esbonio'r penderfyniad. Yn gyntaf, ceisiodd esbonio fod yn rhaid gwario arian ar y cynlluniau ar gyfer ehangu'r gwasanaeth UHF cyn gwario ar y Sianel Gymraeg. Gwadwyd honiad Mr Morris gan Gyngor Darlledu Cymru pan ryddhawyd datganiad i'r wasg yn dweud:

"Yr ydym yn ofni y gall peth dryswch ym meddyliau'r cyhoedd am berthynas rhwng darparu'r Bedwaredd Sianel ac estyniad o'r gwasanaeth UHF presennol. Yr ydym yn cydnabod yr angen i ddod â derbyniad i ardaloedd nad ydynt yn ei gael ar hyn o bryd, ac yn pwysleisio fod y BBC eisoes wedi ymdyngedu i'r fath gynlluniau. Fe fuasai'r cynigion ynglŷn â'r Bedwaredd Sianel ar gyfer y rhai y gofynnwyd am gymorth ariannol y llywodraeth, yn ychwanegol i'r cynllun UHF presennol. Ni fyddai gohirio'r Bedwaredd Sianel felly yn rhyddhau dim rhagor o arian y BBC ar gyfer datblygu trosglwyddyddion." (datganiad i'r wasg, Cyngor Darlledu Cymru, 17 Mawrth 76).

Efallai mai dryswch ym meddwl John Morris a'i arweiniodd i ddweud yr hyn a ddywedodd ond mae'n fwy synhwyrol i ystyried ei ddatganiad fel ymgais fwriadol i dwyllo pobl Cymru. Daw hyn i'r amlwg o ystyried ei sylw arall:

"I know that both Welsh and English speakers will be disappointed by this news [gohirio'r sianel] but I believe that it will be understood for the moment that we must give overall priority to our programme for industrial regeneration, housing and other essential social needs. I ask for patience a little longer." (datganiad i'r wasg, John Morris, 19 Chwefror 76).

Malu awyr gwirioneddol oedd hyn. Roedd y llywodraeth yn gwario tua £20 miliwn yn flynyddol ar ddarlledu tramor, a'r gwarth mwyaf oedd ei bod newydd wario oddeutu £12 miliwn ar gyfer sefydlu gwasanaeth teledu lliw Saesneg ar gyfer y milwyr a'u teuluoedd yn yr Almaen. Ai darlledu tramor a darlledu i'r lluoedd arfog oedd yr "other essential social needs" y cyfeiriai John Morris atynt?

“I ask for your patience” oedd diwedd truth John Morris, ond wedi wyth mlynedd, roedd amynedd Cymdeithas yr Iaith wedi hen ddarod.

Ar y 6ed o Fawrth, cynhaliwyd rali tu allan i risiau'r Swyddfa Gymreig. Meddai'r Cadeirydd Wynfford James: “Byddwn yn parhau gyda'n hymgyrch yn erbyn y llywodraeth ganolog trwy weithredu'n uniongyrchol. Erfyniwn ar bobl i ail ymuno i wrthod talu'r dreth deledu. Yn ystod y rali hon heddiw, byddwn yn llosgi trwydded deledu ar risiau'r Swyddfa Gymreig. Hefyd i sicrhau fod y llywodraeth yn ymwybodol o'r gwrthwynebiad sydd i'w pholisiau presennol, gofynnwn i bawb o'n cefnogwyr i beidio a dangos eu disg treth modur, ond yn hytrach gosod y disg yr ydym wedi ei baratoi, sydd yn cario'r geiriau “Rhaid i'r iaith fyw”.

Dyfyniad: BBC

External Services –

“To inform the largest possible foreign audience about Britain and her role in international affairs.”

Mae'n anodd dychmygu heddiw mor anodd oedd ceisio cael mudiadau a phobl Cymru i leisio eu barn o blaid sianel Gymraeg. Fis Chwefror 1976, mewn ateb i gwestiwn gan Dafydd Wigley, dywedodd Roy Jenkins:

“Since the publication of the Crawford Committee Report in November 1974 I have received representations from the Risca and District Citizens Association, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Urdd Gobaith Cymru, Carmarthen District Council and Dwyfor District Council. The representations support the Crawford Committee's recommendation.”

Hynny ydi, dim ond pum corff oedd wedi poeni digon i ysgrifennu llythyr hyd yn oed. Roedd y dasg o godi tymheredd yr ymgyrch yn mynd i fod yn waith aruthrol. Sut oedd codi brwdfrydedd dros ymgyrch a oedd 'wedi'i hennill' eisoes?

Fel ymateb i'r Papur Gwyn, meddiannwyd tair swyddfa yn adeilad y Dreth Incwm Caer ar Fawrth 26, 1976 gan naw aelod o Gymdeithas yr Iaith. Rhwygwyd ffurflenni a datgysylltwyd ffoniau.

“Dewiswyd y swyddfa yng Nghaer am mai honno a reolai'r gyfundrefn drethiant mewn ardaloedd helaeth o ogledd Cymru a'r Gororau, ac mai trwy ei chyfundefn codi arian y byddai'r ffordd mwyaf amlwg o daro'r llywodraeth yn galed.”

Y naw oedd: Teresa Pierce (Waunfawr), Sharon Foel (Dinbych), Siôn Parry (Betws y Coed)—a garcharwyd wedyn am wrthod talu'r ddirwy, Vaughan Roderick (Caerdydd), Siôn Aled (Porthaethwy), Gwilym John (Cemaes), Aled Eirug (Aberystwyth), Gareth Llwyd (Parc), Roger Jones (Aberystwyth). Wedi iddynt gael eu cadw yn y ddalfa dros nos, dirwywyd yr aelodau £50 a £2 o gostau gyda 28 diwrnod i dalu.

Rhyfedd oedd ymgais y papur lleol, y *Chester Chronicle*, i gysylltu'r weithred â thrais:

“A stand-by ‘amber alert’ put into operation at the tax offices following the death of Irish hunger-striker, Frank Stagg, had only just been lifted.

“On April 10, 1969, the offices were bombed by Welsh Nationalists, but nobody was seriously hurt.”

Meddiannwyd swyddfeydd y Goron yng Nghaernarfon ac Adran Darllediadau Tramor y BBC yn Bush House, Llundain, ond ni ddeilliodd achosion o'r rhain.

Trefnwyd rali ddarlledu yng Nghaerdydd, ac roedd yr achosion am beidio talu'r drwydded deledu yn dal i fynd rhagddynt.

Yn y cyfamser, ai'r pwyso cyfansoddiadol yn ei flaen gyda Chymdeithas yr Iaith yn gohebu â chynghorau, mudiadau ac unigolion. Mae hyn yn peri i rywun ystyried faint o bwysau fyddai wedi cael ei roi oni bai anogaeth gyson a thaer y Gymdeithas.

"Mae yno un pwynt serch hynny y dylwn ei bwysleisio yn y llythyr yma, sef yw hynny nad ydym yn credu fod Sianel Deledu Gymraeg yn unig yn ddigonol i ateb anghenion darlledu Cymru. Mae'n hanfodol fod Awdurdod Darlledu Annibynnol i Gymru yn cael ei sefydlu ac yn cael grym dros pob un rhaglen sy'n cael ei drosglwyddo yng Nghymru. Petai hyn yn digwydd teimlwn y byddai'r Sianel Gymraeg wedi'i sefydlu yn gwbl ofer oblegid ni fyddai trefn o gydweithrediad rhwng y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig a Chwmni Teledu Harlech yn ymarferol ac yn fwy pwysig efallai, ni fyddai yno Sianel Saesneg ei iaith ond o ddiddordeb Cymreig yn ymarferol chwaith...

"Gaf i hefyd apelio arnoch i gynyddu effaith eich cefnogaeth trwy naill ai: danfon copïau o'ch llythyr i'r llywodraeth, i'r wasg genedlaethol a'r cyfryngau, neu rhyddhau datganiad yn ailadrodd eich apêl i'r wasg a'r cyfryngau. Teimlaf y byddai gwneud felly yn cynyddu effaith eich cefnogaeth am y rheswm syml y byddai'ch galwad yn dod i olwg y cyhoedd ac felly'n gymorth i sbarduno eraill i wneud yn yr un modd."

(Darnau o lythyrau gan Rhodri Williams, arweinydd y grŵp darlledu, yn rhoi cyfarwyddiadau i bobl sut i ysgrifennu llythyrau.)

Fis Mai anfonwyd llythyr at Roy Jenkins yr Ysgrifennydd Cartref gan 38 o bobl amlwg yn cynnwys Archesgob Cymru yn pwyso arno i neilltuo arian i sefydlu'r Sianel Gymraeg.

Haf tawel ydoedd ond ym mis Medi (11eg) carcharwyd Siôn Parri am fis am ei ran yng ngweithred Caer.

Daeth cynnig gerbron Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas yn Hydref 1976 gyda'r mater o sefydlu Awdurdod Darlledu Annibynnol yn cael ei rygnu am y drydedd flwyddyn yn olynol. Unwaith yn rhagor, datganwyd bwriad i weithredu.

"Nodwn hefyd nad yw'r llywodraeth wedi penodi dyddiad cychwyn ar y gwaith o sefydlu Sianel Deledu Gymraeg. Ystyriwn hyn yn fater o'r pwys mwyaf, a mynnwn fod y llywodraeth yn mynd ymlaen â'r cynlluniau yn ddi-oed. Gan na chafwyd ateb i'r perwyl hwn erbyn y Cyfarfod Cyffredinol hwn, gorchymyn y Cyfarfod hwn yw bod Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cychwyn ymgyrch weithredol a allai gynnwys meddiannu a pheri difrod cyfyngedig i eiddo'r llywodraeth ganolog a'r Awdurdod Darlledu."

Roedd y Cadeirydd, Wynfford James a'r Ysgrifennydd Hefin Thomas yng Ngharchar Abertawe am wrthod dangos eu disgiau treth yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol gan roi ymdeimlad newydd o frys ac argyfwng i'r aelodau.

Dringodd pedwar aelod fast teledu yn Crystal Place, Llundain. Pum diwrnod o garchar gafodd Siôn Aled (Porthaethwy), Gareth Llwyd Dafydd (Parc), Teresa Pierce (Waunfawr) ac Angharad Tomos (Llanwnda) am beidio arwyddo i gadw'r

heddwch. Dechrau Tachwedd, aeth criw i lawr i Lundain i dorri ar draws y Tŷ Cyffredin, a'r un mis gwelwyd aelodau — Emyr Tomos, Siwsan George, Ffred Ffransis ac Eryl Fychan, yn cerdded i Lundain gyda llythyrau wedi eu harwyddo gan bobl ledled Cymru yn galw ar yr Ysgrifennydd Gwladol i weithredu.

Roedd yn gyfnod anodd iawn, iawn ac roedd anhawster mawr i gael gweithredwyr. Roedd wedi bod yn ymgyrch faith ac roedd pethau wedi dechrau llusgo ers tro. Gadewid y Gymdeithas dro ar ôl tro yn hoelio eu gobaith ar y naill adroddiad ar ôl y llall. Gohirio gweithredu, ymateb i adroddiad, yn anfon dirprwyaethau, yn cael ei siomi ac yna'n ailddechrau gweithredu. Ond roedd hi'n amlwg fod nifer o aelodau o dipyn i beth yn ail-fagu'r ewyllys i weithredu o ddifri yn yr ymgyrch.

WESTERN

Monday, October 18, 1976

THE NATIONAL NEW

TV fight turned over to wreckers

“Mi fu'r Gymdeithas yn dawl iawn ynghylch darlledu ers cyhoeddiad Crawford”, meddai Rhodri Williams yn y *Tafod*, Rhagfyr 1976, “ac mae'n debyg fod y llywodraeth a'r awdurdodau darlledu yn ystyried hyn yn arwydd o wendid gweithredol ar ein rhan”. Nid oedd unrhyw gynnydd na gwelliant yn y gwasanaeth teledu Cymraeg, yn wir, dangosai graff ar glawr y rhifyn hwnnw o'r *Tafod* y ffaiith

erchyll fod llai o Gymraeg ar gael ar deledu BBC ym 1976 nag yr oedd pedair blynedd ynghynt. Ym 1972 roedd 376 awr y flwyddyn. Erbyn 1976, roedd i lawr i 337 awr.

Ar ddydd cyntaf Ionawr, 1977, dyma gael rhagflas ar flwyddyn oedd i ddod wrth i fast Nebo, Penygroes gael ei ddiffodd gan Gareth Llwyd Dafydd (Parc), Teresa Pierce (Waunfawr), Eryl Fychan (Dinbych) a Richard ‘Ben’ Roberts (Llanrug) — dirwywyd y cyfan £20. Yr un mis, peintiwyd swyddfeydd trethi yn Aberystwyth gyda sloganau yr ymgyrch ddarlledu.

Anodd yn awr yw ceisio cofio arwyddocad y mastiau teledu hyn ar y pryd. Roeddynt yn symbolau o ddarlledu iaith estron, a theimlad sawl un wrth fynd heibio i fast Nebo neu Flaenplwyf yn y nos, pan oedd goleuadau'r mast yn fotymau haerllug coch ar frest yr awyr, oedd cael yr ysfa i ddiffodd y goleuadau a rhoi taw ar y darlledu.

Anodd dychrynlllyd hefyd oedd cadw'r ymgyrch i fynd yn y cyfnod hwn. Doedd yna ddim llywodraeth yn dweud neu'n gwneud pethau annerbyniol, dim gweinidogion yn ymwrthod yn llwyr â'r syniad o Sianel Gymraeg; roedd yna rhyw gonsensws amwys ar gael. OND NID OEDD DIM YN DIGWYDD. Doedd neb na dim (ar wahân i Jac L) yn denu nac yn creu fawr o ymateb. Roedd perygl dychrynlllyd i'r ymgyrch syrthio'n gwbl fflat.

“Trwy ganolbwyntio sylw cyhoeddus ar ddyfodol darlledu yng Nghymru, gallwn gychwyn trafodaeth synhwyrol ynglŷn â'u hamcanion, gan ysgogi unigolion o bob galwedigaeth sydd a diddordeb neu brofiad arbenigol mewn darlledu i'n cynorthwyo i osod cynllun ymarferol o flaen yr awdurdodau”, meddai Rhodri Williams. “Y ffaith amdani yw, os ydym am weld gwelliant o unrhyw fath yng nghynrychiol y cyfryngau darlledu yng Nghymru, rhaid sefydlu awdurdod darlledu a fydd yn atebol i bobl Cymru.”

Popeth yn dda, ond roeddem ni wedi clywed y cyfan o'r blaen, hyd syrffed. Dymunai rhai yn dawl bach ar brydiau i Gymdeithas yr Iaith roi'r gorau i'r pledio diflas yma, derbyn eu bod wedi colli'r frwydr a gadael pethau i fod. Ond i'r rhai oedd wedi bod wrthi cyhyd, roedd y syniad yn amhosibl. I sawl gweithredwr, roedd y syniad o Sianel Gymraeg mor ddiethr â phlaned arall. Ond roedd gweithredu gyda Chymdeithas yr Iaith wedi cynnwys rhyw deyrngarwch rhyfedd ynddynt. Styfnigrwydd oedd yn peri iddynt barhau i fynnu Sianel Gymraeg fel petai eu bywydau'n dibynnu arno. Roedd y teyrngarwch i'r 'ymgyrch' yn gryfach na dim. Doedden ni ddim am adael i'r llywodraeth ennill y dydd ar unrhyw gyfrif. Ac, ar waetha'r digalonni oherwydd y gohirio a'r oedi ar un llaw, a dechrau'r cancr o ymrwygo mewnol ymhlith y Cymry Cymraeg ar y llaw arall, magodd y Gymdeithas y nerth i daro allan o'r newydd gyda gweithredu mwy difrifol nag a welwyd erioed cyn na wedi hynny. Diwedd 1977 oedd y rhigol isaf oll yn yr ymgyrch ddarlledu, heblaw, o bosib am ddiwedd 1979. Ond, rhywsut, fe fagwyd yr hyder i daro ergyd galetaf yr ymgyrch yn gynnar ym mlwyddyn 1978.

8. Blino Aros

Chwefror 1977 – Medi 1979

Achos Blaenplwyf 1978, Araith y Frenhines 1979

Yn nyddiadur Cymdeithas yr Iaith, 1977–78 yw blwyddyn Blaenplwyf. Am flwyddyn a hanner, hoeliwyd y sylw ar yr achos hwn gan ei wneud yn ganolbwynt yr ymgyrch ddarlledu.

Roedd yr ymgyrch yn hen, y syniad o sianel Gymraeg wedi peidio cynhyrfu pobl ers tro. Doedd yr anghyfiawnder ddim yn ddigon i wylltio pobl. Dim ond merddwr oedd y cyfan. Yn yr amgylchiadau hyn, yn gywir neu'n anghywir, penderfynodd Cymdeithas yr Iaith, os nad oedd unrhywbeth arall yn mynd i gynhyrfu'r dyfroedd, y byddai'n rhaid iddynt hwy greu'r cynnwrf angenrheidiol eu hunain. Y cwestiwn mawr oedd sut?

Dyma'r cefndir i'r weithred ddigwyddodd yn oriau mân fore Mercher, Chwefror 8ed, 1977, y weithred fwyaf difrifol yn hanes yr ymgyrch. Dyma sut y disgrifiwyd y weithred mewn llyfryn ar achos Blaenplwyf:


“Pnawn Mawrth, Chwefror 7ed, 1977, roedd Vincent Morgan a'i ddau gydweithiwr yn paratoi i fynd adre o'u gwaith. Yn ôl yr arferiad, archwiliodd y tri offer a drysau'r orsaf drosglwyddo i sicrhau fod popeth yn saff. Y pnawn hwn, roeddynt yn fwy gofalus nag arfer gan fod gwerth deuddeg mil o bunnau o offer wedi cyrraedd yr orsaf y diwrnod hwnnw. Wedi eu bodloni, gadawodd Morgan, Turner a Parry'r fan am chwech o'r gloch y nos gan adael y goriadau i Frank. Roedd yr adeilad yn wag, ac wedi ei gloi yn saff ychydig wedi chwech, ac roedd hi'n nosi'n dawl ym mhentref Blaenplwyf ger Aberystwyth.

“Roedd hi'n tynnu at ugain munud i dri o'r gloch y bore ac roedd Deio'n dechrau rhynnu. O'r diwedd gwelodd olau car yn dod dros y bryn. Cuddiodd yn y gwrych nes i'r car fynd heibio. Gwnaeth y gyrrwr arwydd arno. Diolch byth meddyliodd. Gobeithio yr ai popeth yn iawn nawr.

“Yn y car roedd pawb yn dawl ac nid oedd yr un ohonynt yn yngan gair. Wedi cyrraedd yr orsaf, gofalodd y gyrrwr fod popeth ganddynt — menyg, torrwr a morthwyl — iawn! Ychydig funudau wedyn clywyd sŵn gwydr yn torri, yna distawrwydd. Roedd y munudau a ddilynodd y rhai mwyaf ingol y bu rhaid i'r gyrrwr fyw trwyddynt erioed. Unrhyw funud disgwyliai i'r heddlu gyrraedd. Ond dim. Dim ond tywyllwch ac oerni noson o Chwefror a'r sŵn taro'n torri ar y tawelwch. Yna, sŵn traed yn rhedeg at y car a phawb yn gwthio'i mewn.

“Yn y gwrych roedd Deio'n aros, pan glywodd gar yn mynd heibio gan ganu'r corn. Buddugoliaeth! Gwylodd y car yn diflannu i ddyfnder y nos ac yna cerddodd i'r ciosg cyfagos.

“Am 5.30am bore Mercher, Chwefror 8ed, 1977 derbyniodd Vincent Morgan alwad o'r 'Network Switching Centre' yng Nghaerdydd i ddweud fod larwm gorsaf



Difrod i ddrws Gorsaf Blaenplwyf

Blaenplwyf yn canu. Heb oedi, aeth Morgan yno'n syth a chanfod fod giatiau'r orsaf ar agor. Aeth ymlaen i chwilio'r lle a gwelodd gyda golau ei dorch fod rhywun wedi cael mynedfa i'r adeilad drwy dorri'r drws. Camodd yn betrusgar i'r adeilad dros y gwydr ar lawr a chanfod llanast ofnadwy yno. Gadawodd y lle ar frys gan ruthro i bentref Blaenplwyf i ffonio 999. Yna ffoniodd Turner a Parry.

"Am oddeutu 6.05 yr un bore, yn ystafell newyddion y Press Association, eisteddai James Finlay Marshall, newyddiadurwr, yn yfed ei baned goffi. Roedd

bron â gorffen ei wyliadwriaeth nos, a hithau wedi bod yn noson dawel iawn. Yn sydyn, canodd y ffôn. Ni pharodd yr alwad mwy nag ychydig eiliadau. Ni roddodd y siaradwr ei enw ond siaradai ag acen Gymraeg gref a chai'r newyddiadurwr o Sais drafferth i'w ddeall. Siarad ar ran Cymdeithas yr Iaith ydoedd a dymunai roi gwybod i'r wasg am y difrod a achoswyd i drosglwyddydd teledu Blaenplwyf, ger Aberystwyth, y noson cynt. Senedd Cymdeithas yr Iaith oedd yn derbyn y cyfrifoldeb a gweithredwyd yn y modd hwn fel rhan o ymgyrch y Gymdeithas i sicrhau gwasanaeth teledu cyflawn yn yr iaith Gymraeg. Yna rhoddodd y derbynnydd i lawr. Roedd gweithred Blaenplwyf wedi digwydd."

Y gwahaniaeth pwysica rhwng y weithred hon a gweithred Granada oedd mai Senedd y Gymdeithas a hawliodd y cyfrifoldeb, nid dau neu dri o unigolion. Oherwydd hyn, roedd yn rhaid cynllunio'r weithred yn llawer mwy manwl a gofalus; defnyddiwyd dros ddeugain o aelodau'r Gymdeithas wedi'u safleoli ar hyd y priffyrdd a'r caeau o gwmpas y mast i weithredu fel gwylwyr gyda 'walkie-talkies' yn eu cysylltu â'r gweithredwyr, er mwyn eu rhybuddio pe byddai angen iddynt ddianc ar frys. Yr amcangyfrif cychwynol am gost y difrod oedd £25,000 ond fe'i gostyngwyd wedyn i £6,000.

Yn y cyfamser, ai'r achosion gwrthod talu yn eu blaenau yn y llysoedd, gydag ambell gymeriad mwy lliwgar na'i gilydd yn ymddangos gerbron y fainc. Cofir am Robat Gruffudd, Y Lolfa, yn colli ei dymer gyda Mainc Aberystwyth, gan ddweud mai yn y tŷ bach y cadwai ef ei set deledu fodd bynnag, gan mai dyna'r unig stafell addas ar gyfer y fath raglenni:

"A dwyf i ddim yn fodlon talu am y cachu rwtsh yma!", oedd ei ddatganiad i'r llys cyn iddo falu copi o'r *TV Times* o flaen yr ynadon syn.

Cafwyd rhagor o weithredoedd hefyd, rhai yn fwy llwyddiannus na'i gilydd. Er enghraifft, ar Chwefror 23, dyma lond fan o fyfyrwyr yn mynd i Lundain, i Bush House a thaflu ffelïau drwy'r ffenestri. Ni ddigwyddodd dim. I ffwrdd a nhw i'r Tŷ Cyffredin, torri ar draws yr eisteddiad a chael eu gyrru oddi yno. Mewn rhwysredigaeth llwyr, cofiwyd am y weithred fawr ym 1970 lle carcharwyd pobl am dri mis am dorri ar draws yr Uchel Lys. Ddaeth yr amser eto? Cafwyd cytundeb unfryd ac i ffwrdd â nhw i'r Uchel Lys a thorri ar draws yr Arglwydd Denning. Daliodd pawb eu gwynt cyn cael gorchymyn i adael, a ddaeth dim o hynny. Adref â'r fan a'r gweithredwyr. Neb wedi ei arestio, dim achos, na charchar — a fawr ddim yn y papurau.

Nid oedd yn hawdd iawn cael gweithredwyr yr adeg honno. Criw bychan iawn oedd yn Aberystwyth, ac roedd gan fyfyrwyr Bangor eu hymgyrch eu hunain i sefydlu Undeb Gymraeg. Hyd yn oed o gael yr un hen wynebau i weithredu, doedd dim gyrrwr na thrafnidiaeth yn aml. Bodio i Fanceinion ar Fawrth 4ydd, 1977 a wnaeth pedwar o weithredwyr. Aethant i orsaf ddarlledu Winter Hill a diffodd swits i atal darlledu Saesneg. Dirwywyd Siôn Aled, Angharad Tomos a Glenn Phillips £30 a rhoi dedfryd o chwe mis o garchar gohiriedig am ddwy flynedd. Ond rhoddwyd dedfryd arbennig o lym i Teresa Pierce gan ei charcharu'n syth am chwe mis.

Yn rhifyn Ebrill o *Tafod y Ddraig* mae darlun pert iawn o'r Swyddfa Gymreig wedi ei addurno ag amryfal slogannau yn galw am Sianel Gymraeg. Ar Fawrth 18, ymddangosodd 52 o aelodau'r Gymdeithas yn Llys Ynadon Caerdydd. Tri neu bedwar a beintiodd y slogannau, ond rhaid fod yr heddlu wedi penderfynu arestio pawb oedd yn bresennol yn y rali. Ni wnaethant yr un camgymeriad eto.

Annan

Wedi Adroddiad Siberry, sefydlwyd, diddymwyd ac ailsefydlwyd y Pwyllgor ar Ddyfodol Darlledu dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Annan. Fel y gwyddai Pwyllgor Crawford, rhan o waith Pwyllgor Annan oedd trafod dyfodol y bedwaredd sianel ym Mhrydain oll. Ond er i Crawford ddweud y dylid cyflwyno'r bedwaredd sianel yng Nghymru "heb aros am benderfyniad parthed y bedwaredd sianel yng ngweddill Prydain", pan gyhoeddwyd Annan ym Mawrth 1977, doedd dim penderfyniad wedi'i gymryd gan y llywodraeth yn fwy na'r un o "dderbyn mewn egwyddor".

Argymhelliad Annan oedd y dylid gosod y bedwaredd sianel ym Mhrydain yn nwylo Awdurdod Darlledu Agored, corff newydd sbon a allai arloesi a chyfoethogi'r gyfundrefn ddarlledu. Yng Nghymru, er y byddai'r sianel dan reolaeth yr Awdurdod Darlledu Agored, dywed y pwyllgor y dylid rhoi blaenoriaeth i raglenni Cymraeg. Ond bellach, nid 'Sianel Gymraeg' a drafodir, ond ychydig o raglenni Cymraeg ymysg rhaglenni'r Brifysgol Agored ac ati. Yn fwy gwirion na hynny, mae Pwyllgor Annan yn dadlau na ddylid sefydlu Awdurdod Darlledu Cenedlaethol yng Nghymru, ond y dylid yn hytrach osod y 'Sianel Gymraeg' yn nwylo'r Awdurdod Darlledu Agored a gadael popeth arall fel ag y mae.

Yn ôl golygyddol *Tafod y Ddraig*, Ebrill 1977, roedd hyn yn gynllwyn bwriadol:

"Ond erbyn hyn, y mae'n hollol glir mai polisi bwriadol y cyfryngau newyddion yng Nghymru yw ceisio cymryd arnynt nad oes y fath beth â galw am gyfundrefn ddarlledu gyflawn. 'Yr Ymgyrch am Sianel Gymraeg' sy'n cael y sylw, a'r unig sylw, er fod datganiadau'r Gymdeithas wedi gwneud yn glir dros y misoedd diwethaf hyn mai rhan yn unig o'r ymgyrch yw'r galw am sianel."

Yn y ddogfen *Teledu Cymru i Bobl Cymru* (1977) ceir y feirniadaeth hon ar Annan:

"Pam y mae'r argymhellion ar gyfer Cymru mor arwynebol ac annigonol? Mae'r ateb, i'n tyb ni, yn deillio o gwestiwn sy'n ymwneud â nod yr Adroddiad. Roedd gan y pwyllgor y nod canmoladwy o wella ansawdd darlledu. Ond, yn anffodus, roedd hynny yn nod a fodolai ar un lefel yn unig — sef y lefel Brydeinig. Ystyrir Cymru fel atodiad yn unig, ac yng nghyd-destun darlledu yng Nghymru, ymddengys mai nod yr Adroddiad oedd dod o hyd i ddull o gadw darlledu Cymraeg a Chymreig o fewn rhigolau'r peirianwaith Prydeinig — dull o gadw pawb yn lled hapus heb adael i hynny amharu ar y peiriant mawr monolithig."

Beth oedd ymateb Cymdeithas yr Iaith yn awr? Dyma'r trydydd adroddiad gan

y llywodraeth heb sôn am ddyddiad sefydlu Sianel Gymraeg na sôn am Awdurdod Darlledu Annibynnol.

“Ni fydd y llywodraeth hon, nac unrhyw un a ddaw ar ei hôl, yn breuddwydio am sefydlu, o’i gwirfodd, gyfundrefn ddarlledu gyflawn a chyfiawn i Gymru... Felly RHAID TARO, A THARO ETO. Ein gobaith yw y bydd y pwysau cyfansoddiadol ar yr awdurdodau darlledu a’r llywodraeth yn cynyddu yn sgil adroddiad Annan. Na foed i neb ddiystyru y math yma o rym — hebddo, mae gweithredu torcyfraith yn colli hanner ei effeithiolrwydd. Ond bydded hysbys hefyd i’r awdurdodau na fydd unrhyw lesteirio ar bolisi’r Gymdeithas o weithredu’n uniongyrchol hyd nes y cyrhaeddir y nod. Ac mae’r nod yn glir. Awdurdod Darlledu Annibynnol i Gymru, yn anad dim. Dyma’r unig fath o gorff a all weinyddu’n gyflawn gyfundrefn ddarlledu unigryw Gymreig, a fydd yn cynnwys sianel deledu Gymraeg ei hiaith, sianel deledu Saesneg ei hiaith a Chymreig ei hagwedd, a’r un ddarpariaeth ar gyfer radio. Dyna’r man cychwyn — ni fyddwn yn bodloni ar lai.” (Golygyddol *Tafod*, 1977)

Manylodd y Gymdeithas ar y galw hwn ar ffurf dogfen — *Teledu Cymru i Bobl Cymru*.

Er y bygythio, prin fu’r gweithredu. Gwrthwynebu’r Jiwbilî a chyfarfod â Chyngor yr Iaith gymrodd sylw aelodau yn Haf 1977. Cynhaliwyd cyfarfod byr ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam i gychwyn ymgyrch i gynyddu’r oriau o raglenni teledu i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed, a rhagwelwyd perygl y gallai’r bodloni ar galw hyn esgusodi’r llywodraeth rhag sefydlu sianel Gymraeg gyflawn.

Yna, fe gyrhaeddodd gwŷs yn gorchymyn Dafydd Wynfford James (Cadeirydd, Cymdeithas yr Iaith) a Gruffudd Rhodri Williams (arweinydd y grŵp cyfryngau torfol) i ymddangos yn Llys Ynadon Aberystwyth ar Hydref 6ed ar gyhuddiad o gynllwynio i ddifrodi eiddo’r awdurdodau darlledu rhwng Ionawr y cyntaf a’r diwrnod olaf o Fawrth 1977 gan gyfeirio’n fwyaf arbennig at y difrod ym Mlaenplwyf.

Nid oedd y gwŷs yn ormod o syndod ond dyma’r agwedd a gymerodd y Gymdeithas:

“Dim ond y ddau yma (Wynfford a Rhodri) fydd yn ymddangos o flaen llys, a hyn er i’r holl Senedd gymryd y cyfrifoldeb am weithred Blaenplwyf. Mewn cyfnod pan fo llawer o’n haelodau yn y carchar a dau o’n swyddogion mewn perygl difrifol o gollu’r rhyddid, dyma’r amser fwy nag erioed pan ddylem glosio at ein gilydd a sefyll yn gadarn yn erbyn pob dim y gall y Cyfarwyddwr Erlyniadau daflu atom. Yr arwydd amlycaf o’n grym fydd neuadd lawn yn y Cyfarfod Cyffredinol.”

Dyma osod y llwyfan yn syth ar y cychwyn felly, Yr Heddlu yn erbyn Cymdeithas yr Iaith, yr anghyfiawnder o erlyn dau yn unig; gwendid y cyhuddiad gwleidyddol o ‘gynllwyn’.

Nid oedd dim yn arbennig o newydd yn y cynnig darlledu yn y Cyfarfod Cyffredinol ym 1977. Nododd y Cyfarfod na weithredwyd yr un gair o gynnig 1976 gan yr awdurdodau darlledu a’r llywodraeth. Galwyd drachefn am:

- Sefydlu Awdurdod Darlledu Cymreig

- Sefydlu cyfundrefn hyfforddi effeithiol
- Sefydlu Sianel Deledu Gymraeg
- Cadw peth Cymraeg ar yr holl sianeli eraill
- Ehangu'r derbyniad ar donfedd UHF a ddefnyddir i ddarlledu Radio Cymru.

Cyfarwyddwyd Senedd y Gymdeithas, drachefn, i drefnu a gweithredu ymgyrch o weithredu uniongyrchol yn erbyn y llywodraeth a'r awdurdodau darlledu a allai gynnwys difrod cyfyngedig i eiddo'r cyrff hynny.

Wythnos wedi'r Cyfarfod Cyffredinol (pryd yr anerchwyd gan Emyr Humphreys ar fater darlledu) roedd pum aelod ar ben mast Crystal Palace yn Llundain unwaith eto — Tim Webb, Heledd Gruffydd, Iolo Llywelyn, Bedwyr ap Dafydd ac Arwyn Sambrook. Cawsant ymrwymiad i gadw'r heddych am flwyddyn.

Bythefnos wedi'r Cyfarfod Cyffredinol roedd wyth aelod o'r Senedd wedi meddiannu mast Nebo gan achosi £400 o ddifrod i'r drws. Derbyniodd Emyr Tomos, Aled Eirug, David Timothy, Helen Greenwood, Tim Webb, Cen Llwyd, Ifan Roberts a Meirion Pennar £10 o ddirwy yr un a £40 o gostau gan ynadon Caernarfon.



Pan aeth Rhodri Williams (a oedd bellach yn Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith) i Lundain ddiwedd y mis, fe'i gwaharddwyd rhag cyfarfod â swyddogion BBC Cymru a Chyngor Darlledu Cymru. Ond fe welai arwyddocâd yn natganiad Brynmor John yn y Senedd:

"Discussions in a Working Party comprising Government officials and representatives of the Broadcasting Authorities on detailed plans for the development of a Welsh Language Service capable of implementation as money becomes available are well advanced. The plans will cover the construction of transmitters as well as other aspects such as the provision of additional staff and studios. We will make a further statement as soon as possible."

Yr oedd ymladdwr arall ar faes y gad bellach — HTV, a geisiai sicrhau mai'r Awdurdod Darlledu Annibynnol a gai'r Sianel.

"It would also be the best solution for Wales (rhoi'r bedwaredd sianel i'r IBA). The alternative solution rising out of the Crawford Committee would mean confining Welsh exclusively to a single channel of its own with damaging consequences for the language while at the same time depriving the English-speaking Welsh of a service which at some state would be available to the whole of the rest of the UK. I cannot think that this result would promote social harmony in the Principality." — Arglwydd Harlech.

A oedd e'n meddwl y byddai gwrthod Sianel Gymraeg yn 'produce social harmony'? Ond mae'r defnydd o'r ymadrodd hwn ynddo'i hun yn ddifyr, gan mai dyma'r ymadrodd a ddefnyddiai lladmeryddion y Sianel. Hynny yw brwydr wleidyddol ydoedd ar hyd y ffordd. Ni ddadleuwyd yn gymaint beth fyddai'r ateb gorau yn nhermau teledu; y cwestiwn mawr oedd beth fyddai'r ateb gwleidyddol gorau i dawelu'r dyfroedd? Brwydr seicolegol fawr Cymdeithas yr Iaith oedd cyfleu'r argraff y byddai peidio neilltuo'r Gymraeg i'r bedwaredd sianel yn creu andros o gythrwfl gwleidyddol yng Nghymru. A gwir yw dweud mai ar sail hyn yr enillwyd y sianel yn y pen draw.

Disgwyliai'r Gymdeithas yn awr am ddatganiad gan y llywodraeth:

"Y datganiad nesaf yma mae'n siŵr fydd y datganiad mwyaf tyngedfennol ym maes darlledu Cymraeg... Bydd hwn naill ai yn rhoi cychwyn ar y gwaith neu cawn glywed nad ydym yn mynd i gael sianel Gymraeg — ddim yn awr nac yn y dyfodol ychwaith. Mae tynged yr iaith Gymraeg ar y teledu yn y fantol yn ystod y misoedd nesaf, os nad ydy'r holl waith a'r holl ymgyrchu yn mynd i fynd yn ofer, rhaid gweithredu yn awr. Rhaid sicrhau na fydd y sianel Gymraeg yn llithro o'n dwylo unwaith ac am byth. Mae rhywfaint o amser ar ôl ac mae modd inni ennill y frwydr — sicrhewch eich bod chi yn gwneud rhywbeth i sicrhau mai ennill fydd hi. Ofer fydd cael cydymdeimlad gwag pan fydd hi yn rhy hwyr." — Rhodri Williams.

Ar y 18ed o Dachwedd aeth unarddeg aelod o Gymdeithas yr Iaith i dorri ar awyrgylch hamddenol Tŷ'r Cyffredin. Taflwyd 385 o awyrennau papur ar ben yr aelodau seneddol — yr un faint o awyrennau MRCA a fwriadau'r llywodraeth dalu amdanynt. Byddai £12 miliwn, sef cost cynnal un o'r rhain, yn ddigon i sefydlu a rhedeg sianel Gymraeg am flwyddyn. Yr aelodau oedd Tim Webb, Eryl Fychan,

Bedwyr ap Dafydd, Anwen Williams, Siwsann George, Heledd Griffiths, Siôn Aled, Heulwen Roberts, Nia Tomos, Mererid Ifans a Iolo Llywelyn.

Dwysaodd y gweithredu. Yn ystod pythefnos gwyliau'r Nadolig, amharwyd ar ddeg trosglwyddydd gan ddiffodd rhaglenni am gyfnod cyn hired â deuddeg awr weithiau. Amharwyd ar ddau fast yn Aberhonddu, un yn y Fenni, eraill yn Llandrindod, Y Bala, Maentwrog, Rhaeadr ac Aberdâr; yna yn Lloegr — Bryste, a Birchvale, Manceinion. Llwyddwyd i ddiffodd 20,000 o setiau ym Mryste tra diffoddwyd 50,000 o setiau yn Aberdâr. Cafwyd prif benawdau'r *Western Daily Press*, papur Bryste ("The paper that fights for the West")! — "It's another warning to the Government", "Welsh Black-out TV — West sets off for 12 hours".

Datganodd Maer Rhuddlan ei fod yn "fed up to the back teeth by the constant disruption to television programmes". Gorfu i fwy nag un godi'r mater yn y Senedd yn galw ar y llywodraeth "to take increased safety precautions" yn y mannau hyn, ond eu hymateb hwy oedd y byddai angen byddin i gadw llygaid ar y trosglwyddyddion i gyd. Tra cwynai gwerin gwlad eu bod yn colli *Nicholas & Alexandra*, rhoddodd Cymdeithas yr Iaith rybudd i'r llywodraeth y byddai'n parhau â'r ymgyrch hon nes cael addewid pendant fod y bedwaredd sianel yn cael ei rhoi i'r Gymraeg.

Yn dilyn y cyfarfod ar faes Eisteddfod Wrecsam yn galw am gynyddu'r oriau o raglenni teledu plant aeth dirprwyaeth yn cynnwys Tom Ellis, Geraint Howells a Dafydd Elis Thomas i weld yr Ysgrifennydd Cartref, y BBC yng Nghymru a Phwyllgor Cymreig yr Awdurdod Darlledu Annibynnol. Yna, ym mis Rhagfyr 1977, trefnwyd cynhadledd 'Raglenni i'n Plant' yn Aberystwyth. Cafwyd peth gwahaniaeth barn ar lawr y gynhadledd gyda Chymdeithas yr Iaith yn dadlau nad oedd modd cyfyngu'r mater i raglenni plant yn unig a pheidio sôn am arafwch y llywodraeth ynglŷn â'r bedwaredd sianel. Pleidleisio yn erbyn unrhyw feirniadaeth o'r fath wnaeth Owen Edwards, Aled Vaughan, Alun Talfan Davies, BBC, HTV a gweddill y sefydliad gan beri i welliant y beirniadu syrthio. Cytunwyd fodd bynnag i anfon at Merlyn Rees i ofyn i'r llywodraeth ddarparu swm sylweddol a digonol o gyllid yn ddioed i alluogi i awdurdodau darlledu yng Nghymru i gynyddu nifer y rhaglenni teledu ar gyfer plant a phobl ifanc fel cam cyntaf at sefydlu gwasanaeth Cymraeg cyflawn ar y bedwaredd sianel. Roedd cais am gychwyn symudiad i gyfarfod unwaith yn rhagor i ystyried sefydlu pwyllgor parhaol i gymryd golwg ehangach ar ddarlledu yng Nghymru.

Yr Achos (Blaenplwyf)

Ar Fawrth 22, 1978 gwrandawyd ar apêl Wynfford James a Rhodri Williams ar Ynadon Aberystwyth i wrthod delio â'r achos ac apêl y cyfreithiwr, Michael Jones ar iddynt osod mechnïaeth o bunt yn unig ar y ddau ddiffynnydd. Gwrthod wnaeth yr ynadon gan draddodi Wynfford a Rhodri i sefyll eu prawf gerbron Llys y Goron a hynny ar fechnïaeth o £50.

Adeg yr achos traddodi, un cyhuddiad yn unig oedd yn erbyn y ddau, sef eu bod wedi “cyd-gynllwynio efo’i gilydd ac efo personau eraill anhysbys i achosi difrod troseddol i sefydliadau teledu ac yn arbennig ym Mlaenplwyf, Dyfed.” Erbyn Ionawr 1978 roedd yr achos yn nwylo Adran yr Erlynydd Cyhoeddus a phanddaeth y papurau yn ymwneud â’r achos a thystiolaeth bellach gan HTV i law, gwelwyd fod y cyhuddiad wedi newid. Bellach roedd dau gyhuddiad:

- Eu bod wedi cynllwynio i achosi difrod troseddol i sefydliad teledu ym Mlaenplwyf, ac
- Eu bod wedi cynllwynio i achosi difrod troseddol i sefydliadau teledu.

Felly, dyblu’r drosedd pe caed y ddau yn euog er mai’r un un oedd y cyhuddiad! Erbyn Ionawr hefyd daeth trawsysgrifau cyfweliadau Rhodri gydag Emlyn Lewis, HTV, a chyfweliad HTV gyda’r Prif Arolygydd Lawrence. Er nad oedd unrhyw reidrwydd cyfreithiol ar HTV i gyflwyno’u tystiolaeth i’r heddlu, rhyddhawyd y cyfan gan yr adran newyddion yn ddiwrthwynebiad, yn gwbl groes i arfer newyddiadurwyr.

Yn y cyfweliad teledu wedi’r weithred, dywedodd y Prif Arolygydd Lawrence:

“We are continuing our enquiries; a blanket acceptance of responsibility may have been given, it is our job to find out who in fact were the intruders.”

Ond ymhen dim roedd yr heddlu ar drywydd gwahanol. Nid cosbi’r sawl a ddifrododd Blaenplwyf yw nod yr achos hwn, ond yn hytrach ceisio amharu ar weithgarwch Cymdeithas yr Iaith. Fel y dywedodd y cyfreithiwr, Michael Jones, “Mae arnynt ofn dod â 30 o bobl ifanc ddysgedig o flaen Llys y Goron, byddai hynny yn achosi gormod o stŵr, yn rhy beryglus yn wleidyddol, felly rhaid oedd dewis gan obeithio y byddai modd eu cosbi heb gynhyrfu’r dyfroedd.” (Taflen yr Achos Gynllwynio, 1978). Roedd Cymdeithas yr Iaith yn gwneud yr elw gwleidyddol mwyaf posibl o’r ffaith hon i fagu teimlad o gadernid ymysg yr aelodau ac i gasglu’r gefnogaeth gryfaf i’r ddau.

“Mae’r achos yn gyfystyr â dod a chyhuddiad yn erbyn pob aelod o Gymdeithas yr Iaith. Mae’r achos yn her agored i bawb ohonom. Fel yn Abertawe a’r Wyddgrug ym 1971 amcan yr achos hwn oedd lladd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Ein cyfrifoldeb ni, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau mai methu a wnânt!”

Roedd codi ysbryd aelodau’r Gymdeithas yn ffactor bwysig gan fod y cyhuddiad wedi ei daflu yn eu herbyn ers tair neu bedair blynedd “fod Cymdeithas yr Iaith wedi chwythu ei phlwc”. Roedd achos cynllwynio yn codi statws gwleidyddol y Gymdeithas ac yn adfer peth o’i chredadwyaeth. Roedd achos cynllwynio Blaenplwyf yr un mor bwysig i sicrhau parhad Cymdeithas yr Iaith fel mudiad ag yr oedd i gynnal yr ymgyrch ddarlledu. Rhan o hyn oedd y ‘Datganiad Cadernid’:

“Datganaf fod bwriad gwleidyddol tu ôl i’r cyhuddiad o gynllwyn a ddygwyd yn erbyn dau swyddog o Gymdeithas yr Iaith, gyda’r amcan o geisio tanseilio gweithgarwch y Gymdeithas. Datganaf eu bod yn sefyll drosom ni yn y llys ac, fel arwydd o gefnogaeth iddynt, ac er mwyn gwrthweithio bwriad y llywodraeth, datganaf ymhellach y byddaf—mewn ymateb i’r achos—yn rhoi cyfran helaeth o’r hamser yn ystod y misoedd nesaf i weithgarwch gyda Chymdeithas yr Iaith

mewn meysydd a ddynodaf dros y ddalen. Fel hyn gallwn sicrhau fod yr achos yn sbarduno gweithgarwch ledled Cymru dros yr iaith.”

Cafwyd dyddiad yr achos gynllwynio — Gorffennaf 10ed, 1978 yn Llys y Goron, Caerfyrddin, ac ar gyfer yr achos, gosodwyd cyfarpar cyfieithu ar y pryd yn y llys.

Y Sadwrn cyn yr achos oedd y Rali Fawr — i bwysu ar y llywodraeth i weithredu’i haddewidion ym maes darlledu. Y siaradwyr oedd Wynfford James, Dafydd Iwan, Tom Ellis AS, a Dafydd Elis Thomas AS. Arwyddodd dros 50 o bobl amlwg yng Nghymru alwad ar bobl Cymru i ddod i’r rali i bwysu ar y llywodraeth “i ddal ar eu cyfle olaf (ar ddiwedd y tymor seneddol hwn) i weithredu’i haddewidion ym myd darlledu yng Nghymru.”

Gweddol oedd y presenoldeb yn y rali o’i gymharu â thorfeydd achos cynllwynio Abertawe, ond roeddem bellach mewn cyfnod newydd, cyfnod llai torfol o lawer. Yn ystod y rali, cyflwynwyd offer o drosglwyddydd Blaenplwyf ac er y bu bygwth dwyn achos yn erbyn Meg Dafydd, ni ddaeth dim o hynny. Yn y rali a’r achos hwn hefyd gwelwyd y llatheenni o faner “Awdurdod Darlledu Annibynnol yn Awr!”



Dafydd Iwan yn areithio y tu allan i lys Caerfyrddin

Ond os mai dim ond paragraff am y rali a gafwyd yn y *Western Mail*, cafwyd hen ddigon o sylw yn y wasg ar fore cyntaf yr achos wrth i syniad y Gymdeithas i ddenu sylw daro deuddeg. Ar fore cyntaf yr achos cynllwynio, dim ond Wynfford James oedd yn y doc. Cyflwynwyd llythyr i’r barnwr gan 66 o bobl amlwg yng Nghymru yn dweud eu bod yn cadw Rhodri Williams rhag bod yn bresennol yn y llys, ac nid am resymau o’i ddewis ei hun. Cydiodd y stori yn nychymyg y wasg. “Herwgipto” oedd penawdau bras tudalen flaen *Y Cymro*, “Welsh Rebels stop leader going to court”, “Cymdeithas Chairman prevented from attending his trial”, meddai’r *Western Mail*, “66 Kidnap Welsh Language Chief — Witness held

as hostage”, meddai'r *Daily Post* cyn mynd mlaen i adrodd, “The hunt was on last night for Welsh Language Society Chairman, Rhodri Williams after a courtroom sensation in which 66 people in Wales claimed responsibility for preventing him from turning up at his trial in Carmarthen yesterday.”

Gosododd hyn y cyweirnod am yr wythnos a llwyddodd y Gymdeithas i sicrhau fod rhywbeth yn digwydd yn ddyddiol — bu'r adran 'Efrydiau Allanol i'r Llys' yn brys iawn!

Erbyn dydd Mawrth, roedd Rhodri Williams wedi ei ryddhau o ddwylo'r herwgipwyr a chychwynnodd yr achos wrth i Wynfford James ddal mai achos cwbl wleidyddol oedd hwn. Syfrdanwyd pawb yn ystod y dydd wrth i bump aelod o'r Gymdeithas guro ffenestri'r llys o'r balconi gan weiddi “Sianel Gymraeg yn Awr”.

Bu cynnwrf ddydd Iau pan gyflwynodd HTV eu tystiolaeth yn erbyn y ddau ddiffynnydd. Wrth i Gwilym Owen ddod i'r bocs tystion, trodd y ddau ddiffynnydd eu cefnau a cherddodd 40 o gefnogwyr o'r oriel gyhoeddus.

Erbyn diwedd yr wythnos, roedd Douglas Davies, cyn-reolwr banc o Lanybydder wedi ei garcharu am wrthod codi ei drwydded deledu. Aeth ei wraig i'r Swyddfa Gymreig i gyflwyno llythyr o brotest i John Morris.

Erbyn diwedd yr achos, roedd protestwyr wedi cadwyno eu hunain i feinciau'r llys, wedi defnyddio peiriannau chwerthin ac wedi dyfeisio pob ffordd o ddringo i ben adeilad y llys. “Forget all out-of-courts incidents” oedd y cyfarwyddyd i'r rheithgor ar ddiwedd yr achos.

Meddai Rhodri Williams yn ei anerchiad i'r llys, i'r Gymdeithas gael cyngor tro ar ôl tro:

“Arhoswch am Adroddiad Crawford — ac fe arhosom. Arhoswch am Adroddiad Siberry — arhosom. Arhoswch am Adroddiad Annan — arhosom. Arhoswch am Adroddiad y Gweithgor a sefydlwyd wedi hynny — arhosom. Arhoswch am y Papur Gwyn — arhosom. Arhoswch am y Sianel Gymraeg — ac rydym yn dal i aros!”, ac roedd hyn yn crynhoi brwydr y Sianel. “Justice too long delayed is justice denied,” dyfynnodd. “Nid brwydr am ein hawliau yn unig yr ydym, ond brwydro yn erbyn amser am yr hawliau hynny, cyn iddynt fod yn ddiystyr.” Byrdwn ei araith oedd beirniadu'r cefnogwyr hyd-braich oedd gan Gymdeithas yr Iaith yng Nghymru — “y rhai sy'n well ganddynt heddwch negyddol di-densiwn na heddwch cadarnhaol cyfiawn”.

“Ai ni sydd yn bradychu democratiaeth neu ai democratiaeth sydd yn ein bradychu ni?” oedd cwestiwn Wynfford James i'r llys.

Ar ddydd Llun, Gorffennaf 15ed, chweched dydd yr achos, roedd pawb yn dal eu gwynt yn aros am benderfyniad y rheithgor. Roedd tri datganiad gwahanol yn barod ar gyfer y wasg: datganiad pe caent eu rhyddhau yn ddiamod; datganiad pe caent eu carcharu'n syth; ac o gofio gwers Abertawe yn '71 — datganiad yn barod ar gyfer carchariad gohiriedig. Ond ar y dyddiad hwnnw, nid oedd yr un datganiad yn addas wedi dwy awr o drafod, dychwelodd y rheithgor am y trydydd tro i ddweud na allent gytuno, ac nid oeddent yn credu y deuent i gytundeb chwaith.

Tipyn o syndod oedd hyn i bawb, a diwedd glo cynhyrfus i achos oedd wedi

bod yn llawn cynnwrf. Dehonglwyd y canlyniad yn syth gan y Gymdeithas a'i chefnogwyr fel 'buddugoliaeth' ac yn annorffod, tynnwyd cymhariaeth rhwng penderfyniad rheithgor Caerfyrddin a rheithgor Caernarfon yn achos yr Ysgol Fomio. Cartŵn Tegwyn Jones oedd yr un poblogaidd ar y pryd: sgwrs rhwng dau o swyddogion yr erlyniad, "Wyt ti'n meddwl y byddai'n syniad da i ollwng y ddau yn rhydd a dod ag achos o gynllwyn yn erbyn y rheithgor?" Ystyriwyd y penderfyniad, nid yn unig yn feirniadaeth ar yr erlyniad, ond hefyd ar y cyhuddiad o gynllwyn.


Applause as Cymdeithas-case jury fail to reach verdicts

... failed to
... jury

**DPP MUST NOW DECIDE WHETHER OR
NOT LEADERS WILL BE RETRIED**

"Name (21) the society chair-
The Parade, Whitechurch
Jury (21) of Pen-
dual, were jointly
"springing together"
"no more"

tive was to be
alive



Papur Gwyn

Ar Orffennaf 26, 1978 cyhoeddwyd Papur Gwyn y llywodraeth Lafur ac am y tro cyntaf cafwyd gobaith am ddyddiad.

“It is splendid news that the Government is now able to carry out its commitment to finance a Welsh language service on the Fourth Channel...

“The target date for the service is autumn 1982 when we can confidently look forward to a service of about 20 hours per week. This will mean an increase of about 75% in the hours at present broadcast in the Welsh language.

“It accepts that the success of the new Welsh language service will depend on their (BBC and HTV) continued co-operation, and it is for that reason that the Government proposes that, in Wales, the Welsh language services will be managed by a new body, the Welsh Language Television Council, chaired by a member of the OBA and on which the existing Broadcasting Organisation would also be represented.”

Crynodeb o galennig y Papur Gwyn:

1. Gwasanaeth newydd Cymraeg ar y bedwaredd sianel erbyn Hydref 1982.
2. Cadarnhau fod y gwasanaeth ar gael ar gyfer cymaint â 90% o'r gwylywyr posibl.
3. Sefydlu Cyngor Teledu'r Iaith Gymraeg fel corff cenedlaethol Cymreig i ofalu am y bedwaredd sianel yng Nghymru yn enw'r Awdurdod Darlledu Agored (OBA).
4. 20 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg.
5. Ymrwymiad niwlog i gyfrannu'n ariannol at gostau'r Sianel Gymraeg.

Digon beirniadol oedd ymateb Cymdeithas yr Iaith i Bapur Gwyn y llywodraeth. Gweithgor Littler oedd tu ôl i'r Papur Gwyn ac fe'i sefydlwyd “to consider how progress might be made with the project for a fourth television channel in Wales ... so that, once money is available, an immediate start could be made with it.”

O ystyried y gohirio fu ynglŷn ag adroddiad Siberry, byddai rhywun yn disgwyl cyfnod llai. Roedd Littler yn dal i sôn am flwyddyn rhwng y penderfyniad cyntaf a darllediad cyntaf y Bedwaredd Sianel.

Er i'r llywodraeth yn wreiddiol addo cario baich ariannol y gwasanaeth arfaethedig yr oedd yn ymddangos bellach ei bod yn ceisio rhoi'r baich ar ysgwyddau'r awdurdodau darlledu. Hefyd roedd amcangyfrif y gost wedi lleihau gryn dipyn.

Yn ôl Siberry, ar gyfer 25 awr oedd swm yr arian cychwynnol. Bellach, roedd Littler wedi lleihau'r swm cychwynnol i 20 awr.

Galwodd Cymdeithas yr Iaith:

1. Ar y llywodraeth i gadw at egwyddor adroddiadau Crawford a Siberry a datgan eu hymroddiad i ariannu'r gwasanaeth a addawyd yn llawn.
 2. Ar y llywodraeth i ddatgan mai swm yr oriau cychwynnol fyddai 25 awr, ac i'r awdurdodau darlledu gynhyrchu rhaglen ddatblygu.
 3. Ar yr awdurdodau darlledu i gyhoeddi adroddiadau pob chwe mis ar eu gwaith.
 4. Ar y cyhoedd i barhau i wrthod talu trwyddedau teledu.
 5. Ail ddatgan penderfyniad y Cyfarfod Cyffredinol i weithredu'n dorcyfraith yn erbyn y llywodraeth Lafur a'r awdurdodau darlledu.
 6. Byddai cyfarfod ar faes yr Eisteddfod i drafod ymateb pobl i'r Papur Gwyn.
- Dyddiad yr ail achos cynllwynio oedd Tachwedd 20ed yn Llys y Goron, Caerfyrddin

ac unwaith eto, cychwynnodd y gwaith paratoi mawr. Parhawyd i gyhoeddi bwletinâu cyson, a bu cyfarfod rhwng Dafydd Elis Thomas a'r Ysgrifennydd Cartref, Merlyn Rees i drafod y polisi darlledu.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol yn Hydref, 1978 roedd mwy nag un cynnig ar ddarlledu.

1. Undeb Darlledwyr

Cynnig yn galw am sefydlu undeb annibynnol o ddarlledwyr Cymraeg.

2. Teledu Masnachol yng Nghymru

Galw ar yr Awdurdod Darlledu Annibynnol i ailystyried y cwestiwn o greu Cwmni Teledu Cenedlaethol Cymreig pan fyddent yn adolygu ffiniau'r cwmnïau rhanbarthol, ac yn hytrach creu cwmni o'r fath yn unig ym 1981 pan ddeuai'r cytundeb presennol i ben.

3. Y Papur Gwyn

Datgan fod yr ymgyrch ddarlledu i barhau: "Yn ogystal â'n gofynion gwreiddiol, gelwir cyfarfod buan am amodau teg i'r Sianel Gymraeg, h.y. cyllid digonol; lleiafswm o 25 awr; sefydlu Awdurdod Darlledu Cymreig; fod y sianel ar gael i bawb; a chyfundrefn hyfforddi. Disgwyliwn i araith nesaf y Frenhines gynnwys y pwyntiau uchod."

4. Cyngor Teledu Cymraeg

Nodi bwriad y llywodraeth i sefydlu Bwrdd Teledu Cymraeg a nodi gobaith y Gymdeithas y byddai hwn yn datblygu yn Awdurdod Darlledu Cymreig fyddai gyda chynrychiolwyr y BBC a theledu masnachol arno, ond nid cynrychiolwyr yr IBA neu'r OBA; cynrychiolwyr o awdurdodau sirol, a chadeirydd annibynnol. Pwyswyd am ail enwi'r bwrdd yn Gyngor Teledu Cymreig i cael awdurdod dros y rhaglenni Saesneg a ddarlledwyd o Gymru ac i gael cyfrifoldeb dros bolisi cyffredinol darlledu yng Nghymru.

Roedd y pwyslais bellach ar 'AMODAU TEG I'R SIANEL' gyda disgwyl am ddatganiad yn araith nesaf y Frenhines.

Gwnaed trefniadau manwl gogyfer ag Achos Cynllwynio 2 i sicrhau yr elw mwyaf posibl o'r weithred hon a ddigwyddodd ymron i ddwy flynedd ynghynt. Cafwyd cyfres o gyfarfodydd ledled Cymru yn canfasio cefnogaeth gogyfer â'r achos ac yn dangos ffilm fideo o'r ymgyrch ddarlledu a'r achos cynllwynio cyntaf. Ar gyfer wythnos yr achos ei hun, roedd adloniant wedi ei drefnu ar gyfer pob noson o'r wythnos.

Wedi i bosteri gael eu gosod ar y llys y noson cynt, cafwyd rali ar fore cynta'r achos gyda 300 o bobl yn bresennol. Y ffræ fawr ynglŷn â'r achos hwn oedd fod y rheithgor wedi eu dewis yn ofalus ymlaen llaw gan yr heddlu, a thorrodd y rhai oedd yn yr oriel gyhoeddus ar draws y llys i leisio eu protest cyn cael eu taflu allan. Dafydd Elis Thomas aeth ar ôl y mater hwn, ac roedd yn amlwg o edrych ar gyfenwau aelodau'r rheithgor fod yna dipyn o chwynu wedi bod. Roedd barnwr arall wedi ei ddewis i'r achos hwn hefyd — Y Barnwr Morgan Hughes a roddodd ddedfryd o chwech mis o garchar yr un i bedwar aelod o'r Gymdeithas dair

mlynedd ynghynt, ac a fu'n ymweld â llysoedd yng Ngogledd Iwerddon gan farnu achosion gwleidyddol yno.

Dydd Mawrth gwelwyd blychau chwerthin ac awyrennau papur yn y llys. Roedd gwahaniaeth barn yn y Gymdeithas ynglŷn ag ymddygiad fel hyn, rhai yn dadlau pwysigrwydd ymddwyn yn urddasol mewn achos llys, eraill yn dweud mai ffars llwyr oedd yr achos prun bynnag a waeth gwneud sbort glân ohono. Cadwyd Sion Aled ac Eryl Fychan yn y ddalfa am arwain y brotest, a pheintiwyd slogannau ar adeilad y llys y noson honno pan arestiwyd lolo Llywelyn, Cai Larsen a Dafydd Rhys am achosi'r difrod. Erbyn diwedd Mercher roedd aelodau'n cael eu rhwystro rhag mynd i'r llys yn gyfangwbl. Yn wyneb hyn aeth y cefnogwyr ymlaen â'u protest y tu allan i'r llys gan losgi copi enfawr o'r cyhuddiad. Llwyddodd ambell un i fynd i'r llys a chadwyno eu hunain yn yr oriel. Cadwyd Sian Gwenllian, Arfon Jones, Russell Cennydd a Cris Jones yn y ddalfa. Dangoswyd pa mor isel roedd yr heddlu yn barod i fynd pan roddwyd cais ganddynt bnawn Mercher ar i'r llys wrthod mechnïaeth i'r ddau ddiffynydd. Defnyddiwyd hysbyseb o'r *Cymro* fel tystiolaeth gan geisio honni fod nosweithiau hwyrol yn yr *Half Way* yn achlysuron lle cynlluniwyd gwrthdystiadau'r llys a hefyd bod arian yn cael ei gasglu yno i brynu offer i weithgarwch y Gymdeithas. Ofnent hefyd gan fod yr achos dros yr erlyniad wedi dod i ben y diwrnod hwnnw, na fyddai'r ddau ddiffynydd yn bresennol y diwrnod canlynol. Ni ddaethpwyd ag achos cynllwynio yn erbyn mynychwyr yr *Half Way* a ni chaniatawyd cais yr heddlu i gadw'r diffynyddion yn y ddalfa. Sicrhawyd fod yna ddiogelwch mawr yn y Swyddfa Gymreig yr wythnos honno gyda phob drws ond un ar glo a phobl yn cael eu harchwilio. Yn anffodus, doedd gan Gymdeithas yr Iaith ddim diddordeb yn y Swyddfa Gymreig yr wythnos honno gan ei bod yn brysur yn amharu ar wasanaeth darlledu dros ardaloedd eang yng Nghymru drwy ddiffodd trosglwyddyddion allweddol. Fore Gwener meddiannodd aelodau Lys Ynadon Aberystwyth, lle bu yr achos traddodi cyntaf. Yng Nghaerfyrddin torrwyd ar draws y llys gyda sŵn byddarol seiren 'Y Ceiliog' a chymrwyd Sion Aled i'r ddalfa. Cadwynodd Dafydd ap Hywel a Dewi Lake eu hunain i'r balconi ac fe'u cadwyd hwythau yn y ddalfa. Arestiwyd Eryl Fychan eto am eu cynorthwyo. Cyn diwedd y dydd dedfrydwyd Arfon Jones i wythnos o garchar, a chanfu Sion Aled, Eryl Fychan, Dafydd ap Hywel, Dewi Lake a Meirion Pennar eu hunain yng ngharchar am fis. Rhoddwyd tri diwrnod o garchar i Russel Cennydd, Cris Jones a Sian Gwenllian a gorchymyn i gadw'r heddwch am flwyddyn neu £100 o ddirwy. Yn hwyr ddydd Gwener, Tachwedd 24, dedfrydwyd Rhodri Williams a Wynfford James i chwe mis o garchar. Wrth i'r fan gludo'r ddau ddiffynydd a'r aelodau eraill i garchar, rhuthrodd cefnogwyr i greu rhwystr yn y strydoedd a cheisio rhwystro'r fan rhag croesi pont Caerfyrddin. Nos Wener, llwyddodd aelodau i fynd i mewn i fast Machynlleth a chymryd llawer o'r dogfennau.

Cwestiwn y *Tafod* y mis hwnnw oedd: "Os yw 12 o bobl yn methu cytuno ar ôl deng niwrnod a ydynt yn euog, sut gall 12 person arall gytuno ar yr un dystiolaeth a hynny dim ond ar ôl pum niwrnod yn unig?"

Mae'r ateb yng nghyfenwau aelodau'r rheithgor — Andrews, Carlisle, Pringle,

Hanson, Allen, Hinner, Birdwood, Adams, John, Day, Kirkwood a Brooks; nid aelodau tîm bowls Sutton Coldfield, ond trigolion 'Cymreig' Sir Gâr.

Mewn llythyr gan y Swyddfa Gartref dyddiedig 29 Tachwedd 1978, dywedir wrth Gymdeithas yr Iaith fod y trafodaethau yn cychwyn a bod y Swyddfa Gartref wedi gofyn i'r IBA a'r BBC am eu sylwadau ar y cynigion yn y Papur Gwyn, mewn cysylltiad â chynllun y Bedwaredd Sianel, a'r cynigion dros dro i ddarparu rhagor o raglenni Cymraeg i blant ar y gwasanaethau presennol. Ddechrau Rhagfyr roedd y Gymdeithas yn gohebu â HTV, BBC a Merlyn Rees i ofyn faint o arian roeddent yn amcanu y byddai ei angen i sefydlu gwasanaeth o 20 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg a rhedeg y fath wasanaeth am flwyddyn ac hefyd sefydlu gwasanaeth o 25 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg a rhedeg y fath wasanaeth am flwyddyn.

Drannoeth carcharu Wynfford a Rhodri a'r aelodau eraill, cafwyd 'Rali'r Amodau' yng Nghaerfyrddin lle daeth 350 o gefnogwyr i Sgwâr Caerfyrddin i wrando ar Dr Tudur Jones, Ffred Ffransis, Hywel Teifi Edwards a Dafydd Elis Thomas. Ddechrau'r rali, cafwyd y newydd fod pedwar aelod: Heledd Mai, Lyn Thomas, Mick Anthony a Gavin Roberts wedi dringo mast Blaenplwyf.

Yn y rali dywedodd Dafydd Elis Thomas fel yr oedd Sam Silkin wedi gosod gorchymyn ynglŷn â dewis rheithwyr mewn achosion gwleidyddol. Er fod Brynmor John wedi gofyn i Dafydd Elis Thomas ddefnyddio ei ddylanwad ar y Gymdeithas i beidio gweithredu, barn Dafydd Elis Thomas oedd "fedrwyd chi byth ofyn i bobl fyhafio ei hun ac yna gwrthod eu hawliau iddynt ar yr un pryd."

Dywedodd Dr Tudur Jones fod Rhodri a Wynfford wedi cael eu cosbi am gynllwynio i amddiffyn un o'n trysorau pennaf—yr iaith Gymraeg. Ac onid rhyfedd mai arwyr un gyfres boblogaidd ar y teledu yw'r *Secret Army* sy'n byw o raglen i raglen ar gynllwynio?

Ond araith Ffred Ffransis a greodd yr argraff fwyaf y diwrnod hwnnw. Wedi i bobl fynd adref y diwrnod hwnnw, byddai Rhodri a Wynfford yn mynd i'w celloedd. Pan fyddai pobl yn codi y bore wedyn, byddai Rhodri a Wynfford yndal yn eu celloedd. Yr wythnos ganlynol, byddent yn dal yn y carchar. Fore Nadolig, byddent yn y carchar. Ddydd Gŵyl Dewi, byddent yn dal dan glo. A'r unig waredigaeth i'n cydwybod fyddai i bawb ohonom ddedfrydu ein hunain i chwe mis o waith caled ac ymarferol er mwyn yr iaith. Cyhoeddodd y byddai rali fawr tu allan i garchar Abertawe ar Fawrth 23ain, 1979 i groesawu Wynfford a Rhodri. Ond, pwysleisiodd: oni bai fod gan aelodau adroddiad ffafriol am eu gweithgarwch yn ystod y misoedd oedd wedi bod, nid oedd ond un neges: "cadwch draw os nad ydych chi ddiffri."

Yn Llys Ynadon Bryste ar Dachwedd 29, ymddangosodd Rhodri Smith a Gwyn Tudur ar gyhuddiad o beri £12 o ddifrod a bod ym meddiant eiddo i achosi difrod. Dangoswyd rhagfarn wleidyddol y dydd wrth roi £400 o ddirwy yr un i'r ddau weithredwr.

Bu Nadolig 1978 yn gyfnod prysur i'r Gymdeithas. Ddydd Gwener, Rhagfyr 22ain, croesawyd carcharorion yr achos cynllwynio o garchardai Caerdydd ac Abertawe. Y bore hwnnw, roedd pum aelod—Goronwy Fellows, Ffred Ffransis, Angharad Tomos, Arwyn Sambrook ac Arfon Jones yn cychwyn o fast Blaenplwyf

i garchar Abertawe yn cario'r 'Pum Amod'. Rhoi sylw i'r Amodau Teg oedd bwriad y daith. Y 'Pum Amod' oedd:

1. Amserlen fanwl a phendant ar gyfer sefydlu a rhedeg y Sianel.
2. Digon o arian i sicrhau fod y Sianel yn llwyddiant.
3. Trefniadau i hyfforddi technegwyr ac actorion.
4. O leiaf 25 awr o raglenni Cymraeg ar y Sianel wrth iddi ddechrau, a hynny'n cynyddu'n sylweddol ar ôl y flwyddyn gyntaf.
5. Awdurdod Darlledu Annibynol i Gymru i reoli a rhedeg y Sianel.

I gydfynd â'r daith, roedd ympryd yn cael ei chynnal dros y Nadolig yn Nhŷ John Penri, Abertawe rhwng Rhagfyr 23 a Rhagfyr 26, gyda Gwasanaeth Carolau tu allan i'r carchar nos Sul cyn yr ŵyl.

Blwyddyn Newydd Dda weithredol oedd byrdwn Wayne Williams, y cadeirydd cysgodol i Gymdeithas yr Iaith yn ei neges broffwydol ddechrau 1979 — blwyddyn dywyll iawn yn hanes Cymru.

"Dyma o bosibl y cyfnod mwyaf cynhyrfus a herfeiddiol yn hanes y Gymdeithas. Ar ôl cyhoeddi'r Papur ar Ddarlledu ar ddiwedd yr haf, mae perygl i lawer o bobl yng Nghymru i gredu fod yr ymgyrch wedi ei hennill a bod y Sianel Gymraeg ar y ffordd. Nid dyma'r gwirionedd! Nid yw'r Papur Gwyn yn gwneud dim amgenach na sôn yn niwlog am ryw nod terfynol yn Hydref 1982. Nid yw'n sôn am fanylion o unrhyw fath. Nid yw'r IBA a'r BBC wedi cyd-gyfarfod i drafod manylion rhedeg y sianel gan fod yr IBA yn dal i obeithio am Etholiad Cyffredinol, a'r posibilïad o'r Ceidwadwyr yn ei hennill. Byddai hynny'n golygu fod y Sianel Gymraeg yn cael ei anghofio a'r Sianel yn cael ei rhoi fel IBA 2.

"Nid yw'r sefyllfa hon yn dderbyniol o gwbl ac felly fe fydd y Gymdeithas yn cychwyn ar ymgyrch o weithredu uniongyrchol yn erbyn y llywodraeth a'r awdurdodau darlledu am gyfnod amhenodol."

Rhybuddiodd Aled Eirug, arweinydd y grŵp cyfryngau torfol ar y pryd yn y *Tafod*: "yn sicr, fe ddeddfir er mwyn i'r IBA adeiladu trosglwyddyddion yng Nghymru erbyn 1982, ac yn sicr mae arian i'w ddarparu ar gyfer rhaglenni plant; eto nid yw'n golygu dyfodiad y Sianel Gymraeg. Er mwyn ennill, rhaid sicrhau deddfwriaeth a fydd yn rhyddhau'r Bedwaredd Sianel i Gymru; rhaid cyflwyno deddf gerbron y Senedd yn dweud hynny. Nid yw'r bwriad presennol i ddeddfu ar fater y trosglwyddyddion yn ddigon i Gymdeithas yr Iaith".

Ionawr 27, 1979, carcharwyd Twm Elias, Cen Llwyd ac Enfys Llwyd ar fater gwrthod talu'r drwydded deledu. Ar Chwefror 7ed, ymddangosodd Cai Larsen, Mick Anthony a Dafydd Rhys ar gyhuddiad o beintio slogan ar lys Caerfyrddin yn ystod yr Achos Cynllwynio.

Ionawr 16, picedwyd canolfan y BBC ym Mangor ac yn stiwdios HTV yng Nghaerdydd.

Ar Ionawr 12, bu aelodau'r Gymdeithas yn ffonio Merlyn Rees (Ysgrifennydd Cartref), Yr Arglwydd Boston (Pennaeth yr Adran Ddarlledu) a Mr AO Carter (Prif Swyddog yr Adran Ddarlledu).

Cyn i Rhodri a Wynfford gael eu rhyddhau o garchar Abertawe ar Fawrth

24ain, buasai ymgais gan aelodau'r Gymdeithas i ailadrodd gweithred Blaenplwyf, ond y tro hwn ar fast Midhurst yn nyfnder Surrey. Roedd Hywel Pennar a dau weithredwr arall i fod i gyflawni'r weithred, ond Senedd Cymdeithas yr Iaith oedd yn bwriadu derbyn y cyfrifoldeb. Llogwyd car i gludo'r gweithredwyr ond yn anffodus fe'u stopiwyd gan heddwes ychydig cyn cyrraedd y mast a gofynnodd am weld dogfennau'r gyrrwr, sef Hywel. Wedi i'r heddwes fynd, aeth Hywel at giosg a ffonio nôl i Aberystwyth i'w hysbysu am yr hyn a ddigwyddodd ac i awgrymu y dylid gohirio'r weithred. Ond gan i'r Gymdeithas fuddsoddi tipyn o amser ac arian yn cynllunio'r cyrch ar fast Midhurst, cytunodd Hywel ac un o'r ddau arall i barhau a'r bwriad gwreiddiol. Aethant at y mast, ei ddiffodd, a difrodi llawer o'r offer, hyd at werth rhyw £15,000 yn ôl y cyhuddiad. Yn anffodus, pan glywodd yr heddwes â'u stopiodd y noson cynt am y cyrch hwn, fe gofiodd am y Cymry 'od' a welsai ar y ffordd, ac ni bu'r heddlu'n hir cyn holi Hywel ynglŷn â'r weithred.

Fe'i arestiwyd a'i ddwyn i swyddfa'r heddlu yn Aberystwyth, oddi yno i Gaerfyrddin ac yna lawr i Chichester lle y'i cadwyd am ddeuddydd. Cymerodd yr heddlu rai o'i ddillad er mwyn gwneud archwiliadau fforensig arnynt ac fe'i rhyddhawyd yn Chichester, ar un o ddyddiau oera'r mis Mawrth hwnnw, heb got ac heb ddimai goch yn ei boced. Arestiwyd Siôn Aled, Eryl Fychan, Wayne Williams a Mari Morgan (Swyddogion y Gymdeithas) yn Aberystwyth a'u rhoi ar fechniaeth heddlu i ymddangos yn swyddfa'r heddlu, Chichester ar Fai 16. Ond, penderfynodd yr erlyniad ar y dyddiad hwnnw mai dim ond Hywel ac Eryl oedd i gael eu cyhuddo — unwaith eto CYNLLWYN!

Ni ddaeth yr achos i Lys y Goron tan fis Hydref 1980, ac fe'i symudwyd i Gaerdydd ar gais Elystan Morgan, a oedd yn amddiffyn Eryl, er mwyn manteisio ar yr offer cyfieithu. Ar ôl dros wythnos, dyfarnwyd Hywel yn euog a chafodd ddedfryd o 9 mis o garchar. Methodd y rheithgor â chytuno yn achos Eryl a bu'n rhaid cael ail brawf. Tra disgwyliai Eryl, ymwelodd yr heddlu â Hywel yn y carchar i geisio'i berswadio i roi mwy o wybodaeth iddynt am Eryl, gan led-awgrymu y gallent drefnu fod Hywel yn colli ei 3 mis o rimisiwn pe na chydweithredai â hwynt. Ond, yn y diwedd, taflwyd yr achos yn erbyn Eryl o'r llys.

Ond, yn ôl at 1979 — blwyddyn drychinebus i Gymru. Ar Fawrth 1af bu'r bleidlais anenwog yn y Refferendwm a fu'n gymaint o ergyd i'r mudiad cenedlaethol i gyd gan daflu cwmwl du o besmistiaeth dros y cyfan. Wedyn, wrth gwrs, cafwyd yr etholiad cyffredinol a buddugoliaeth Mrs Thatcher — ergyd arall. Ceisiodd y mudiad cenedlaethol ymwroli a chynghreirio gydag elfennau gwrth-Doriaidd eraill yng Nghymru, a trefnodd y Gymdeithas rali yn Aberystwyth ar Fai 19 yn dwyn y teitl 'Heriwn y Toriaid'.

Ond, isel iawn oedd ysbryd y mudiad cenedlaethol yr haf hwnnw, a phawb yn disgwyl ymosodiad gan y llywodraeth newydd ar fframwaith economaidd a chymdeithasol bywyd Cymru. Er hynny, o leiaf, roedd sicrwydd am un peth — sef bod Sianel Gymraeg i ddod o'r diwedd. Ymrwymodd pob plaid yn eu manifesto etholiadol i'r egwyddor o Sianel Deledu Gymraeg, gan gynnwys y Toriaid.

Ar waethaf eu cynllun i roi'r bedwaredd sianel i deledu masnachol, roeddynt

yn dal yn ffyddiog mai dyma'r ffordd gyflymaf a rhataf i ddarparu Sianel Gymraeg. Cafwyd cadarnhad yn araith y Frenhines wrth agor y tymor seneddol wedi'r etholiad fod sianel deledu Gymraeg i ddod. Roedd hwn felly'n friwsionyn o gysur i Gymru wedi'r refferendwm a'r etholiad cyffredinol. O fewn tri mis, yr oedd y briwsionyn hwn, yntau, wedi'i gipio i ffwrdd.

9. Torri Addewid/Brad

Medi 14eg, 1979 — gwnaeth yr Ysgrifennydd Cartref, William Whitelaw, gyhoeddiad mewn cinio bach digon di-nod yng Nghaergrawnt, o bob man — bod y llywodraeth am gefni ar ei haddewid i sefydlu Sianel Gymraeg. Cyhoeddodd ymhellach fod y rhaglenni Cymraeg bellach i'w rhannu rhwng y bedwaredd sianel, a fyddai o dan arolygaeth yr Awdurdod Darlledu Annibynnol, ac un o sianeli'r BBC (daeth yn amlwg wedyn mai BBC 2 oedd honno i fod). Dyma oedd gwireddu ofnau gwaethaf pawb, sef gwthio'r Gymraeg i sianeli lleiafrifol lle na fyddai unrhyw sicrwydd am oriau brig na gwasanaeth cyflawn. Ceisiodd Whitelaw gyfiawnhau ei benderfyniad trwy ddweud: "skilful scheduling of Welsh language programmes in the respective services would offer the prospect of maximum advantage to Welsh speaking viewers, while ensuring that at any time non-Welsh speaking viewers can find English language programmes on three channels." Ychwanegodd fod bwriad i gynyddu'r oriau, a manteisiodd trwy chwarae ar y ffaith nad oedd unrhyw fath o undod yng Nghymru dros Sianel Gymraeg erbyn hyn.


Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, mewn araith yn Hwlffordd, gwnaed y gwir resymau yn gliriach gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Nicholas Edwards, wrth iddo gydnabod ei fod wedi newid ei feddwl ynglŷn â'r sianel. Rhoddodd ddau reswm cychwynol, sef yr ofnau y byddai'r "initial consensus" oedd o blaid y sianel yn cael ei golli unwaith y byddai pobl Cymru'n sylweddoli eu bod yn colli rhaglenni Channel 4 a oedd ar gael yn Lloegr (doedd neb o'r gwrthwynebwyr hyn yn ddigon treiddgar i ddeall y gellid ail ddarlledu'r rhaglenni hyn ar amserau gwahanol!); fel ail reswm, chwaraeodd yntau ar yr ychydig o Gymry Cymraeg oedd wedi chwarae i mewn i ddwylo'r llywodraeth drwy wrthwynebu'r sianel. Ar ôl crybwyll y ddau ffactor yma, fe ddaeth at y gwir reswm: "My third reason for favouring the new proposal is financial, because the Welsh speaking population provides too small a base to sustain a successful commercial service of its own." Mewn geiriau erall ni fyddai Sianel Gymraeg yn broffidiol iawn i ffrindiau'r llywodraeth, sef y cwmnïau masnachol oedd yn rheoli teledu annibynnol.

Croesawyd datganiad Whitelaw, wrth gwrs, gan HTV, a dywedodd Owen Edwards ar ran BBC Cymru fod y BBC yn siomedig, gan mai Sianel Gymraeg oedd yr unig ffordd realistig i chwyddo nifer y rhaglenni Cymraeg gan sicrhau ar yr un pryd nad oedd y Cymry di-Gymraeg yn gwylltio. Roedd Paul Flynn, cadeirydd gweithredol Cyngor Darlledu Cymru yn dipyn fwy pendant ei ymateb; soniai yn y *Western Mail* fel petai'n rhoi cefnogaeth lwyr i ymgyrch Cymdeithas yr Iaith: "We are furious about this decision, we have argued for many years that a quiet and restrained approach would eventually met with a constructive response from the government. We have been proved wrong."

Ymateb Plaid Cymru oedd y byddai miloedd o'i haelodau yn gwrthod talu'r dreth deledu, a chyhoeddodd Dafydd Elis Thomas y diwrnod hwnnw ei fod am

wrthod talu. Dywedodd Ysgrifennydd y Blaid Lafur yng Nghymru wrth y *Western Mail*: "This decision was made by the Tories caving in to the pressure exerted by their financial supporters in commercial television". Mae'n werth i ni ddilyn y trywydd yma, oherwydd cafodd y ffordd ei baratoi'n ofalus ar gyfer datganiad Whitelaw gan rai carfannau arbennig yng Nghymru. Nid oedd y datganiad ei hun yn hollol annisgwyl pan ddaeth. Yn bennaf, roedd HTV wedi bod yn paratoi'r ffordd; ond mae tystiolaeth gref fod nifer o unigolion eraill y tu fewn i'r sefydliad Cymraeg wedi cydweithio gyda'r teledu masnachol a'r Torïaid i geisio newid y farn gyhoeddus yng Nghymru. Ac yn sicr, yn ystod y misoedd yn dilyn y cyhoeddiad roedd yr undod a'r penderfyniad yng Nghymru o blaid y sianel yn dechrau gwegian. Fel yng nghanol y saithdegau, daeth cyfnod arall o ansicrwydd a siom — mwy o ymrannu yng Nghymru a llawer yn dipyn llai pendant eu barn — a'r llywodraeth yn hapus braf yn gallu manteisio ar hyn i gyfiawnhau ei safbwynt a datgan nad oedd undod bellach yng Nghymru o blaid Sianel Gymraeg.

Sut y daeth y newid yma mor sydyn ar ôl yr addewidion? Cofiw'n fod y Blaid Doriaddd ddiwedd y gwanwyn 1979 wedi addo'r sianel yn ei manifesto etholiadol i raglenni Cymraeg, a bod Nicholas Edwards wedi cadarnhau hynny ym mis Mai 1979. Wedyn, ym mis Mehefin fe'i cynhwyswyd yn araith y Frenhines. Symudodd



Mynnwn fod Llundain yn cadw'i gair



buddiannau carfannol masnachol teledu annibynnol a'u cynghreiriau yn gyflym i geisio newid y sefyllfa. Ar y trydydd o Orffennaf 1979 rhyddhawyd datganiad gan HTV Cymru, yn cychwyn gyda'r frawddeg syfrdanol: "Dylai rhaglenni Cymraeg gael eu darlledu ar ddwy sianel yn hytrach nag un." Datganiad moel oedd yn ceisio nofio'n erbyn y llif yng Nghymru, gan wadu mai am resymau masnachol yn unig y cymerwyd y penderfyniad hwn. Ac nid datganiad bach o obaith gan HTV oedd hwn ond taro ergyd gyhoeddus gyntaf mewn ymgyrch a oedd wedi'i threfnu'n fanwl y tu ôl i'r llenni.

Yn rhifyn Tachwedd o *Tafod y Ddraig* mae Cen Llwyd yn ceisio mynd at wraidd y mater. Mae'n cyfeirio at gylchlythyr a gylchredwyd yn eang gan gadeirydd HTV Cymru Syr Alun Talfan Davies; cylchlythyr at liaws o Gymry amlwg i geisio chwalu'r consensws o blaid sianel Gymraeg. Yr awgrym oedd ei fod yn defnyddio ei safle ar Lys yr Eisteddfod Genedlaethol i gylchlythyru aelodau'r Llys, sef i gyrraedd at lawer o'r sefydliad Cymraeg. Honnodd Cen, hefyd, bod eraill o blith unigolion allweddol a phwysig yn HTV wedi ymgyrchu o ddifri, e.e. bod unigolion megis Aled Vaughan wedi mynd yn bersonol i weld golygyddion *Y Faner* a'r *Cymro*, ac yn dilyn hyn, wrth gwrs, ceisiodd Mrs Jennie Eirian Davies trwy golofnau golygyddol *Y Faner* arwain y Gymry ar gyfeiliorn. Mor drist yw'r gymhariaeth rhwng traddodiad radicalaidd *Y Faner* a'r arweiniad cadarn a roddwyd yn *Barn* o dan Alwyn D Rees, gyda'r defnydd a wnaed o'r *Faner* yn y cyfnod hwn — i geisio cael y sefydliad Cymraeg i dderbyn cynllun y Torïaid ac HTV. Unigolyn arall yn y sefydliad Cymraeg, a weithiodd yn ddyfal dros yr iaith, ond a drodd yn erbyn y Sianel yn awr oedd Llyfrgellydd Dyfed, Alun R Edwards. (Mae'n berthnasol hefyd ei fod ef yn aelod o bwyllgor ymgynghorol yr IBA ar y pryd). Felly, roedd yma seiliau ymgyrch gyhoeddus ac ymgyrch gyfrinachol i geisio argyhoeddi pobl Cymru nad oedd angen Sianel Gymraeg, neu o leiaf i hau hadau ansicrwydd ac ymrannu fel y gallai'r Torïaid ddweud yn onest nad oedd unrhyw undod yng Nghymru.

Roedd ymateb Cymdeithas yr Iaith i ymddygiad HTV yn ystod haf 1979 yn chwyrn, gan fod y cwmni'n amlwg yn ceisio tanseilio'r cyfan a enillwyd mewn ymgyrch galed a drud dros ddeng mlynedd. Cyhoeddwyd poster yn dychanu HTV yn tynnu'r rhaff ar un ochr a phawb arall ar yr ochr arall — gan holi pwy fyddai gryfaf. Ar y pryd roedd trafodaethau ynghylch dyfodol 'franchise' HTV; a chwmni arall, cwmni Hafren yn cystadlu yn eu herbyn am yr hawl i ddarlledu yng Nghymru a Gorllewin Lloegr. A bu llawer yn y Gymdeithas, ac o blith cenedlaetholwyr eraill yn ceisio ymgyrchu yn erbyn rhoi'r cytundeb i HTV Mae gohebiaeth doreithiog ar y pynciau hyn rhwng Dafydd Elis Thomas a Ron Wordsley, cyfarwyddwr HTV; a gohebiaeth a chofnodion cyfarfodydd lawer rhwng Aled Eirug, cadeirydd grŵp cyfryngau torfol y Gymdeithas ag unigolion y tu fewn i HTV fel Aled Vaughan a David Meredith. Portreadwyd HTV fel y prif fradwr, ac fel arwydd o'r teimladau cryf ceisiodd Cymdeithas yr Iaith drefnu boycott ar HTV gan adlonianwyr; a chytunodd nifer o ddarlledwyr amlwg fel Dr Meredydd Evans, a oedd newydd gael ei ethol ar Senedd y Gymdeithas, i ymuno yn y boycott.

Bu gweithred yn erbyn HTV yn dilyn datganiad Whitelaw, pan aeth nifer o

aelodau'r Gymdeithas i mewn i swyddfa'r cwmni yn Baker Street, Llundain i beri anhwylostod gweinyddol trwy rwygo dogfennau ac anhrefnu ffeiliau. Dyma ran o ddatganiad y Gymdeithas yn dilyn y weithred:

“Yr oedd cynrychiolwyr Cwmni Teledu Harlech wedi datgan o blaid sefydlu Sianel Gymraeg ar y bedwaredd sianel deledu cyn i'r Blaid Geidwadol ennill yr etholiad cyffredinol. Wedi gweld bod y bedwaredd sianel i fod o dan reolaeth yr Awdurdod Darlledu Annibynnol, gwelodd gwneuthurwyr polisi'r cwmni gyfle i gael eu rhaglenni hwy ar y sianel, ac yn naturiol, cyfle i wneud mwy byth o elw. Yn sydyn newidiasant eu barn, a chreu rhyw stori am ‘amgylchiadau wedi newid’ a datgan y farn nad oedd cynlluniau sefydlu Sianel Gymraeg yn ymarferol, ac yn wir, y byddai'r fath symudiad yn niweidiol i'r iaith Gymraeg.” Ac ar ddiwedd y datganiad ceir her:


“Mae'n rhaid i'r Blaid Geidwadol a'r darlledwyr ddeall na fedrant fradychu pobl Cymru a'r iaith Gymraeg yn gwbl sinicaidd, er mwyn elw ariannol. Mae'n rhaid i barhad yr iaith Gymraeg, hawliau siaradwyr Cymraeg, ewyllys y bobl a chyfiawnder sylfaenol gael eu hystyried cyn cyfrifon banc cyfarwyddwyr cwmni Harlech. Mae'n rhaid newid y penderfyniad, a neilltuo'r bedwaredd sianel ar gyfer rhaglenni Cymraeg.”

Cafwyd ymateb dramatig o natur wahanol i frad HTV yng nghynhadledd genedlaethol Plaid Cymru yn Hydref 1979, pryd y pasiwyd cynnig brys o ran trefn gan Dafydd Iwan i daflu HTV allan o'r gynhadledd. Ond, roedd y cwmni wedi llwyddo yn eu hamcan, roedden nhw wedi paratoi'r ffordd ac yr oedd Cymru ofnus yn hanner disgwyl datganiad Whitelaw pan ddaeth ym mis Medi 1979.

Roedd y cyfnod yma yn anodd iawn i'r Gymdeithas. Yn ystod y misoedd canlynol bu llawer o simsanu. Penderfynodd nifer o awdurdodau lleol Cymru newid eu meddwl, e.e. Cyngor Dosbarth Meirionydd, pwyllgor polisi ac adnoddau Cyngor Sir Dyfed yn Ionawr 1980 (er y newidiwyd hyn nôl eto gan y Cyngor llawn); ac mae cofnodion grŵp cyfryngau torfol y Gymdeithas yn dangos pryder yn ystod y gaeaf hwn ynglŷn â'r simsanu a'r diffyg undod. Aeth y Gymdeithas ati i ail gysylltu a'r holl gyrff ac awdurdodau lleol a fu'n gefnogol, yn eu hannog i ailddatgan eu cefnogaeth yn gyhoeddus ac i ddanfôn at y llywodraeth ac at HTV, gan dderbyn ymateb cadarnhaol gan y mwyafrif. Ond, roedd llawer o unigolion yn dechrau siarad allan, naill ai yn erbyn y cynllun o Sianel Gymraeg, neu, fel yn achos Tom Ellis AS, a fu'n un o sylfaenwyr y Pwyllgor Cenedlaethol ar ddarlledu, yn dadlau y dylem yn awr fod yn ymarferol a derbyn yr anochel (fel y gwnaeth rai blynyddoedd ynghynt gynghori gweithwyr dur Shotton i dderbyn yr anochel), a gwneud y gorau posibl o'r sefyllfa newydd.

Creodd hyn gryn chwerwder y tu fewn i Gymdeithas yr Iaith. Yng Nghyfarfod Cyffredinol 1979 yn ei araith o'r gadair, ymosododd Wayne Williams ar “fradwyr” fel Jennie Eirian a Tom Ellis. Cafwyd areithiau emosïynol gan nifer a fu'n weithredol yn yr ymgyrch ers degawd, e.e. dywedodd Gronw, i gymeradwyaeth ferw, “os oedd hi'n iawn i fynnu Sianel Gymraeg ym 1970 a 1978 mae'n dal yn iawn heddiw — pam y newid meddwl?” Ond, mae cofnodion grŵp cyfryngau torfol y Gymdeithas yn

SIANEL GYMRAEG



Yr Unig Ateb

CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

dangos rhywfaint o simsanu hyd yn oed y tu fewn i'r Gymdeithas ei hun. Roedd yna garfan yn dweud, nid yn gymaint fod angen derbyn y sefyllfa newydd, ond fod yn rhaid paratoi yr aelodaeth a chynllunio strategaeth ar gyfer y sefyllfa yn yr haf canlynol pan fyddai'r ddeddfwriaeth newydd yn cael ei basio, a'r ffordd fel petai wedi cael ei chau, dros dro beth bynnag i sianel deledu Gymraeg. Ffurfiodd y grŵp cyfryngau torfol is-grŵp polisi i ystyried y sefyllfa newydd, ac is-grwpiau eraill yn ymwneud â'r wasg, ffilmiau a.y.b. Y bwriad yn ôl y drefniadaeth newydd, oedd i'r grŵp ei hun gyfarfod ym 1980 ddim ond un waith bob chwarter — nid peirianwaith effeithiol iawn i drefnu unrhyw fath o ymgyrch ddifrifol o weithredu uniongyrchol i bwysu ar y llywodraeth.

Wrth grynhoi digwyddiadau'r ddegawd ar y teledu ar Nos Galan 1979, dywedodd Gwilym Owen ei fod yn siŵr mai'r bobl fwyaf siomedig yng Nghymru y noson honno oedd y rheiny a fu'n ymgyrchu dros sianel deledu Gymraeg drwy'r ddegawd, gan fod eu breuddwydion i gyd wedi chwalu bellach.

Fe geisiodd Cymdeithas yr Iaith wrthymosod. O ran propaganda daeth achos uniongyrchol y bedwaredd sianel yn ôl i ganol y llwyfan gwleidyddol. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyn 1979, pan gredai pawb fod yr egwyddor o Sianel Gymraeg ei hun wedi'i hennill, roedd pwyslais y propaganda ar amodau ffafriol i'r Sianel ac ar y math o awdurdod darlledu cenedlaethol fyddai'i angen iddatblygu gwasanaeth Cymraeg a Chymreig cyflawn. Roedd pamffledi treiddgar gan Emyr Humphreys a Dafydd Elis Thomas wedi cael eu cyhoeddi yn dadansoddi natur y cyfryngau darlledu yng Nghymru. Ond nawr, roedd yn rhaid ailgydio yn yr ymgyrch i geisio gorfodi'r llywodraeth Doriaidd i newid ei meddwl eto, cyn i'r ddeddfwriaeth ddod o flaen y Senedd yn haf 1980. Dewiswyd y slogan amlwg 'Sianel Gymraeg — yr Unig Ateb' a bu'r Gymdeithas yn weithgar iawn ar y ffrynt gyfansoddiadol a phropaganda.

Cyhoeddwyd memorandwm manwl iawn, efallai yr ymdriniaeth fanylaf erioed â'r maes, yn dwyn y teitl "Sianel Gymraeg — yr Unig Ateb", a'i gylchlythyru at bob aelod seneddol trwy Brydain, at holl awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus Cymru, a phawb arall a ymddiddorai yn y mater. A chyhoeddwyd, hefyd, daflen syml ddeniadol yn dwyn yr un teitl i'w rhannu'n helaeth ymhlith y cyhoedd.

Aethpwyd ati i drefnu cyfarfod arall o'r Gynhadledd Genedlaethol ar Ddarlledu yn Aberystwyth ar Hydref 13eg 1979, a chafwyd datganiad gan William Whitelaw ei hun i'r gynhadledd honno. Yn ei ddatganiad, yr oedd yn chwarae eto ac yn ymelwa cymaint â phosib ar yr ymraniad honedig yng Nghymru gan ei ddefnyddio i gyfiawnhau ei benderfyniad i beidio parhau â'r syniad o Sianel Deledu Gymraeg. Fe drefnwyd o'r Gynhadledd yma bod aelodau o'r Gymdeithas a mudiadau eraill yn ceisio cael cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Cartref; cyfarfod a gymerodd le gyda William Whitelaw a Wyn Roberts ym mis Ionawr 1980, pryd yr adroddwyd yr un hen esgusodion a hanesion wrth y ddirprwyaeth hon eto.

Mewn llythyr at Wayne Williams, cadeirydd y Gymdeithas, dywedodd Geraint Morgan AS, yr unig rebel Toriaidd ar fater y Sianel, ei fod wedi anobeithio braidd drïo perswadio ei gyd-aelodau seneddol Toriaidd. Ond, aeth y Gymdeithas ac eraill

ymlaen yn ddygn i geisio ennill y frwydr gyhoedduswydd ac i ddwyn pwysau'r cyhoedduswydd ar y llywodraeth. Trefnwyd cynlluniau pellach ar gyfer misoedd Mai a Mehefin 1980 pryd yr oedd y ddeddfwriaeth i fod i fynd o flaen y Senedd. Erbyn hynny, fel y gwelwn ni yn y bennod nesa, cawsai'r trefniadau hyn hwb newydd annisgwyl.

Roedd gwrthymosodiad y Gymdeithas yn amlwg ar ddwy ffrynt arall. Er fod datganiad Whitelaw a'r digwyddiadau eraill ym 1979 wedi bod yn siom aruthrol i'r Gymdeithas, nid oedd hi wedi disgyn i'r fath gyflwr o iselder â gweddill y mudiad cenedlaethol. Am mai cymdeithas weithredol, yn anad dim, ydoedd, fe allai ymateb yn well ac yn fwy pendant i argyfyngau o'r fath nag y gallai plaid wleidyddol fel Plaid Cymru. Roedd diwedd 1979, felly, ar waetha'r holl ansicrwydd, yn fwy o her i arweinwyr ac aelodau'r Gymdeithas na dim byd arall. Aethpwyd ati i alw ar bobl Cymru i ail (os nad trydydd neu bedwerydd!) wrthod talu'r dreth deledu. Erbyn mis Hydref 1979 roedd cannoedd o gopiau o ffurflen wedi'u dosbarthu trwy Gymru yn galw ar bobl i ddanfôn at y Swyddfa 'Genedlaethol' Gofnodi Trwyddedau Teledu ym Mryste i ddatgan eu bod yn gwrthod talu am eu trwyddedau, a bu ymgyrch yn y wasg ac ymhlith aelodau i bwysu am hyn. Mae'n rhaid dweud i'r ymdrech fod yn un digon anodd. Er i benderfyniad Whitelaw wylltio aelodau'r Gymdeithas a'u profocio tuag at weithredu, ac wedi profocio nifer o Gymry amlwg a fu ynghlwm wrth yr ymgyrch, eto — oherwydd y pum mlynedd o oedi ar ôl ildiad gwreiddiol y llywodraeth, ac oherwydd paratoi gofalus HTV ac, o bosib, y digalondid cyffredinol mewn sawl carfan yn dilyn y refferendwm a'r etholiad — nid oedd pobl Cymru, na hyd yn oed y mudiad cenedlaethol yn 'codi fel un gŵr' o gwbl i wrthryfela yn erbyn y brad hwn. Erbyn diwedd y flwyddyn nid oedd gan y Gymdeithas ond rhyw gant o enwau ar restr y bobl oedd yn gwrthod talu'r dreth deledu. Yn ei lyfr hunangofiannol mae Dafydd Iwan yn cadarnhau mai dyma oedd ymateb Plaid Cymru; roedd e ar y pryd yn gadeirydd gweithgor arbennig a sefydlwyd gan y Blaid i ymgyrchu dros Sianel Gymraeg ochr yn ochr â'r Gymdeithas, ac o ddarllen rhwng y llinellau mae'n amlwg mai digon siomedig oedd yr ymateb yn niwedd 1979. Fe ddywed Gwynfor Evans yn *Bywyd Cymro*: "Hydref 1979 oedd yr awr dduaf a welais erioed."

Roedd hi'n amlwg fod deunydd ymgyrch yno, ond y byddai'n rhaid wrth lawer o waith caled i godi'r stêm — yn nes ymlaen, wrth gwrs, fe gafwyd y gwreichionyn oedd ei angen i gynnu'r fflam yn iawn. Ond, erbyn diwedd 1979, roedd y llywodraeth fel petaent wedi llwyddo i ddod dros y gwaethaf o'r gwrthwynebiad a gallent ddisgwyl ymlaen at gael eu ffordd eu hunain heb lawer o drafferth bellach; ymddangosai ewyllys a phenderfyniad y Gymdeithas a'r Blaid braidd yn fflat, heb y brwdfrydedd a'r ymroddiad angenrheidiol i gario'r maen i'r wal yn yr ymgyrch. Perai hyn rwystredigaeth i nifer o unigolion y tu fewn i'r ddau fudiad. Dyma gefndir y gweithredoedd o gwmpas y Calan ar droad y flwyddyn a'r ddegawd, a arweiniodd at hwb newydd i'r ymgyrch wrthod talu, ac a roddodd, fel y digwyddodd hi, ryw sylfaen i gyhoeddiad Gwynfor a'r datblygiad mawr yn yr ymgyrch ym 1980.

Yn Rhagfyr 1979, daeth nifer o unigolion ynghyd yng Nghaerfyrddin gan

gynnwys Peter Hughes Griffiths a Maldwyn Jones o Blaid Cymru a Ffred Ffrancis o Gymdeithas yr Iaith, yn gwbl answyddogol i drafod sut i roi hwb i'r ymgyrch wrthod talu'r dreth deledu. Penderfynwyd bod angen ychwanegu deimensiwn o ddifrifoldeb at yr ymgyrch a chytunwyd mynd ati i drefnu bod nifer o bobl, ymhob rhan o Gymru yn mynd ar ympryd rhwng y Nadolig a'r Calan, gan annog eu cyd-Gymry i arwyddo datganiad yn addunedu gwrthod talu'r dreth deledu; byddai'r ymprydwy'r yn ymweld â rhestrau o bobl yn eu hardaloedd i geisio eu cywilyddio, os mynner, i arwyddo. Byddai cyfarfodydd cyhoeddus wedyn wrth fastiau teledu ymhob rhan o Gymru, lle byddid yn gwahodd pobl i ddod ymlaen i arwyddo'r datganiad. Un broblem oedd fod ansicrwydd ynglŷn â phwy yn union oedd yn trefnu'r digwyddiadau hyn — h.y. roedd hi'n wybyddus pwy oedd yr unigolion oedd yn trefnu, ond ni ellid defnyddio enw'r Blaid na'r Gymdeithas gan na roddodd y naill fudiad na'r llall sêl eu bendith yn llwyr ar y cynllun. Yn y Gymdeithas, nid adlewyrchiad o ddifaterwch a digalondid cyffredinol oedd hyn — yn wir, fel yr awgrymwyd eisoes, roedd siomedigaeth 1979, yn eironig, wedi rhoi hwb newydd i weithgarwch y Gymdeithas gyda phobl fel Phyl Rosser, Ned Thomas a Meredydd Evans wedi ymuno â'r Senedd. Roedd rhyw ymdeimlad o fod ar drothwy cyfnod newydd gyda brwdfrydedd dros roi sylw i feysydd newydd a thros gysylltu'r frwydr dros yr iaith gyda'r frwydr i ddiogelu sylfeini economaidd Cymru. Oherwydd y cryfder newydd hwn, roedd tuedd i weld parhau'r frwydr dros Sianel Gymraeg yn rhyw fath o fynd yn ôl i gyfnod cynharach, ieithyddol bur i gyfnod oedd wedi methu, ac roedd amharoddrwydd i droi'r cloc yn ôl fel hyn a mynd dros yr un hen dir hyd syrffed.

Fel y trodd hi allan mewn gwirionedd y flwyddyn ganlynol, dyma oedd yr union hwb o ran gwrthdrawiad gyda llywodraeth Llundain, yr union hwb a ddaeth yn agos iawn at uno pob carfan gwrth-lywodraeth yng Nghymru. Ond, ar y cychwyn, roedd ansicrwydd ynglŷn â phriodoldeb ymgyrchu, ac felly bu'n rhaid i unigolion o genedlaetholwyr drefnu'r digwyddiadau yna dros y Calan, gan dderbyn cefnogaeth ymarferol yn unig gan beirianwaith y Blaid a'r Gymdeithas. Mewn llythyrau pellach yn y wasg, defnyddiodd Peter Hughes Griffiths hyd yn oed yr enw "Mudiad y Sianel" a fathodd er mwyn rhoi'r argraff o ryw fath o fudiad y tu ôl i'r ymdrechion. O gwmpas y Calan hwnnw, yn anffodus, bu llifogydd dychrynlyd a rhaid oedd gohirio llawer o'r cynlluniau. Ond, fe aethpwyd ymlaen yn y gogledd, a bu pedwar o aelodau'r Gymdeithas yng Nghlwyd (yn cynnwys dau o weithredwyr Granada gynt) yn ymprydio ar ôl y Nadolig mewn carafan ar waelod y ffordd a arweiniai at orsaf trosglwyddo Moel y Parc, gan ymweld yn eu ceir â channoedd o bobl ledled Clwyd gyda'r un manylder ag y trefnid rhestrau canfasio. Erbyn dydd Calan, cyhoeddwyd mewn cynhadledd i'r Wasg yng nghartre Goronwy Fellows yn y Rhyl, fod 104 o bobl Clwyd wedi arwyddo'r datganiad eu bod yn gwrthod talu, a daeth rhyw gant o bobl ynghyd i rali ar ben mynydd mast Moel y Parc. Roedd llawer o hyn yn ganlyniad gwaith egniol gan Dennis Jones, aelod blaenllaw o'r Blaid yn Llanrhaeadr, Dinbych.

Dangosodd yr ymdrech hon yng Nghlwyd y posibilïadau ar gyfer Cymru. Os

gellid cael dros gant o bobl yng Nghlwyd mewn pedwar diwrnod i wrthod talu'r dreth deledu gellid yn rhwydd cael mil neu ddwy drwy Gymru gyfan mewn cyfnod byr, a byddai hyn yn rhoi hwb newydd i'r ymgyrch. Dyna'r aethpwyd ymlaen i'w drefnu.

Yr un pryd â'r ymryd yng Nghlwyd, roedd criw o aelodau'r Gymdeithas yn ymrydio ym Mangor, ond doedd ganddynt ddim trafndiaeth annibynnol i fynd o gwmpas darpar addunedwyr; ar waethaf hynny casglasant restr cychwynol o bedwar ugain o enwau yng Ngwynedd. Trosglwyddwyd y negeseuon am y datblygiadau hyn dros y ffôn i Peter Hughes Griffiths, ac aeth ef ati, gan ddefnyddio peirianwaith grymus Plaid Cymru yn Sir Gaerfyrddin, i roi'r ymgyrch ar droed yn Nyfed gyda rali lwyddiannus iawn y mis canlynol yn ymyl mast trosglwyddo Carmel. Daeth Caerfyrddin yn brif ganolbwynt i'r ymdrechion i chwyddo'r rhestr o bobl oedd yn barod i wrthod talu'r dreth diolch yn bennaf i ymdrechion Peter Hughes Griffiths, a daethai'r Blaid a'r Gymdeithas erbyn hyn i gefnogi'n gwbl agored. Cynyddodd y rhestr yn gyson, ac erbyn Ebrill/Mai 1980 roedd dros fil ar y rhestr ac, yn bwysicach, roedd llawer yn dechrau dod trwy'r llysoedd ar yr union adeg pan oedd y ddeddfwriaeth i fod i fynd drwy'r Senedd. Roedd hefyd yn sylfaen bwysig i'r ffrwydiad mawr yn yr ymgyrch yn yr haf.

Ond, cyfraniad pwysica, o bosib, Cymdeithas yr Iaith i'r gwrthymateb i ddatganiad Whitelaw oedd ei gweithredoedd uniongychol yn y cyfnod wedi'r datganiad. Mae'n rhaid cofio nad oedd canlyniadau'r ymgyrch gynharach weithredol dros Sianel Gymraeg wedi diflannu, ac yn ystod y mis Medi hwnnw yn 1979 roedd achos traddodi Hywel Pennar ac Eryl Fychan i Lys y Goron, Caerdydd yn dilyn gweithred Midhurst. Ar ôl i Hywel gael ei garcharu, trefnwyd cyfarfod yn Llanbedr-Pont-Steffan o gefnogaeth iddo, a bu hwnnw'n hwb i'r ymgyrch yn ystod y gaeaf. Ym mis Medi fe dorrodd nifer o aelodau'r Gymdeithas ar draws rhaglen Radio Cymru o'r stiwdio ym Mangor i fynegi eu gwrthwynebiad i araith Whitelaw. Bu cyrchoedd i Lundain yn ystod y mis hefyd; soniwyd eisoes am y weithred yn swyddfeydd HTV yn Llundain a bu rhai dwsinau o aelodau yn meddiannu swyddfeydd yr IBA — gweithred a arweiniodd at bythefnos yn Holloway i Helen Greenwood a Glynis Williams am wrthod ymrwymo i gadw'r heddwch.

Ar gyrch arall, bythefnos yn ddiweddarach, perwyd anhwlustod gweinyddol ym mhencadlys y Blaid Geidwadol yn Smiths Square, Llundain, ond ni ddaeth unrhyw gyhuddiad i ddilyn hynny. Bu picedu ar swyddfeydd HTV yng Nghymru a pheintwyd sloganau yn galw am Sianel Gymraeg ar draws adeiladau a chlybiau'r Toriaid trwy Gymru o Lanelli i Gaernarfon.

Eto, mewn ffordd, rhyw 'fynd trwy'r mosiwns' oedd hyn — dyma'r hyn a ddisgwyliid, a gallai'r awdurdodau yn hawdd farchogaeth storm y lefel yma o brotest. Cyfeiriodd Charles Quant yn y *Liverpool Daily Post* at ymateb Mr Nicholas Edwards i'r protestiadau hyn: "The outcry was far less vehement than he expected until Gwynfor Evans' announcement". Ychwanegwyd deimensiwn newydd, serch hynny, ar yr 11eg o Hydref 1979. Am naw o'r gloch y noson honno, aeth tri aelod o'r Gymdeithas i mewn i orsaf trosglwyddo Pencarreg ger Llanybydder, a diffodd y

mast. Dim byd arbennig am hynny — roedd gweithred debyg eisoes wedi digwydd ddwywaith yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yr hyn a'i gwnaeth yn wahanol y tro hwn oedd y tri a gymerodd ran; sef Dr Pennar Davies (Prifathro Coleg Coffa yr Annibynwyr yn Abertawe ar y pryd), Dr Meredydd Evans (Uwch Ddarlithydd yn Adran Efrydiau Allanol, Coleg Prifysgol Cymru Caerdydd a darlledwr enwog a fu'n bennaeth rhaglenni adloniant BBC Cymru), a Ned Thomas (Uwch Ddarlithydd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ac eto'n adnabyddus fel darlledwr a golygydd *Planet*). A gweithredodd y tri hyn fel aelodau o Gymdeithas yr Iaith. Meddai Meredydd Evans yn y Llys: "Dros fisoedd lawer, ymhell cyn na refferendwm na dim arall, cafodd y tri ohonom ein hunain (yn annibynnol ar ein gilydd, i raddau) yn symud, yn anfonlon, i gyfeiriad gweithredu anghyfansoddiadol. Gwyddai aelodau eraill ein teuluoedd am hyn yn iawn a sylweddolem i gyd y gallai canlyniadau gweithredu felly fod yn rhai tra difrifol."

Dr. Meredydd Evans



Ned Thomas



Dr. Pennar Davies



Gweithredwyr 'ifanc', 'addawol' Pencarreg!

Roedd gweithred y tri yn dangos fod deimensiwn newydd i'r ymgyrchu ac i'r mudiad iaith yng Nghymru. Derbynasant neges gan Saunders Lewis ac roedd y gymhariaeth yn amlwg gyda gweithred y tri gŵr parchus (yn ystyr gorau'r gair, sef bod parch cenedl tuag atynt) ym Mhenyberth ym 1936. Cyhoeddwyd llyfryn am weithred Pencarreg a ddaeth yn rhan o gof y mudiad cenedlaethol. Roedd Ned Thomas wedi paratoi ar gyfer arhosiad hir yn yr orsaf drosglwyddo, ac fe aeth â'i gitar gydag ef yn y gobaith y byddai Merêd yn barod i ganu i hwylio'r oriau! Ond,

nid oedd y Dr Meredydd Evans mewn llawer o hwyl i ganu a bu'n rhaid gadael y gitar yn y car a threulio'r amser yn sgwrsio nes i'r heddlu gyrraedd. Roedd yr heddlu yn gwrtais iawn ac yn cael trafferth mawr i benderfynu beth i'w wneud â'r tri drwgweithredwr. Buont am amser hir yn ceisio cysylltu ag Owen Edwards gan mai'r BBC oedd yn gyfrifol am yr orsaf, ond yn methu gan ei fod mewn cinio yn rhywle yn y brifddinas. Cofiai un o'r heddlu am Ned yn beirniadu mewn un o'r eisteddfodau bach lleol lle'r oedd rhyw berthynas i'r hedddwas yn cystadlu! Yn y diwedd fe'u rhyddhawyd heb eu harestio'n ffurfiol ac fe aeth pedwar mis heibio cyn iddynt orfod ymddangos o flaen llys am y tro cyntaf ar Chwefror 1af, 1980 yn Llanymddyfri. Gan nad oeddynt wedi cael eu cyhuddo o ddim cyn hynny, roedd pob hawl ganddynt siarad â'r wasg a gwneud datganiadau ynglŷn â'u gweithred a'r ymgyrch, nes iddynt gael eu cyhuddo yn y diwedd o fwrgheriaeth, difrod troseddol a meddu ar offer er mwyn troseddu. Ac aeth bron chwe mis arall cyn iddynt ymddangos yn Llys y Goron, Caerfyrddin ar Orffennaf 28ain 1980 pryd y cawsant ddirwyon trwm iawn.

Erbyn Gorffennaf, wrth gwrs, roedd yr ymgyrch mewn cyfnod cwbl newydd — cyfnod y cyffro olaf. Wythnos ar ôl eu gweithred ym Mhencarreg, fe gyfarchwyd y tri gweithredwr 'ifanc, addawol' fel arwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith — cyfarfod brwd iawn, a dderbyniodd Phyl Rosser fel siaradwr gwadd. Yn y cyfarfod ei hun, roedd y cynnig, a gynigiwyd gan y senedd, ar fater darlledu, ac a basiwyd yn ddiwrthwynebiad, yn un gofalus iawn. Fe nodwyd yr holl dystiolaeth a'r addewidion dros sianel Gymraeg a mynegwyd gwrthwynebiad y Gymdeithas i'r ffaith fod datganiad Whitelaw yn cefnu ar yr egwyddor honno gan alw'n, ddefodol, ar y llywodraeth i gyflawni ei haddewid; cadarnhawyd, gan ddefnyddio'r geiriau arferol, "penderfyniad y senedd i ddwyn pwysau ar y llywodraeth drwy pob dull posibl (dengys y geiriau awydd y Gymdeithas i gadw'r 'options' yn agored ynglŷn â sut i ymateb), o fewn polisi di-drais y Gymdeithas, gan ymyrryd â gweithgarwch y Blaid Geidwadol, y llywodraeth ganolog a'r Awdurdodau Darlledu, hyd nes y sefydlir gwasanaeth Cymraeg ar y bedwaredd sianel". Cynigiwyd ymhellach fod y Gymdeithas "yn ategu'r alwad ar i bobl Cymru wrthod talu'r dreth deledu." Felly, fe welir yn y cynnig y geiriau biwrocraidaidd arferol — "nodi penderfyniadau", "datgan gwrthwynebiad", "cadarnhau penderfyniad", "ategu'r alwad". Ble'r oedd y ffordd glir ymlaen yn y cynnig i'w ddilyn ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol? Ceir yr awgrym ym mrawddeg ola'r cynnig, sef, "Datgan y Cyfarfod ei fwriad i geisio atal unrhyw ddarlledu arall ar y bedwaredd sianel ac i amharu ar unrhyw wasanaeth masnachol a gaiff ei sefydlu."

Felly, dyma oedd yr hinsawdd wrth fynd i mewn i aeaf 1979. Roedd yr ymateb gweithredol, defodol i ddatganiad Whitelaw wedi bod. Yn bwysicach na hynny roedd gweithred y tri ym Mhencarreg wedi bod, ac ni wyddai neb pryd y deuai'r achos hwnnw i lys. Roedd pawb yn aros i weld pa effaith a gai'r gweithredoedd a'r achosion hyn, a pha effaith a gai'r ymgyrch wrthod talu pan ddeuai mwy a mwy o flaen y llysoedd. Gwyddai pawb, hefyd, y cymerai rai misoedd i'r ddeddfwriaeth ddod o flaen y Senedd, ac y byddai hynny wedyn, yn ffocws ar gyfer ymgyrchu y

gwanwyn canlynol. Ac yr oedd yna benderfyniad a bygythiad i amharu ar unrhyw wasanaeth masnachol newydd a sefydlid ar y bedwaredd sianel — doedd hi ddim yn bosib, wrth gwrs, i amharu ar rywbeth nad oedd eto'n bodoli. Felly, o safbwynt gweithredu uniongyrchol difrifol dyma gyfnod o aros dros y gaeaf 1979/80, a phobl fel Rhodri Williams, Aled Eirug, Tim Webb a Wynfford James yn cyfarfod yn gyson yn y grŵp cyfryngau torfol i drafod a pharatoi cynlluniau ac opsiynau eang; ac Aled yn gwneud llawer o waith pwysu cyfansoddiadol yn y cyfamser.

Roedd y cyfan i newid. Ym mis Ebrill 1980, fe dderbyniodd y grŵp cyfryngau torfol neges ymlaen llaw gan Ffred am fwriad Gwynfor i ymptydio, a chlywsant hefyd fod y ddeddfwriaeth i fod gerbron y Senedd ym mis Mai. Roedd yn ras wyllt yn erbyn amser bellach, ac ymdaflwyd i drefniadau ymgrych weithredol a phwysau cyfansoddiadol ar raddfa eang iawn.

Delays go back nine years

THIS is the countdown to delay on the Fourth Channel:

EARLY 1970s: More than 200 members of Cymdeithas yr Iaith Gymraeg taken to court for refusing to pay their TV licences.

1973: All-Wales conference called by the Lord Mayor of Cardiff urges the Government to give Wales early and special consideration in allocating the Fourth Channel.

1974: Crawford Committee report recommends the Fourth Channel be allocated to Wales as soon as possible as an investment in social harmony.

MARCH 1975: Welsh Language Council says Fourth Channel should be devoted to mainly Welsh programmes but half-an-hour a day should continue to be broadcast on existing channels of HTV and BBC.

NOVEMBER 1975: Siberry Committee says Fourth Channel should be run jointly by HTV and BBC producing 25 hours a week of Welsh-language output at a capital cost of £9m. and running cost of £5-6m. (1975 prices).

FEBRUARY 1976: Government puts Fourth Channel into cold storage "for a year" because of spending cut-backs.

MARCH 1977: Annan Committee report gives top priority to establishing Fourth Channel for the Welsh language in Wales which should precede the establishment of the channel elsewhere.

APRIL 1977: Government rules out the Fourth Channel for another year because of lack of cash.

JULY 1978: Government White Paper sets autumn, 1982 as the target date of launching the Fourth Channel in Wales ahead of the rest of the country to broadcast 21 hours of Welsh programmes a week, under the control of a new Open Broadcasting Authority.

MARCH 1979: Act of Parliament receives royal assent enabling the Independent Broadcasting Authority to undertake engineering work for the Fourth Channel.

MAY 1979: Conservatives win general election with a pledge to establish the Fourth Channel for Welsh programming in Wales but under the control of the Independent Broadcasting Authority and simultaneously with the rest of the country, January, 1983.

JUNE 1979: Secretary of State for Wales, Mr. Nicholas Edwards, says all Welsh language programmes should go on the Fourth Channel.

10. Yr Ympryd/Y Frwydr Derfynol

Ar ddydd Llun, Mai 5ed 1980, cyhoeddodd Gwynfor Evans ei fod yn bwriadu dechrau ar ympryd ar Hydref 6ed y flwyddyn honno onibai fod y llywodraeth yn newid nŵl at ei chynllun gwreiddiol o sefydlu sianel deledu Gymraeg ar y bedwaredd sianel. Roedd y cyhoeddiad yn newyddion syfrdanol — mor syfrdanol o newydd ei natur fel y cymerodd amser i'r gwir arwyddocâd a'r posibiladau trasediaidd dreiddio i ymwybyddiaeth pobl; ac i'r mudiad cenedlaethol, pobl Cymru a'r awdurdodau i ystyried eu hymateb. Yn sicr, roedd y frwydr nerfau ymlaen yn awr.

Beth am ymateb pobl Cymru? Y peth cyntaf i'w ddweud, ac mae hyn yn amlwg yn deyrnged aruthrol i gymeriad Gwynfor, yw nad amheuoedd neb o gwbl ei fod yn hollol o ddifrif, ac yn llawn fwriadu gwneud yn ôl ei ddatganiad. Doedd e ddim yn debyg i'r gwleidyddion a wnai ddatganiadau ffals. Clywodd Dafydd Wigley a Dafydd Elis Thomas ymlaen llaw am y penderfyniad, a nodi'u cydsyniad. Clywodd Ffred Ffrancis ar Ebrill 7ed, y diwrnod y cafodd Hedd Gwynfor, ei fab ei eni, sef degfed ŵyr i Gwynfor; a dywedodd e wrth Ffred fod rheswm arall wedi cael ei eni'r diwrnod hwnnw dros iddo fyw, ond mai cymryd y penderfyniad hwn oedd raid. Holodd am ffeithiau'r ymptydiau yn y gorffennol; ond pa brofiad o werth a allai rhywun a ymptydiodd am wyth niwrnod yn unig ei gynnig i rywun oedd ar gychwyn ar fwriad mor sylweddol?

Ymateb syn oedd yng ngrŵp cyfryngau torfol y Gymdeithas wrth gael rhybudd ymlaen llaw ym mis Ebrill; rhywrai'n dweud; "Neith y llywodraeth byth newid ei meddwl, oes posib rhwystro Gwynfor?" a "chaiff yr ympryd ddim effaith!" a Menna Elfyn yn datgan yn dawel, ond yn gwbl sicr: "Na, os bydd e'n gorfod ymptydio, fe gaiff effaith aruthrol drwy'r genedl i gyd". Bu pawb yn dawel am funud, ac yna fe ddwedodd rhywun: "Reit, gwell i ni ddechrau ar y gwaith 'te o baratoi ar gyfer ymgyrch fwyaf difrifol ein bywyd — gwell dechrau rhoi trefn ar yr ymchwil i gyd i mewn i adeiladau'r llywodraeth, yr awdurdodau darlledu, yr holl sustem drosglwyddo a phopeth arall. Mae ymgyrch ein bywydau o'n blaen ni."

Fe sylwodd *Barn* mewn erthygl olygyddol (roedd dyddiau'r cylchgrawn fel cefnogwr cryf i Gymdeithas yr Iaith wedi gorffen gyda marwolaeth Alwyn D Rees) — mai un mudiad yn unig, sef y Gymdeithas, a roddodd "digon o raff i Gwynfor i'w grogi ei hun". Roedd y Bedyddwyr, hefyd, yn amheus iawn ynglŷn â'r bwriad gan ofni y gallai arwain at sefyllfa dreisiol yng Nghymru. Mewn erthygl yn y *Western Mail*, tynnodd Terry Cambell sylw at y ffaith mai'r arweinydd plaid sylweddol diwethaf i fynd ar ympryd yng ngwledydd Prydain oedd y Gwyddel Terence McSweeney a fu farw ar ôl 70 niwrnod. Ar un adeg bu Gwynfor yn ystyried cyhoeddi ei ympryd ar ddechrau mis Medi gan roi mis yn unig o rybudd i'r llywodraeth (fel y digwyddodd, nid oedd y dyddiad o Hydref 6ed yn addas beth bynnag — mae'n wir fod y llywodraeth yn ailgynnull bryd hynny, ond dim ond i drin materion y flwyddyn flaenorol — doedd yr agoriad swyddogol ddim i fod am

CEFNOGWCH GWYNFOR

Gweithredwch yn awr!



 CYMDEITHAS
YR IAITH

dipyn wedi hynny). Ond dangoswyd y byddai'n gwneud mwy o synnwyr, ac yn creu mwy o botensial adeiladu ymgyrch, i'r bwriad gael ei gyhoeddi fisoedd ymlaen llaw, ar ddechrau Mai, mewn pryd i ddylanwadu ar y ddeddfwriaeth fyddai'n mynd drwy'r Senedd ac i barato'i'r mudiad cenedlaethol ar gyfer brwydr fawr. A dyna ddiwyddodd.

Cafodd y cyhoeddiad o'r ympryd un effaith yn syth. Roedd y Gymdeithas eisoes wedi trefnu bod criw o weithredwyr yn teithio i Lundain ar Fai 6ed ar gyfer gweithredoedd i dynnu sylw at y ddeddfwriaeth oedd i fynd drwy'r Senedd. Ychydig iawn o enwau oedd i lawr ar gyfer y bws o Aberystwyth i Lundain, ond y noson gyntaf wedi clywed y cyhoeddiad ar y teledu, fe lanwodd y papur o enwau at y bws o fewn awr. Diwrnod digon cymysg a gafwyd yn Llundain — aelodau'r Gymdeithas yn blocio rhai o brif strydoedd y ddinas, ond yr heddlu'n benderfynol o beidio arestio pobl, hyd yn oed pan aethpwyd ymlaen at Balas Buckingham a dringo'r ffens er mwyn gosod proclomasiwn arno. Trefnodd y Gymdeithas 'stynt' o fynd ag un aelod wedi'i gwisgo mewn gwisg briodas i mewn i'r Senedd-dy i ofyn am weld Whitelaw i'w gyhuddo o 'breach of promise', a chafwyd rhywfaint o sylw i'r ymgyrch ar y cyfryngau o ganlyniad. Ond, rhan oedd hyn i gyd o ymgyrch aruthrol o galed y tu ôl i'r llenni drwy fis Mai, o lobïo aelodau seneddol, a cheisio mobileiddio barn yn erbyn y mesur. Bu pobl fel Wayne Williams, Euros Owen, Aled Eirug a Dafydd Elis Thomas yn gefn cryf i'r gweithredoedd drwy gylchlythyr pob aelod seneddol. Cafodd pob un aelod seneddol femorandwm manwl a thaflen yn dangos mai'r "Sianel Gymraeg yw'r Unig Ateb — yr unig ateb i foddhau'r Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg, a'r unig ateb a all gadw hygredd y llywodraeth a'i haddawodd, a'r unig ateb sy'n cydymffurfio â dymuniadau'r mwyafrif llethol o bobl Cymru yn ddemocrataidd."

Mae pentwr o gannoedd o atebion gan aelodau seneddol yn swyddfa'r Gymdeithas, a llawer o'r rhain wedi anfon negeseuon ymlaen at y Swyddfa Gartref, rhai ohonynt, fel Jim Callaghan, wedi anfon fwy nag unwaith. Yn eironig, un a fu'n ymddiddori yn y mater oedd yr aelod seneddol Torïaidd Anthony Steen, y meddianwyd ei dŷ haf yng Nghymru ddwy flynedd yn ddiweddarach. Roedd dulliau lobïo'r Gymdeithas yn cynyddu hefyd mewn cynildeb ac effeithiolrwydd. I gyd-fynd â'r lobi yn Llundain, y gweithredu, a'r ymgyrch lythyr a thaflenni, gosodwyd hysbysebion yn y *New Statesman* wedi eu hanelu at aelodau Llafur, yn eu hannog i osod gwelliant i'r ddeddfwriaeth, yn galw am sefydlu Sianel Gymraeg (wedi iddynt dynnu un gwelliant yn ôl oherwydd ei fod yn "ddiffygiol yn dechnegol" fe wnaethpwyd hyn); ac yr oedd y *Spectator* wedi'i anelu at aelodau seneddol Torïaidd. Cafwyd y Rhyddfrydwyr yn eu crynswth i bleidleisio'n erbyn y mesur oherwydd nad oedd sicrwydd am sianel deledu Cymraeg. Ond, cafwyd ymateb gan Geraint Morgan ei fod yn anobeithio y gallai argyhoeddi ei gyd-aelodau Torïaidd. Aethpwyd mor bell (uchel?) â danfon gair at y Frenhines (mae'n siŵr mai dyma'r tro cyntaf i ohebiaeth fod rhwng y Gymdeithas a'r Frenhines oddi ar y dyddiau yn niwedd y chwedegau pryd y cafwyd llythyr cyson gan y 'Cwîn' yn *Tafod y Ddraig!*); fe bwyntiwyd allan ei bod hi, yn ei haraith wrth agor y Senedd,

wedi addo sianel deledu Gymraeg, a bod gweinidogion y Goron yn dwyn anfri ar ei henw trwy fradychu'r addewid.

Sut bynnag, yn wyneb y sefyllfa newydd, nid aethpwyd ymlaen i derfynoli'r trafod ar y mesur cyn egwyl yr haf y Senedd, gan adael y mater i'w gwblhau yn yr hydref. Ac o'r herwydd, roedd y ffordd yn dal yn agored i'r llywodraeth newid ei meddwl cyn yr ymryd, a chynnig gwelliant i'r mesur darlledu i sefydlu Sianel Gymraeg. Petai'r ddeddfwriaeth wedi'i therfynoli cyn yr egwyl haf, byddai wedi golygu mesur newydd a chymlethdod mawr i newid y sefyllfa eto.

Ar Fehefin 28ain 1980 trefnodd Plaid Cymru gyfarfod cyhoeddus mawr yn Aberystwyth i geisio hybu'r ymgyrch a dangos cefnogaeth i Gwynfor, gyda siaradwyr o'r Blaid ac o'r Gymdeithas. Cafwyd ymateb brwd iawn yn y cyfarfod, ond rhybudd fod saith o'r ugain wythnos rhwng cyhoeddiad yr ymryd a'i gychwyn arfaethedig eisoes wedi pasio, a bod rhaid ailddyblu ymdrechion. Trefnodd y Blaid nifer o weithredoedd yn yr ymgyrch e.e. ar Fehefin 14eg bu ymweliad â thŷ Mr Nicholas Edwards ger Y Fenni, a threfnwyd bws yr wythnos ganlynol i Downing Street. Roedd pwyllgorau lleol, megis Pwyllgor Gorllewin Morgannwg dros y Sianel dan arweiniad Heini Gruffudd, yn ymddangos fel madarch; ac roedd unigolion ymroddedig yn cyfrannu'n helaeth, megis DO Davies a ysgrifennai lythyrau toreithiog at y *Times* — un yn enw Horatio'r Arglwydd Nelson! Ond, yn bennaf oll, rhoddwyd hwb aruthrol gan gyhoeddiad yr ymryd i'r nifer o bobl a wrthodai dalu'r dreth deledu. Erbyn Mehefin gallai Peter Hughes Griffiths gyhoeddi fod bron 1,500 yn gwrthod talu — 325 yng Ngwynedd, 169 yng Nghlwyd, 72 ym Mowys, 367 yn Nyfed (y nifer mwyaf), 176 yng Ngorllewin Morgannwg, 186 yng Nghanol Morgannwg, 111 yn Ne Morgannwg, 57 yng Ngwent ac 13 o gefnogwyr y tu allan i Gymru. Rhagwelwyd y byddai'n agos i dair mil wedi ymuno â'r ymgyrch erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ac, roedd yr achosion yn cyrraedd y llysoedd. Mewn cyfnod o wythnos rhwng Mehefin 9fed a'r 17eg bu achosion llys yn ymwneud â gwrthod talu'r dreth yn llysoedd ynadon Caernarfon (dau achos), Blaenau Ffestiniog (dau achos), Prestatyn, Pwllheli, Bangor (dau achos), Llanrwst a Llangefni. Carcharwyd nifer o bobl mewn oed, gan gynnwys rhai pensiynwyr megis TC Jones o Benrhyndeudraeth a oedd yn ei saithdegau, DO Davies a Douglas Davies, dau gyn-reolwr banc.

Roedd Cymdeithas yr Iaith erbyn hyn wedi ailgydio yn yr ymgyrch weithredol ddifrifol, gyda naws o ddifrifoldeb newydd. Penderfynwyd ym mis Mehefin gyfuno'r gwahanol grŵpiau darlledu, y grŵp gweithredol a phwyllgor achosion cynllunio a oedd i fod i gyfarfod ar wahân yn achlysurol, a ffurfio un grŵp a oedd i gyfarfod bob rhyw saith i ddeg diwrnod. Yn ôl rhaglen y grŵp roedd gweithredoedd uniongyrchol cyson i fod a chaed ymgyrch gyhoeddusrwydd enfawr — nid yn gymaint am y sianel (fe wyddai pawb erbyn hyn am gyfiawnder yr achos) — ond i chwilio'n ymwybodol am weithredwyr o dan y slogan "Cefnogwch Gwynfor — Gweithredwch yn Awr". A bu paratoi mawr ar gyfer hoelio sylw Cymru gyfan ar y mater yn yr Eisteddfod Genedlaethol a oedd i'w chynnal yn Nhre Gŵyr y flwyddyn honno. Yn y cyfnod hwn, roedd pobl fel Hywel Pennar, Euros Owen, Tim

Webb, Wynfford James, Cen Llwyd, Wayne Williams, Ned Thomas, Meurig Llwyd, Llŷr Lake a Ffred Ffransis yn cyfarfod yn gyson. Euros, fel arweinydd y grŵp a ysgwyddodd llawer iawn o'r gwaith ymchwil i mewn i'r posibilïadau gweithredol, ac fe dalodd bris chwerw am hyn wedi'r 'fuddugoliaeth'.

Cyhoeddwyd bwletinau cyson i roi gwybod i aelodau a chefnogwyr eraill am yr hyn a oedd ar y gweill yn yr ymgyrch. Bu gweithredoedd cyson o dorri i mewn i fastiau teledu a'u diffodd, fel yn East Harptree, Gwlad yr Haf ar Orffennaf 31ain. Gwnaed, hefyd, dri ymdrech aflwyddiannus ar gynllun uchelgeisiol i ddiffodd y rhan fwyaf o drosglwyddiadau teledu trwy Brydain trwy daro allan ychydig o orsafau ailddarlledu allweddol i'r rhwydwaith. Roedd yn rhaid i bob criw gweithredol lwyddo er mwyn i'r cynllun cyfan lwyddo, a chafwyd anffawd ar ôl anffawd, gan gynnwys damwain car ar un daith. Ond, er i hyn fethu, cai'r amharu ar y gwasanaeth gryn sylw, a'r cyfryngau o'r diwedd yn barod i roi cyhoeddusrwydd oherwydd y diddordeb newydd roedd cyhoeddiad yr ymgyrdd wedi'i greu. Cynhaliwyd nifer o brotestiadau lleol fel yr un wrth swyddfa'r Ceidwadwyr yn Hwlfordd ar Orffennaf 12ed, a meddianwyd nifer o stiwdios yng Nghymru; yng Ngorffennaf, hefyd, y bu achos llys y tri o Bencarreg. Mae'n diddorol sylwi mai 50 o gefnogwyr yn unig a ddaeth i'r llys y diwrnod hwnnw, a dewisodd y barnwr y dacteg ddoeth o osod miloedd o bunnoedd o ddirwyon yn hytrach na charcharu. Ond buan y cliriwyd y costau hyn gan gronfa arbennig. Bu'n rhaid defnyddio'r gronfa hon eto i gynorthwyo talu dirwyon a chostau o £2,000 a roddwyd i bedwar o bobl 'parchus' a dorrodd i mewn i fast Carmel a'i ddiffodd ym mis Gorffennaf. Y pedwar hyn oedd Iwan Meical, Maldwyn Jones, Cynog Dafis a Millie Gregory, a ddaethant o flaen y llys yn wythnos Eisteddfod Dyffryn Lliw.

Yn yr Eisteddfod fe dorrodd yr ymgyrch allan yn sydyn yn gwbl agored. Ar y dydd Llun, bu tua 150 o aelodau'r Gymdeithas yn rhoi terfyn yn llythrennol ar uned yr LBA trwy ei ddinistrio a'i orchuddio â sloganau'n galw am sianel deledu Gymraeg. Ddydd Mawrth, bu protest y tu allan i uned y Swyddfa Gymreig ac amgylchynwyd Nicholas Edwards ar gae'r Eisteddfod. Ar y dydd Iau bu Gwynfor yn annerch torf fawr o flaen pabell HTV a dychwelwyd at y fan honno ar y dydd Sadwrn mewn protest lle y maluriwyd set deledu. Ac ar y dydd Gwener, bu cyfarfod cyhoeddus gorlawn ym mhabell y cymdeithasau, lle y galwyd ar holl gefnogwyr y Gymdeithas i ymbaratoi ar gyfer cyfnod o weithredu mawr yn niwedd Medi ac yn yr Hydref, gan gyhoeddi'r holl gynlluniau a chasglu enwau gweithredwyr. Yn ôl y Dr Roger Thomas, roedd yr awdurdodau'n ymwybodol iawn o'r cynlluniau hyn "i greu terfysg yng Nghymru". Ym mhob cwr o gae'r Eisteddfod, yr ymgyrdd a'r sianel oedd y testunau trafod. Doedd dim ond wyth wythnos i fynd tan ddechrau'r ymgyrdd, ac roedd y tymheredd wedi codi erbyn hyn. Yn ail hanner mis Awst, bu 'ambush' ar gar Nicholas Edwards gan genedlaetholwyr yng ngogledd Penfro, a'i ddal yn garcharor ar hewl fach wledig am rhyw awr. A bu modurgad o Gaerdydd draw at y ganolfan cofnodi trwyddedau ym Mryste (o un bleidlais roedd Senedd y Gymdeithas wedi gwrthod cynllun i flocio Pont Hafren ar y ffordd—byddai

hynny wedi bod yn eithaf trawiadol ar ganol y tymor gwyliau!) ond roedd pawb yn paratoi ar gyfer yr ymdrech fawr olaf.

Ergyd olaf HTV yn yr ymgyrch oedd cyhoeddi'n rhannol yn unig, gyfrif barn a geisiai ddangos mai lleiafrif yn unig o Gymry Cymraeg oedd o blaid cyfyngu'r rhaglenni Cymraeg i un sianel, er bod mwyafrif mawr y Cymry di-Gymraeg o blaid hynny. Bu Nicholas Edwards yn cynnal cyfweiliadau lu ar y teledu a'r radio ac yn y papurau yn galw ar Gwynfor i dynnu'n ôl ei fwriad i ymptydio. Bu cyfarfod rhwng y ddau, ond yn ôl tystiolaeth Gwynfor nid oedd Nic yn barod i wrando o ddifrif. Daeth Gwynfor o'r cyfarfod hwn yn argyhoeddedig nad ildiair llywodraeth. A hyd yn oed mor hwyr â Medi'r 10ed, pan ddaeth Goronwy Daniel ar y ffôn gyda Gwynfor i adrodd yr hanes am ei ymweliad ef fel un o'r 'tri gŵr doeth' â'r Ysgrifennydd Cartref, doedd dim llawer o obaith y newidiair llywodraeth ei meddwl. Cadarnhawyd hyn gan Michael Foot, a fu'n ymweld â Whitelaw ar yr un diwrnod. Yn ogystal ag ymyrraeth o blaid Gwynfor, caed ymyrraeth ddeallus gan ŵyr fel Delwyn Williams, a ddywedodd mewn cyfweiliad yn y *Daily Post* ar Awst 20ed: "Gwynfor Evans can only die once, if this government or any other government gives in to a threat of suicide by this foolish old man, what will be the next cause he threatens to die for? His death threat is the last desperate attempt of a tired old political failure to gain some publicity. It will fail!" Does dim angen

PAPUR
I
BOS
RELWYD
CYMRAEG

Y CYMRO

HOLL OFFER
CHWARAEON
YR
HAF
CANOLFAN
CHWARAEON
ABERYSTWYTH (7563)

The National Welsh Newspaper

DYDD MAWRTH, MEDI 9 1984

Tel: 01657 52211 ext.

5-9-84


Pris 14c.

MIS I ACHUB BYWYD GWYNFOR

Calodd ymgyrch
Flaid Cymru o
blaid y sianel Gym-
raeg ei grymu o
dydd Sadwrn pan
ddaeth 2,000 o bobl
i rali genedlaethol
yng Nghaerdydd.

Unlan fis cyn
ymgyrch arfaethedig
llywydd Flaid Cymru
a'i gaelwys ar
Cwmwrdd y
ydd y pŵlwr byllwr
nws hwsd i wŵlwr
llywydd Cymru ar
pŵlwr.

Onid rŵlwr h'n
amlaeg o'r cychwan
cynaf nad rŵlwr dros
dodwr yn unu uedwr
bos. Cyfnewidiadau
us o'r mawrwr yr ei
000 at arŵlwr di
wŵlwr yn na eiŵlwr
gwŵlwr gwŵlwr ar
llywydd.



Y Llywydd Flaid Cymru, Gwynfor Evans, yn cyhoeddi Cymraegwr aeth i'r ddi.

RHAID I GYMRU FYW

Taith trwy Gymru gan Lywydd Plaid Cymru

GWYNFOR EVANS

Medi 7-10 Taith o'r Alban. 11eg Aberdar. 12ed Neuadd y Dref, Traillwm. 13eg Cymru'n Galw, Neuadd y Dref, Dinbych. 16eg Ysgol Dinefwr, Abertawe. 17eg Neuadd y Farchnad, Crymych. 18ed 6.30. p.m. Canolfan Cymdeithasol, Porthmadog. 8 p.m. Bel Air, Pwllheli. 19eg Neuadd y Dref, Llangefni. 20ed Bore-Glanllyn, 2 p.m. Dadorchuddio Cofeb J. E. Jones ym Melin y Wia. 7.30 Plas Gwyn, Cricleth. 23ain Rhondda. 24ain Wyddgrug. 25ain Neuadd Goffa Rhiwbina, Caerdydd. 26ain Neuadd yr Adran, Pontllanfraith. 27ain 2 p.m. Neuadd Talybont (CYI) 7.30 Neuadd Goffa, Aberaeron. 30ain Cefn Ydfa, Maesteg. Hydref 2il Siambr y Cyngor, Pontypridd. 3ydd Coleg Meirionydd, Dolgellau. 4ydd Gwyl Werin Llandeilo. Rall Porth Talbot. 7.30 Neuadd Dewi Sant, Merthyr.

Nos Sul Hydref 5ed Neuadd San Pedr, Caerfyrddin
8 p.m.

ychwanegu fod pawb yn cofio bellach am safiad Gwynfor, a fawr neb yn cofio Delwyn Williams — ond roedd y geiriau hyn, a rhai tebyg ar y pryd, ddim ond yn codi'r tymheredd yn uwch. Yr un diwrnod cyhoeddodd ynad heddwch o Ddyffryn Conwy, Mrs Glenys Thomas, ei bod hi'n ymddiswyddo o'r fainc oherwydd y ffordd yr oedd y llywodraeth yn dwyn y gyfraith i anfri trwy weithredu'n annemocrataidd.

Roedd *Y Cymro* ar y pryd wythnos ar ôl wythnos yn llawn o erthyglau a phenawdau a gynyddai'r ymdeimlad o dyndra. Y pennawd ar Fedi'r 9ed oedd "Mis i Achub Bywyd Gwynfor"; a phythefnos cynt roedd dyfyniad gan Gwynfor "Rhoi fy Mywyd yn Nwylo fy Nghydwladyr", gyda llun ohono gyda'i wraig a'u deg ŵyr. Roedd cyhoeddusrwydd mawr a chyson hefyd, nid yn unig yn y papurau Prydeinig, ond mewn sawl gwlad drwy'r byd, ac meddai Gwynfor yn *Bywyd Cymro*: "Hwyrach bod y sylw a roddwyd mewn papurau tramor wedi gwneud cymaint â dim i ysgwyd y llywodraeth". Cyhoeddwyd yn yr Eisteddfod lyfryn o'i waith yn dwyn y teitl 'emotive' *Byw neu Farw* a gyfeiriai at y frwydr dros yr iaith, ond roedd darllenwyr yn amlwg yn darllen arwyddocâd arall i mewn i'r teitl.

Roedd strategaeth Cymdeithas yr Iaith yn yr ymgyrch weithredol yn y mis olaf hwn ar ddwy lefel: yn gyntaf yn cyhoeddi i'r genedl ar ffurf miloedd o daflenni a phosteri ar hyd y priffyrdd a chyfarfodydd cyhoeddus, y cynlluniau gweithredol oedd i ddilyn cychwyn yr ympryd. Ar Fedi 27ain roedd Gwynfor i annerch Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas, ac ar ddydd Sadwrn Hydref 11eg, sef pum niwrnod wedi cychwyn yr ympryd arfaethedig, roedd raliau gweithredol i fod yng Nghaerdydd a

'RHOI FY MYWYD YN NWYLO FY NGHYDWLADWYR'



Gwynfor Evans a'i wraig gyda'u deg o wrion a wyresau - o'r chwith: Mabon, Prys, Iestyn, Ceri, Lleucu, Carys, Heledd, Angharad, Gwenllïan a Hedd Gwynfor

Llun 'Y Cymro'

Bangor, a'r Sadwrn canlynol rali weithredol yn Llundain. Gallwn gyhoeddi'n awr, fod ymchwil trwyadl a chynlluniau manwl wedi'u paratoi i ddefnyddio y cannoedd os nad miloedd o bobl a fuasai wedi ymgynnull, i fynd i mewn i'r adeilad darlledu a'r llywodraeth yn y manau hynny, gan geisio dinistrio eu gweinyddiaeth a'u hoffer yn llwyr. Golygai hyn y byddai'n debygol iawn i gannoedd gael eu harestio, gan arwain at weithredu pellach gyda phicedu dyddiol y tu allan i ganolfannau darlledu mewn ymgais i atal eu gwaith. Ar yr ail lefel, yn nechrau Medi roedd gweithredu bron yn ddyddiol i geisio sicrhau bod y llywodraeth yn newid ei meddwl fel na fyddai'n rhaid i'r ymgyrdd gychwyn. Yn ystod yr wythnos cyn ildiad y llywodraeth, trefnwyd gweithred gan famau yn HTV, Caerdydd, gweithred gan weinidogion yn yr IBA yng Nghaerdydd, a gweithred o dorri i mewn i swyddfeydd Whitelaw ei hun yn Carlisle. Anelwyd at gael rhyw hanes am yr ymgyrch yn y newyddion bob diwrnod, gyda llawer mwy o weithredoedd wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol.

Roedd y negeseuon o gefnogaeth i'r sianel yn dod i mewn o bob cwr fel y nesau'r dyddiad. Y cam olaf oedd ailadrodd yr ymgyrch arwyddion pan aeth y 'tri gŵr doeth' — Archesgob Cymru GO Williams, Syr Goronwy Daniel a'r Arglwydd Cledwyn Hughes i weld yr Ysgrifennydd Cartref ac Ysgrifennydd Cymru ar Fedi'r 10ed i ofyn i'r llywodraeth i newid ei chynllun — yn lle adolygu'r cynllun o ddwy sianel mewn tair blynedd i roi'r tair blynedd o brawf i Sianel Deledu Gymraeg. Y gobaith (a wireddwyd) oedd y byddai hyn yn cynnig ffordd o ymwared i'r llywodraeth trwy roi'r syniad mai arbrawf fyddai'r sianel, a thrwy ildio i dri gŵr parchus yn hytrach nag ildio i Gwynfor a Chymdeithas yr Iaith.

Roedd y tyndra yn yr awyr, ac ar y 13eg cafwyd 'leak' i'r wasg fod y llywodraeth yn canfasio barn yr aelodau seneddol Toriaidd Cymreig ynglŷn ag ildio ar y mater, a disgwyliai Cymru am y cyhoeddiad gan y llywodraeth ar Fedi'r 14eg. Cydnabu Nicholas Edwards, gan ddefnyddio geiriau ei ragflaenydd yn y Swyddfa Gymreig, John Morris, wedi canlyniad y refferendwm — fod yn rhaid adnabod eliffant ar eich trothwy pan welwch un. A chyhoeddodd cyflwynydd Radio Cymru fod "y frwydr dros Sianel Gymraeg wedi'i hennill."

Williams- about the

by Elwyn Roberts

SUSPENDED teacher
Wayne Williams has swopped
roles with his wife
until his future career

bal
car
a s
wa
ha

**I'm no terrorist
—banned teacher**

WAYNE WILLIAMS, the
29-year-old Llanidloes
teacher who has

And tomorrow his oppo-
nents and his supporters
will have separate meet-
ings with the Union Edu-



Hyd yn oed ar ôl y fuddugoliaeth bu rhaid i rai fel Wayne Williams ddioddef o ganlyniad i'r ymgyrch ddarlledu

Atodiad – Y Ddadi Fawr

Wrth ymdrin â'r cyfnod rhwng 1970 a 1979, mae'n bosib y rhoddwyd yr argraff fod undod mawr wedi bod ymhlith pobl Cymru o blaid Sianel Gymraeg, ac mai'r llywodraeth yn unig a safai yn y ffordd. Roedd elfen gref iawn o wirionedd yn hyn. Yng Nghymru'r saithdegau lle'roedd polareiddio mawr o ran gwleidyddiaeth gyfansoddiadol rhwng cenedlaetholwyr ar y naill law, ac adweithwyr Prydeinig ymhlith y Torïaid a'r Llafur ar y llaw arall (a arweiniodd yn y pen draw at 'debacle' mawr y refferendwm ar ddatganioli), yr oedd yn syndod faint o undod oedd ar bwnc Sianel Gymraeg. Roedd y fformiwla o roi'r sianel newydd i raglenni teledu Cymraeg (sef rhywbeth na fyddai pobl yn ei golli am na fodolai ar y pryd), a symud y rhaglenni Cymraeg o'r sianeli eraill i wneud lle i fwy o raglenni Saesneg o Gymru, ag apel mawr ar draws y sbectrwm gwleidyddol a ieithyddol yng Nghymru. Heblaw am y Cymry Cymraeg brwd a ddeisyfai wasanaeth llawn yn eu hiaith eu hunain, apeliai hyn hefyd at y di-Gymraeg a gaent eu digio'n aml gan y rhaglenni Cymraeg gwasgarog a ymddangosai bob hyn a hyn i dorri ar draws eu gwyllo o BBC Cymru ac HTV.

Dyma achosodd bod llawer o'r di-Gymraeg yn troi eu herialau tuag at drosglwyddydion yn Lloegr—yn y gogledd-ddwyrain i dderbyn gwasanaeth BBC gogledd Lloegr a Granada o Fanceinion, ac yn y de-ddwyrain i dderbyn BBC gorllewin Lloegr ac HTV West o Fryste, a phrynu'r fersiynau hynny o'r *Radio Times* a'r *TV Times*. Achosai hyn dorri cysylltiad nid yn unig â'r Gymraeg ond â'r rhaglenni newyddion Saesneg o Gymru hefyd. Roedd y di-Gymraeg felly, yn gryf o blaid y cynllun.

Roedd hyd yn oed y gwrth-Gymraeg, fel yr aelod seneddol Leo Abse, o blaid y cynllun. Fel hyn y dadleuai ef yn Ionawr 1973:

“Those who are screaming that English and Welsh programmes must not be disengaged, those who think that Wales has no identity outside the language—to them it appears to be a matter of indifference that the overwhelming majority of our people, as a consequence of their attitude, should be glued to English sceens, helping to make our Welsh society even more schizoid. Their position is intolerable to all who take no joy in the understandable but increasing intolerance of the monoglot English-speaking Welshman towards the minority whose needs are presently being administered in a form which, in practice, is increasingly denying to the overwhelming majority of Welshmen, a medium which should be enhancing and not diminishing its sense of identity.”

Rhoddai hyn 'ammunition' i rai Cymry Cymraeg a wrthwynebau'r sianel; awgryment hwy fod yn rhaid fod gwendid yn y cynllun os cefnogid ef gan y gwrth-Gymraeg.

Ond, er y mesur sylweddol iawn o undod o blaid y sianel—a oedd yn elfen gref iawn yn llwyddiant yr ymgyrch yn y pen draw—nid oedd yn wir i ddweud

fod undod llwyr ymhlith y Cymry Cymraeg. Y gŵr a grisialodd y gwrthwynebiad ymhlith y Cymry Cymraeg gwladgarol i'r cynllun o sianel deledu Gymraeg, oedd y diweddar Athro Jac L Williams, a gyflawnodd cymaint o waith dros y Gymraeg, a thros addysg ddwyieithog yn arbennig yn adran addysg Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Hanfod ei ddadl oedd bod sefyllfa o ddwyieithrwydd ymdreiddiol yng Nghymru yn hytrach na dwyieithrwydd gyfochrog fel yng ngwlad Belg neu Canada lle'r oedd gwahanol gymdeithasau tiriogaethol yn meddu ar ddiwylliannau gwahanol. Mewn sefyllfa felly, dadleuwyd, yr oedd yn ddigon addas i gael sefydliadau annibynnol ar gyfer y cymdeithasau hynny yn eu hieithoedd eu hunain. Ond, mewn sefyllfa o ddwyieithrwydd ymdreiddiol, fel yng Nghymru, lle'r oedd y Gymraeg a'r Saesneg yn bodoli gyda'i gilydd, wedi'u gwau trwy'r gymdeithas drwy'r wlad, roedd rhaid cael sefydliadau a chyfundrefnau a ddefnyddiai'r ddwy iaith ac a gadwai'r ddwy iaith yn llygaid a chlustiau'r holl boblogaeth. Mewn termau symlach, y ddadl oedd bod sianel deledu oedd yn ddwyieithog yn gwneud y Cymry di-Gymraeg yn ymwybodol o bresenoldeb yr iaith, tra y byddai neilltuo'r rhaglenni Cymraeg i un sianel yn golygu na fyddai'r rhan fwyaf o bobl byth yn troi at y sianel honno, ac y collent eu hunig gysylltiad â'r iaith Gymraeg, ac y byddai hyn yn niweidiol. Meddai'r Athro Jac L Williams yn *Barn* yn Ionawr 1973:

“Pa ryfedd nad yw Leo Abse a'i gyfeillion gwleidyddol mor frwd dros ledaenu BBC Cymru dros Gymru gyfan ag y maent dros sefydlu sianel deledu uniaith Gymraeg. Tybed a wireddir breuddwyd rhai o gefnogwyr y sianel uniaith Gymraeg na bydd mwy o wylwyr i'r sianel honno, os daw, nag sydd o ddarllenwyr i'r papurau wythnosol Cymraeg yn y cefn gwlad traddodiadol Cymreig yn awr?”

Ac eto, yn Nhachwedd 1973: “Cadw statws genedlaethol yr iaith a mynnu ei chael i dreiddio i ymwybod y genedl gyfan trwy lygaid a chlust yw'r sylfaen i adferiad. Heb hyn ni ellir cyrraedd nod uwch nag arafu ei thranc. Dylid edrych ymlaen yn y maes hwn gyda bias meddiannol nid yn nhermau rhoi bywyd llawn trwy'r Gymraeg i leiafrif bychan enciliol. Dyma gamsyniad enbyd Cymdeithas yr Iaith ac Urdd Gobaith Cymru yn eu hagwedd at deledu Cymraeg.”

Ac ym mis Rhagfyr 1973, defnyddiodd ei ddychymyg i ddisgrifio “Cynllun Cynhebrwng Parchus” i'r iaith Gymraeg, ac wrth gwrs, un o'r ffactorau i brysuro tranc yr iaith oedd “sefydlu sianel deledu ar wahân i'r iaith Gymraeg a chyfyngu'r iaith i honno.”

Rhoddasai Jac L gefnogaeth gref i'r ymgyrch dros arwyddion dwyieithog a gadwai, yn ei farn ef, y Gymraeg o flaen llygaid yr holl bobl. Meddai wrth Dafydd Iwan mewn dadl ar y teledu: “Roeddych chi'n fendigedig ar yr arwyddion ffyrdd. Roedd eisiau arwyddion ffyrdd dwyieithog ymhob man. Roeddech chi'n fendigedig ynglŷn â'r Swyddfa Bost, ond rydych chi wedi mynd yn gwbl ar gyfeiliorn ynglŷn â theledu.” Datblygodd yn genadwri gref, neu yn obsesiwn (yn dibynnu ar safbwynt rhywun) ganddo i wrthwynebu'n egniol drwy'r ddegawd y syniad o sianel deledu Gymraeg, yn erbyn ei gyd-Gymry. Atebodd Alwyn D Rees, a oedd yn gyfaill personol iddo, nifer o'i ddadleuon yn *Barn*; e.e. ym mis Hydref 1973, ysgrifennodd Mr Rees fel hyn:

“Yn wyneb enbydrwydd y sefyllfa, yr unig lais sy’n dal i lefain yn groch yn erbyn sianelu’r Gymraeg yw eiddo’r Athro Jac L Williams. Aeth hyn yn grwsâd personol ganddo, ac ni chyll unrhyw gyfle i gondemnio a gwawdio’r Sianel Gymraeg pa bwnc bynnag fo dan sylw. Mae’r elfen o wir sydd yn ei gyfeiliornad yn ei ddallu’n llwyr rhag gweld y darlun yn ei gyfanrwydd. Y gwir sydd ganddo yw fod llawer o bobl yn awr yn gweld rhaglenni Cymraeg drwy ddamwain, ac na fyddai’r ddamwain yn digwydd pe bai’r Gymraeg ar sianel ar wahân. Gŵyr fod ambell i un o’r rhain yn dysgu’r iaith, er na fyddai ganddynt ddigon o ddiddordeb i wasgu botwm pe bai hi ar sianel arall. Ond does ganddo ddim syniad a yw’r dysgwyr amrwd hyn yn niferus o gymharu â’r torfeydd sy’n dianc rhagddi ... Ond, ni fyn JLW weld y problemau. Bob tro y ceisir eu datguddio iddo ymetyb trwy ddosbarthu ei gyd-Gymry i ddau gategori nad ydynt yn bod ond yn ei ddychymyg ef ei hun: ‘y meddianwyr’ (pobl debyg iddo ef) a’r ‘encilwyr’, sef pawb arall (pawb, gan gynnwys aelodau Cymdeithas yr Iaith a’r bobl hynny sy’n cuddio ffurflenni Cymraeg dan y cownter!).”

Dyw hi ddim yn bosib gor-ddweud yr egni a roddodd Jac L i mewn i’r ymgyrch, gan ddefnyddio’i safle (a llawer o adnoddau’r adran addysg yn ôl rhai) i ohebu’n gyson â’r awdurdodau darlledu a gwleidyddol, â Chymry eraill ac yn bennaf oll â’r papurau newydd. Mae yna lu o dystiolaeth ddogfennol i’r ddadl hon rhwng yr Athro a Chymdeithas yr Iaith. Mewn un cartwn enwog yn *Lol*, awgrymwyd bod y frwydr dros y sianel wedi’i hennill oherwydd bod Cymdeithas yr Iaith wedi ysgrifennu 270 o lythyrau i’r wasg y mis hwnnw, lle nad oedd Jac L wedi ysgrifennu mwy na 250 o lythyrau. Ond, nid oedd aelodau’r Gymdeithas yn ddigon toreithiog eu llythyrau i blesio Ffred, a oedd yng ngharchar Walton drwy ail hanner 1973 pryd yr oedd cyfnod ysgrifennu Jac L ar ei anterth. Daeth Ffred allan ym 1974 ac ysgrifennodd i’r *Cymro* i sôn am y rhwystredigaeth a fagodd y tu fewn i Walton ac fel yr ysai yno am y cyfle i ysgrifennu at y wasg i ateb Jac L a chychwyn ymgyrch lythyru o’r ochr arall. Serch hynny roedd Ffred ei hun wedi llwyddo i smyglo un llythyr allan o Walton ym 1973 i’w ddanfôn at *Y Faner*; yn y llythyr hwnnw mae’n cyhuddo Jac L o “amliwio ar y sefyllfa bresennol e.e. drwy ddweud fod ‘perygl i’r Gymraeg gael ei gwthio o ganol ffrwd cyfathrebu mwyaf effeithiol yr oes’, fel petai hi yng nghanol y ffrwd ar hyn o bryd; y gamdybiaeth ddybryd fod pobl yn debyg o wylion anffodlon raglen Gymraeg, yn unig oherwydd eu bod yn rhy ddiog i droi swits teledu; a’r anobaith dogmatig ag awdurdodol mai pump y cant fydd yn gwylio sianel Gymraeg.”

Ond roedd gan Ffred barch mawr at egni ac effeithiolrwydd Jac L; mae’n wir i ddweud i’r Athro, ar ben ei hun, gynhyrchu mwy o ddeunydd propaganda yng ngholofnau’r papurau newydd na holl aelodau’r Gymdeithas gyda’i gilydd.

Yn hanner cyntaf y ddegwad roedd yr ymgyrch un dyn hwn yn dipyn o destun sbort yng Nghymru, a fawr neb yn ei ystyried o ddifri. Oherwydd fod Cymdeithas yr Iaith wedi symud yn gyflym ar ddechrau’r saithdegau i sicrhau cefnogaeth yr holl gyrff Cymraeg a llawer o awdurdodau lleol, ac wedi dwysáu’r teimladau ynglŷn â’r mater gyda’r carchariadau i gyd a’r ymgyrch weithredu ddifrifol, fe gafodd ei

dderbyn yn llwyr mai dyma oedd y ffordd ymlaen. Mewn un sesiwn o *Hawl i Holi* ar y radio ym 1973, gofynnodd rhywun o'r gynulleidfa yn Llangefni a oedd y panel yn cytuno â safbwynt Jac L Williams ar sianel deledu Gymraeg; ac ateb un panelwr oedd na wyddai am unrhyw un yng Nghymru a gytunai â'i safbwynt. Ym 1974, mewn erthygl yn *Y Faner* cyfeiriodd Ffred yn ddilornus at safbwynt "Jac L a'i ffrind" gan awgrymu mai dim ond un cefnogwr oedd ganddo yng Nghymru. Mae'n debyg mai'r person y cyfeiriwyd ato oedd Meredydd Edwards, yr actor enwog, a gallwn ddyfynnu o lythyr a anfonodd Meredydd Edwards at Ffred mewn ymateb:

"Rwy'n sicr y cytunwch," meddai, "fod record Jac L fel Cymro sy'n 'ymboeni' (am yr iaith) yn un go dda — ac yn llawer sicrach na Leo Abse sydd yn cefnogi sianel ar wahân. Ac ychwanegodd: "Fy rheswm i, fel Jac L, i wrthwynebu eich cynllun chi ydyw am fy mod yn credu yn fy nghalon fod hyn yn mynd i niweidio y Gymraeg".

Ond, ni phallai ymgyrch Jac L oherwydd diffyg cefnogaeth. Ac erbyn canol y saithdegau gyda'r holl ohirio gan y llywodraeth yn torri ar fomentwm yr ymgyrch ac yn creu ansicrwydd yn gyffredinol, roedd Cymry Cymraeg yn fwy parod i wrando ar Jac L, a dechreuodd gael peth cefnogaeth.

Pan ymddangosodd ym 1979 fod y sianel i ddod wedi'r cyfan, ciliodd y gefnogaeth a gafodd safbwynt, y diweddar erbyn hynny, Jac L. Ond, wedi'r cyhoeddiad bod y Toriaid yn cefni ar eu haddewid, roedd ef wedi plannu digon o hadau amheuaeth fel bod nifer o Gymry Cymraeg eraill yn codi ar ddiwedd 1979 a dechrau 1980 i wrthwynebu'r sianel ac i ddadlau y dylai'r Cymry dderbyn dwy sianel ddwyieithog — ymgyrch a arweiniwyd gan Mrs Jennie Eirian Davies, golygydd *Y Faner* ar y pryd. Yr uchafbwynt i'r ddadl yn y saithdegau oedd rhaglen arbennig ar y teledu, dan gadeiryddiaeth Gwilym Owen ym mis Mawrth 1977 ychydig cyn marwolaeth Jac L, rhyngddo fe a Dafydd Iwan. Fe wnaeth Jac L argraff fawr ar nifer o Gymry Cymraeg ar y rhaglen honno, ond, o ddarllen dros yr hyn a ddywedodd, ymddengys nifer o'i ymadroddion braidd yn ysgubol ac ymosodol. Roedd Radio Cymru newydd gychwyn ar donfedd ar wahân ar y pryd, ac meddai'r Athro, "Mae'r trychineb sydd wedi digwydd ynglŷn â Radio Cymru a'n hiaith annwyl ni... (lle mae'r) iaith Gymraeg wedi cael ei diffodd mewn miloedd ar filoedd o gartrefi... yn mynd i ddigwydd ar raddfa anrhaethol waeth gyda theledu os... yw hi'n mynd i gael ei chicio allan o barlwr y sianeli poblogaidd i gwtsh dan staer y bedwaredd sianel." Ac eto: "Cychwynnwch y Sianel Deledu Gymraeg ar wahân. Profwch fod y derbyniad yn fach, a bydd y gelynion wrth eu bodd, a fyddwch chi wedi lladd teledu yn yr iaith Gymraeg am byth." Meddai Dafydd Iwan, "Ydych chi, Dr Williams, yn fodlon aberthu y byd Cymraeg er mwyn cael ychydig o Gymraeg i fewn i fywyd pawb, mewn modd sydd ddim yn effeithiol? Does neb yn mynd i ddysgu Cymraeg drwy ddigwydd gweld hanner awr ar ôl *News at Ten*, ond mi wnân nhw ddysgu Cymraeg os wnân nhw wneud dewis bwriadol". Ac ateb Jac L — "Rydych chi'n byw mewn breuddwyd gwbl ffôl, sy'n mynd i arwain i dranc yr iaith Gymraeg, os na ddowch chi at eich coed."

Ond, fel y dywedwyd, bu'r Athro yn cynnal ei ymgyrch propaganda yn ddyfal o'r

cychwyn, hyd yn oed ym 1970, ac yn arbennig ym 1973 o dan y llysenw 'Isambard' yn *Barn*.

Mae'n werth i ni fwrw golwg mwy manwl, felly, dros y dadleuon a ddefnyddiwyd ar y pryd; caiff rhain eu crisialu orau mewn dogfen a anfonodd Jac L ar 29ain Ionawr 1974 at grŵp darlledu Cymdeithas yr Iaith, mewn ymateb i gopi o ddogfen a gyhoeddwyd gan y grŵp hwnnw, *Pam Sianel Gymraeg?*, yn gofyn, yn obeithiol braidd, am ei gefnogaeth ef ymhlith eraill. Gawn ni gymharu'r ddwy ddogfen er mwyn cyrraedd at hanfod y ddadl.

1. Dadleuai'r Gymdeithas mai cael sianel ar wahân oedd yr unig ffordd ymarferol i sicrhau gwasanaeth cyflawn yn y Gymraeg.

Atebai Jac L nad cael gwasanaeth cyflawn i leiafrif bychan oedd bwysicaf, ond achub ac adfer yr iaith.

2. Dyma'r unig ffordd, yn ôl y Gymdeithas, i osgoi unrhyw wrthdaro ynglŷn â chael rhaglenni Cymraeg ar yr oriau brig.

Ond, mynnai Jac L ei fod ef hefyd yn awyddus i weld y Gymraeg ar yr oriau brig ar y bedwerydd sianel, tra ar yr un pryd yn cadw'r Gymraeg ar ffiniau'r oriau brig ar y sianeli eraill.

3. Poenai'r Gymdeithas am agwedd gwrthwynebus y Cymry di-Gymraeg oedd yn troi eu herialau tuag at Loegr, ac o ganlyniad yn colli pob cysylltiad â Chymru yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Credai Jac L, ar y llaw arall, fod tensiwn yn lles i'r iaith a bod modd cael dau ymateb i raglenni Cymraeg — y naill yn wrthymateb llym a'r llall yn gynnidd mewn diddordeb yn yr iaith.

4. Credai'r Gymdeithas y byddai sianel Gymraeg yn gymorth i deuluoedd i fagu eu plant yn sŵn yr iaith.

Roedd ymateb Jac L braidd yn nawddoglyd: "Dichon," meddai, "nad oes gennych ddigon o brofiad eto o fagu plant i ddeall y broblem hon".

Anwybyddodd y dadleuon ynglŷn â chyllid, ond mae'n agor a chloi ei lith drwy wadu ei fod yn gwrthwynebu Sianel Gymraeg fel y cyfryw; yn hytrach gwrthwynebu a wnâi gyfyngu'r Gymraeg i'r sianel honno yn unig. Galwodd ymgyrchwyr dros y sianel yn "unsianelwyr" a'u rhoi yn yr un garfan ag ymgyrchwyr gwrth-Gymreig megis Leo Abse a'r 2,700 o bobl yn Abertawe a arwyddodd ddeiseb dros gael gwared ar y Gymraeg o'r sianeli poblogaidd. Ceisiodd gyfaddawdu drwy ofyn i'r Gymdeithas ddatgan: "y dylid cadw rhai rhaglenni Cymraeg ar y prif sianeli teledu yn ogystal â defnyddio sianel pedwar i ddarparu'n arbennig ar gyfer Cymry Cymraeg".

Roedd wedi ceisio'r gyfaddawd hon ynghynt mewn llythyr at *Barn* yn Nhachwedd 1973: "Bu dydd Gwener, Hydref 19, yn ddiwrnod arbennig i mi, diwrnod o lawenydd mawr.

"Yn y bore, fe gyrhaeddodd *Y Cymro* ac ynddo darllenis yn yr adroddiad o Gyfarfod Blynyddol Gymdeithas yr Iaith Gymraeg fod un o brif swyddogion y Gymdeithas wedi dweud, 'Dw'i ddim yn credu y byddai neb yma heddiw yn gwrthwynebu gweld y Gymraeg yn cael lle anrhydeddus ar bob sianel deledu, cyn

belled â bod yna wasanaeth cyflawn a di-dor yn Gymraeg ar un o'r sianeli... Y bwgan mwyaf yw bwgan y sianel genedlaethol ddwyieithog. Yn nhermau sianel felly y meddylia'r llywodraeth, Cyngor Darlledu Cymru a'r Urdd. Mi fyddai sianel ddwyieithog yn drychinebus.' Felly, mae'r delfrydol i mi ac i'r Gymdeithas bron â bod yr un fath. Y gwahaniaeth rhyngom yw mai prif nod y Gymdeithas yw gwasanaeth cysurus i'r lleiafrif bychan. Y prif nod i mi yw cael y Gymraeg a Chymreictod i gymaint fyth ag y gellir o gartrefi'r genedl."

Ond gwyddai pawb mai dilyn ysgyfarnog oedd hyn gan na fyddai modd perswadio pobl Cymru a'r llywodraeth fod achos dros sianel gyflawn Gymraeg tra ar yr un pryd yn cadw oriau o Gymraeg o gwmpas oriau brig y sianeli eraill fel y dymunai Jac L.

Fel y dywedwyd, cododd yr hen amheuan hyn eu pennau eto ar ôl i'r Torïaid gefnu ar eu haddewid ym Medi 1979. Ond, er i rai fynnu mai'r un oedd yr amheuan, roedd holl natur y ddadl mewn gwirionedd wedi newid. Roedd hyd yn oed cefnogwyr y sianel wedi gweld y synnwyr yn rhai o ddadleuon Jac L, ac yn gallu gweld pam yr oedd yn poeni. Ond doedd y dewis bellach ddim rhwng y sianel Gymraeg a'r holl sianeli poblogaidd, ond rhwng sianel Gymraeg a dwy sianel leiafrifol lle na fyddai unrhyw sicrwydd am safle'r iaith. Ac fe welwyd yn union sut y twyllwyd y rheiny a blediodd achos y llywodraeth ac HTV ym 1979 pan ddatgelwyd cynnwys y mesur darlledu newydd yn Chwefror 1980 — y mesur roedd Whitelaw a'i griw am ei weithredu yn lle'r sianel Gymraeg. Mae'n werth dyfynnu'n helaeth o erthygl gan ohebydd gwleidyddol *Y Cymro* ar y pwnc o dan y llysenw 'Rhoslyn'. O dan y pennawd "Dyma beth yw codi pais ar ôl pisio!", mae'n cyfeirio at "siomiant y Cymry Da" ac yn ymosod yn chwynr ar wrthwynebwyr y sianel:

"Cyfeirio'r wyf at y gwyrdä — a llawn mor bwysig at y gwragedda — hynny a gafodd droedigaeth sydyn (ac anesboniadwy gan amlaf) ar gwestiwn y sianel Gymraeg ac a fu'n dadlau'n leiafrifol ddewr fyth wedyn mai'r peth ymarferol gall oedd derbyn a chroesawu'r ugain awr (onid mwy!?) wythnosol o Gymraeg a gynigia'r Cymro tanbaid hwnnw, Wyn Roberts, a'i feistr Anglicanaidd, Wili Whitelaw... Mae'n rhaid mai halen ar friw y dyrnaid o genedlaetholwyr ac eraill a gefnodd ar y Sianel Gymraeg oedd mynd trwy brint mân y mesur yn chwilio am ddeddfwriaeth yn awdurdodi "20 awr o raglenni Cymraeg", ynghyd â chyfarwyddyd bod raid i gyfartaledd sylweddol (neu deg o leiaf — faint bynnag fyddai hynny) o'r rhaglenni Cymraeg 'fod ar oriau brig'.

"Ond dim gair. Y cyfan a fedrodd y dyrnaid dewr ddod o hyd iddo yn y Mesur yw cyfarwyddyd y bydd raid i ITV yng Nghymru 'contain a suitable(!) proportion of matter in Welsh'. Ac am yr oriau brig? Yr unig gyfarwyddyd a geir yw bod raid i'r BBC ac IBA ddod at ei gilydd 'to confer over the best days of the week for Welsh language programmes'. Ar canllaw cyson? 'to serve the best interests of persons residing in Wales'.

"Mewn Cymraeg plaen — does dim sôn o gwbl am les yr iaith Gymraeg a'r lleiafrif Cymraeg. Dim gair ychwaith am 20 awr nag am oriau brig... Ni bydd

gan ITV 2 yng Nghymru hyd yn oed Bwyllgor Ymgynghorol Cymreig... Yna, cyn bod y print wedi sychu ar yr argraffiad o'r Mesur gerbron y Tŷ na ddaeth Owen Edwards, Rheolwr BBC Cymru, ar *Helo Bobol* fore trannoeth i haeru nad oedd prin ddim gobaith cael mwy o raglenni Cymraeg ar BBC 2, oni byddai i'r llywodraeth ffeindio'r arian i hynny...

"Yna, i orffen dadrithio'r 'Cymry da' dyma Wili Whitelaw, mewn ateb i gwestiwn seneddol, yn datgan yn glir y bydd yn rhaid i wasanaeth ITV 2 dalu amdano'i hunan...

"A olyga hyn (ynghyd â geiriad bwriadol-amwys y Mesur) ei bod hi'n annhebygol iawn a welwn ddim byd tebyg i 10 awr yr wythnos o Gymraeg ar ITV 2 ychwaith?

"Dim rhyfedd bod dyrnaid fechan yr Aml-Sianelwyr Cymraeg yn teimlo'n ddig! Wedi torri eu haddewid i bawb arall yng Nghymru, onid oedd Wyn a Wili nawr yn torri eu haddewid hefyd i'r criw bychan ffyddiog, detholedig? 'Rydym ni'n ôl nawr yn y frwydr gyda'r Un-Sianelwyr,' meddent yn llawen. 'Mae'n rhaid i ni frwydro gyda'n gilydd nawr am arian gan y llywodraeth i gael mwy o Gymraeg o gwbl ar BBC 2 ac ITV 2.'

"Pa Nico a aiff draw i Gaerdydd ac i ogledd-ddwyrain Cymru i sisial yn isel wrthynt — 'Petaech chi heb roi cyllell yng nghefn y frwydr am Sianel Gymraeg, ni fyddai raid nawr ymgreinio yn y llwch am dipyn o arian...'

"Mawr yw cyfrifoldeb y rhai a rannodd y Gymru Gymraeg ar gwestiwn y Sianel Gymraeg... bydded yn gwbl glir mai oherwydd eu gwendid trist hwy y mae'r siambls presennol. Mewn gair, mae eu galwad yn hynod debyg i godi pais ar ôl piso."

Ar waetha'r ail frad yma, anodd oedd codi tymheredd yr ymgyrch dros y sianel nes cyhoeddiad yr ymryd. Yn y pen draw, ochr Cymdeithas yr Iaith a gariodd y dydd oherwydd i'w haelodau, yn ystod y saithdegau, fod yn barod i weithredu a chymryd y canlyniadau; ac yn yr wythdegau, oherwydd fod Gwynfor yntau'n barod i weithredu a chymryd y canlyniadau. Yr ymroddiad hwn a ddaeth â phobl y tu ôl i'r ymgyrch.

Mae cryn ddadlau wedi bod ynglŷn â ffigurau gwyllo S4C, ond o leiaf ni wireddwyd ofnau Jac L y byddai gwylwyr y sianel yr un mor isel â darllenwyr *Y Faner*. Rhoddodd creu S4C, hyder newydd yn y Cymry, hyder i greu ein sefydliadau ein hunain mewn meysydd eraill yn ogystal â darlledu.

Atodiad Areithiau

Ned Thomas – tystiolaeth dros Rhodri yn achos Blaenplwyf

Yn adroddiad Crawford 1974 (a dderbyniwyd gan y llywodraeth ar unwaith) fe ddywed cymal 75 fel a ganlyn: “Whatever decision may be reached about the use of the fourth channel in the rest of the UK, it should in Wales be allotted as soon as possible to a separate service in which Welsh-language programmes should be given priority,” a nes ymlaen yng nghymal 76, “the social need in Wales for the service is pressing.” Un dyfyniad arall: “The cost would represent an investment in domestic, cultural and social harmony in the United Kingdom.” Gallech dynnu’r casgliad y byddai peidio â chyfarfod â’r gost yn debyg o greu gwrthdaro. Beth yw ystyr “pressing need”? Nid geiriau ar bapur yn unig, o leiaf nid i rai fel Rhodri.

Rydych chi’n gwybod cystal â minnau yr oedi a fu. Aeth pedair blynedd heibio ers i’r llywodraeth dderbyn argymhellion Crawford. Gallai’r Sianel fod mewn bodolaeth, ond eto rydym heb amserlen bendant, na chynigion pendant ynglŷn â deddfwriaeth i sefydlu’r sianel.

Rhan o dystiolaeth Gerallt Jones, Gweinidog yr Efengyl, Caerwedros, yn yr achos cynllwynio yn erbyn Rhodri a Wynfford

Rwyf yn credu, eich anrhydedd, y dylai’r llys gael gwybod bod y mater arbennig sydd wedi cynhyrfu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i weithredu fel y gwnânt y dyddiau hyn, yn fater sydd wedi ysgogi ugeiniau o wŷr blaenllaw ein cenedl ni i ddeisebu’r llywodraeth bresennol yn San Steffan: i brysuro ymlaen gyda’r gwaith o beri i’r cwmnïau darlledu a radio; i ehangu’r gwasanaeth; i gywiro’i haddewid i ehangu’n sylweddol y ddarpariaeth o raglenni Cymraeg ar deledu a radio, a pheri i’r cwmnïau sy’n gyfrifol am y gwaith hwnnw i fynd at y dasg rhagllaw.

Dwy flynedd yn ôl ym 1976 mi fûm i fy hunan yn gyfrifol, fel Ysgrifennydd Mudiad yr Annibynwyr Cymraeg, am gychwyn deiseb at y llywodraeth trwy’r Ysgrifennydd Cartref y pryd hwnnw, Mr Roy Jenkins, a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, Mr John Morris, i fynd at y gwaith, gan gasglu ugeiniau lawer o enwau gŵyr amlwg i gefnogi’r ddeiseb.

Mae’r mudiad y soniais amdano, ynghyd ag amryw o Gyfundebau Sirol, wedi erfyn yn ystod y blynyddoedd ar i’r llywodraeth gymryd y camau angenrheidiol i weld fod darpariaethau teilyngach yn cael eu gwneud drwy’r cyfryngau torfol fel eu bod yn siarad â ni fel cenedl yn ein hiaith ein hunain.

DO Davies, Nantgaredig, rheolwr banc wedi ymddeol

Rhaid wynebu realiti. Does dim modd gwadu'r argyfwng ar yr iaith. Adroddiad cyfrifiad 1971 yn dangos fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng ar gyfartaledd o ddau gant yr wythnos. Pawb yn cytuno mai'r radio a theledu yw dylanwadau mwyaf ein hoes — yn arbennig ar blant. Opiwm y bobl, medd Enid Morgan. “Y teledu sy'n siarad heddiw, nid y teulu,” medd prifathro.

Ym 1963, dywedodd Cyngor Cymru, pob aelod wedi'i enwebu gan y llywodraeth — hufen y Sefydliad — “The attention to the children of Wales on TV is painfully inadequate.”

Yn *Planet* ym 1973, ysgrifennodd Peter Davies, “English language TV and radio has done more to erode Welsh in recent years than consistent government hostility did in three preceding centuries. Welsh is still massively underprivileged on TV and radio.”

Dr Meredydd Evans, adran efrydiau allanol, Coleg Caerdydd, a chyn-weithiwr gyda'r BBC — tystiolaeth yn achos Rhodri a Wynfford

Beth oedd ymateb yr awdurdodau teledu pan gyflwynodd Cymdeithas yr Iaith ei hawgrymiad cyntaf ynglŷn â sut i ddatblygu'r gyfundrefn yng Nghymru? Anhygoel... chwerthinllyd... hollol afreal... dyna'r atebion cyffredinol yn Llandaf a Phontcanna. Ac yr oedd pethau'n fwy felly yn y canolfannau lle gorwedd y gwir awdurdod, Llundain. Y ffaith amlwg ydy mai fel gweithgaredd ymylol yr ystyrir teledu Cymraeg — rhywbeth, ar y gorau, y mae'n rhaid ei wneud; ar ei waethaf, sy'n niwsans llwyr. Ni all pwy bynnag sy'n gweithio yn y BBC ac HTV Cymru fethu â theimlo hyn cyn bo hir iawn.

Rwy'n dweud hyn oherwydd mod i eisiau gwneud yn hollol glir mor anodd ydy cael gan yr awdurdodau darlledu, heb sôn am y Lefiathan mawr yn San Steffan, i wrando ar gŵyn y Cymry Cymraeg. Er cymaint fy mharch i tuag at Hywel Gwynfryn, nid y bobl biau'r cyfrwng. Profiad lleiafrifoedd yn gyffredinol ym Mhrydain ydy mai canolfannau anghysbell iawn ydy canolfannau awdurdod. Mae'n ddigalon o anodd i gael gan Loegr, a chan lawer o Gymry yn ogystal, i gydnabod argyfwng llethol yr iaith Gymraeg.

Dyma'r cefndir i'r hyn a sylweddolais i pan oeddwn i'n gweithio i'r Gorfforaeth wedi i ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith ddechrau gael eu trefnu — yn brotestiadau cyhoeddus, raliau a meddiannu ambell i stiwdio. Roedd 'na gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru'r chwedegau yn dechrau pwysu am wasanaeth teilwng ar gyfer y Cymry Cymraeg e.e. rhai o'r pleidiau gwleidyddol, pwyllgor darlledu Llys y Brifysgol, yr enwadau crefyddol, Llys yr Eisteddfod Genedlaethol ac ati. Ond yn fy mhrofiad i roedd arwyddion dipyn o ddeffro'n dod yn unig pan ddechreuodd y Gymdeithas weithredu. Y gwir trist ydy nad oedd apelïadau rhesymol, cyfundrefnol

yn cael fawr o sylw. Mae'n ymddangos na ellir, yn aml, yn y weriniaeth sydd ohoni, adael y cyfan i degwch yr achos.

Dyma'r cefndir hefyd y mae'n rhaid gosod yr achos hwn ac achosion tebyg yn eu herbyn. Mae'r felin yn malu yn llawer rhy araf i gyfarfod â'r newyn sy wrth y drws; does rhyfedd bod amynedd yn pallu.

Mae angen mwy o frys nag a sylweddolir yn gyffredinol.

Wynfford James – achos cynllwynio Blaenplwyf

Derbyniwyd yr argymhellion (argymhellion Pwyllgor Crawford) gan y llywodraeth, fe'i cadarnhawyd gan adroddiadau eraill di-ri. Ond fe'n bradychwyd. Fe'n bradychwyd fel y bradychwyd ein pobl trwy'r oesoedd gan ffug ddemocratiaeth y drefn Brydeinig. Ai ni sydd yn bradychu democratiaeth neu democratiaeth sydd yn ein bradychu ni? Rydym oll yn bobl â pharch at drefn a chyfraith. Nid cymdeithas di-drefn, digyfraith yw Cymdeithas yr Iaith. Ond ni wnaf i na Chymdeithas yr Iaith sefyll yng ngwter Dic-Dafyddion y gorffennol.

Araith Rhodri Williams – achos cynllwynio Blaenplwyf

Peidiwch â datgan eich bod yn cydymdeimlo â'r hyn y mae Cymdeithas yr Iaith yn sefyll drosto ac yna ein dedfrydu i garchar. Ceisio cael y gorau o ddau fyd fyddai hynny. Ni cheisïaf eich cydymdeimlad, ond eich cefnogaeth. Peth trist yw clywed gan bobl, pwy bynnag bônt, eu bod yn cydymdeimlo â'r achos. Mae yna ormod o gydymdeimlad yng Nghymru heddiw. Rwy'n tueddu i gredu fwyfwy mae'r sawl sy'n cydymdeimlo bob amser yn hytrach na'r gwrth-Gymreig sy'n fwyaf cyfrifol am rwystro'r ymdrechion a wneir dros ddyfodol yr iaith.

Roedd geiriau Martin Luther King mewn llythyr a anfonodd o'r carchar i'r rhai a fu'n ei feirniadu'n gyhoeddus yn ddigon i ateb ofnau'r sawl sy'n cydymdeimlo unwaith ac am byth:

“Shallow understanding from people of goodwill is more frustrating than absolute misunderstanding from people of ill will.

“Lukewarm acceptance is much more bewildering than outright rejection.”

Rhan o arait h Harri Pritchard Jones (meddyg ac awdur), Llantrisant, 3 Chwefror 1973

Gan nad yw'r Cymry ond cyfran fechan o boblogaeth Prydain, a'r Cymry Cymraeg yn lleiafrif o fewn Cymru, afrealistig yw sôn am berswadio'r mwyafrif i roi tegwch inni ym myd darlledu drwy ddulliau democrataidd o fewn y sefydliad sy'n bodoli heddiw. Rhaid wrth ddulliau eraill. Dewisodd llawer ohonom ni'r dull yma o wrthod talu am ein trwydded deledu, gan ei fod yn ddull hollol ddi-drais... Dim

ond pan mae'r gyfraith yn cynnal breichiau deddf anghyfiawn, deddf sy'n gwrthod hawliau cynhenid inni, y gwnawn hyn, am fod yr hawliau hyn uwchlaw cyfraith gwlad, ac wedi eu corffori mewn datganiadau megis siarter Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig.

Dirwy — £17; fe'i carcharwyd am fis am fethu talu'r ddirwy.

Rhan o araith Lisabeth Edwards (gwraig tŷ ac awdur), Bae Colwyn, 10 Ionawr 1973

Wedi dangos fel y cymerodd ran mewn ymgyrch gyfansoddiadol, a llythyru â'r awdurdodau dros nifer o flynyddoedd, plediodd yn ddieuog o dorri'r gyfraith gan resymu fel hyn:

Cytundeb sydd yma rhwng y llywodraeth (gan gynnwys y BBC) a minnau. Cedwais i'r cytundeb am 11 mlynedd, ond nid yw'r llywodraeth wedi gwneud unrhyw ymdrech i gyflawni eu hochr hwy. Mae'r cytundeb wedi ei dorri ganddynt hwy fel nad oes orfod arnaf i'w barchu mwyach... Nid wyf yn amau fod yr awdurdodau yn cyflawni eu cytundeb â'r genedl Seisnig... ond ni roddant ddim tebyg i wasanaeth cyflawn i'r genedl Gymreig... Y taliad teg i mi fyddai 50c y flwyddyn. Yr wyf eisoes wedi talu digon i sicrhau'r un gwasanaeth ac a gaf yn awr am 120 o flynyddoedd.

Dirwy — £10, a £10 o gostau; fe'i carcharwyd am fis am wrthod talu'r ddirwy.

Rhan o araith Ifor Owen (prifathro Ysgol Llanuwchllyn), un o'r pump a ryddhawyd yn ddiamod gan Fainc y Bala, 12 Gorffennaf 1972

Does dim rhaid imi ddweud wrthyh chi sy'n fy adnabod yn dda fy mod yn fy nghael fy hun mewn lle dieithr iawn y pnawn yma. Un waith o'r blaen y bŵm yn sefyll yn y lle hwn a hynny lawer blwyddyn yn ôl bellach pan yng nghwmni cyfeillion o'r cylch hwn oedd wedi eu gwysio am drwydded radio. Gwrthodem dalu y pryd hynny oherwydd na chai Cymru wasanaeth teilwng ar y radio na derbyniad a oedd yn agos i foddhaol. Rwy'n bur hyderus i bethau wella y tro hwnnw oherwydd safiad cannoedd lawer mewn llysoedd ledled Cymru. Onid yw'n drist meddwl nad derbyniodd Cymru odid ddim erioed oddi ar law y BBC heb ymladd yn galed bob modfedd o'r ffordd. Ymladd am yr hyn a dderbyn Lloegr yn ddiymdrech fel hawl sylfaenol ddiymwad...

Fe ddaw amser yn hanes pob oes, ac yn hanes pob cymdeithas, pan elwir ar rai pobl i dorri'r gyfraith yn fwriadol. A hoffwn bwysleisio yn y fan hon mai dim ond pobl sy'n parchu'r gyfraith a all wneud hyn... Does dim o'i le wrth gwrs fod i'r gyfraith ddweud na ellid derbyn gwasanaeth teledu heb drwydded, ond pan ddefnyddir y gyfraith honno i orfodi cenedl i dderbyn cyfundrefn deledu sy'n

estron ac yn farwolaeth iddi mae'n amser i bobl ddangos eu gwrthwynebiad i hynny.

Fe deflir aton ni o hyd y byddai darparu sianel Gymraeg a sianel Saesneg i wasanaethu Cymru yn rhy gostus. Ond o safbwynt y llywodraeth, mae popeth ynglŷn â'r iaith Gymraeg yn rhy gostus. Rydyn ni'n hen gyfarwydd â'r ddatl yna erbyn hyn,

Mae Ynys yr Îa gyda'i phoblogaeth fechan o ddim ond dau can mil yn gallu cynnal gwasanaeth teledu mewn Islandeg bum awr bob dydd chwe diwrnod yr wythnos. Mae'n wir fod pris y drwydded yn uwch, ond mae safon byw'r gwylwyr yn uwch hefyd. Yn y Swistir, fe gynhelir tair sianel mewn tair iaith — Almaeneg, Ffrangeg ac Eidaleg — ac mae llai o wylwyr Eidaleg eu hiaith yno nag sy o wylwyr Cymraeg yng Nghymru.

Ond down yn nes adre. Dydy bwgan 'y gost' byth yn cael ei godi ynglŷn â rhaglenni Saesneg. Fe ddwedodd David Attenborough, sy'n gyfrifol am BBC 2, ei fod yn ystyried chwe chan mil yn gynulleidfa dda i un o'i raglenni — tua'r un nifer ag sy o Gymry Cymraeg yng Nghymru. Ond beth am gost BBC 2 sy'n teledu am oriau bob dydd? Fe wariodd y BBC bron hanner miliwn o bunnau ar gyfres deledu Saesneg a phenderfynu wedyn peidio â'i theledu hi. Fe fyddai'r swm hwnnw'n ddigon i gynnal gwasanaeth radio sain Cymraeg am dair blynedd. A rwan dyma'r teledu masnachol yn bwriadu teledu i ferched am bedair awr bob prynhawn. A'r gost? Tua deng miliwn o bunnau — i gychwyn. Ond mae'n ymddangos nad oes neb yn cwyno.

Rhan o anerchiad Islwyn Ffowc Elis

Ar y 3edd o Orffennaf 1972 ymddangosodd tri gweinidog gerbron Llys Ynadon Wrecsam: Y Parchedigion Islwyn Davies, Islwyn Ffowc Elis a W Bryn Roberts. Gan eu bod yn dri Chymro adnabyddus ac iddynt atal y tâl arferol am drwydded deledu i dynnu sylw at yr anghyfiawnder a wneir â'r iaith Gymraeg, trefnwyd iddynt gael eu barnu gan dri ynad na ddeallent Gymraeg. Yn wyneb y sarhad bwriadol hwn, rhwygodd y Parch W Bryn Roberts ei ddatganiad yn racs a cherdded allan o'r llys. Arhosodd y ddau arall, a derbyn cyfieithu dan brotest, er mwyn cael rhywfath o gyfle i roi'r achos dros deledu Cymraeg gerbron.

Dyma'r ymosodiad terfynol ar yr iaith Gymraeg. Mae sgwrs ar yr aelwyd wedi dirywio, yn wir wedi dadfeilio'n llwyr mewn llawer cartre, oherwydd "y bocs yn y gornel". Mae'r bocs hwnnw'n llefaru am oriau bob dydd ar aelwydydd Cymraeg. Allwn ni ddim, a fynnen ni ddim, rhwystro'n plant rhag ei wylio. Ond gan fod y bocs yn y gornel yn siarad Saesneg lle gynt y byddai tad a mam, a thaid a nain, yn siarad Cymraeg, mae plant ardaloedd cyfain wedi colli'u gafael ar y Gymraeg yn frawychus o gyflym yn ystod y pymtheg mlynedd diwetha 'ma.

Ymhen ugain mlynedd eto, os pery'r sefyllfa hon, fe fydd y mwyafrif o'n capeli Cymraeg wedi cau. Mae llawer ohonyn nhw'n cau eisoes. Mae'r ysgolion

cyfrwng-Cymraeg yn gwneud gwaith arwrol yn galluogi'u disgyblion i ddarllen a sgrifennu Cymraeg, ond os na fydd y plant yn gallu byw bywyd cyflawn a derbyn eu hadloniant yn Gymraeg — ac mae adloniant bron yn gwbl gyfystyr â theledu erbyn hyn — fe gollan nhw'r arfer o'r Gymraeg fel iaith fyw.

Rhan o araith Ffred Ffransis yn Llys y Goron, Huddersfield

Dadl beryglus iawn fyddai dweud ei bod hi'n ddyletswydd ar rywun i blygu'n ddi-gwestiwn bob tro i'r gyfundrefn gyfreithiol; yn wir mi fyddai hynny'n sylfaen totalitariaeth.

Yr hyn sydd o'ch blaen chi heddiw yw gwrthdrawiad o ran gwerthoedd. Mae gwerthoedd y sefydliad sy'n ein herbyn yn rhai materol, a'r prif werth yw rhesymoldeb y sefydliad ei hun. Oherwydd hyn mae'r sefydliad Prydeinig wedi creu cyfundrefn ddarlledu Saesneg ei hiaith i Gymru, oherwydd mai'r Saesneg yw'r iaith mwyaf hwylus a "rhesymol" i'w defnyddio yng ngwledydd Prydain, a'r iaith y gellir ei gwerthu orau i bobl. Fe welwn felly ddiwylliant teledu yn dod yn atodiad yn unig i'r drefn economaidd a gwleidyddol sydd yn ei hanfod yn elyniaethus tuag at iaith a gwareiddiad ac arbenigrwydd "afresymol" Cymru. Gwelwn yr un duedd ar waith ym mywyd economaidd Cymru. Yn y sir lle rydw i'n byw bygythir diswyddo 7,000 o weithwyr dur a chwalu cymdeithas leol (Shotton) yn y broses, mewn ymgais i "resymoli'r" diwydiant dur. Yn yr achos hwn eto, gwerthoedd materol yr economi i rhesymoldeb y drefn ei hun yw'r gwerthoedd pwysig gan y sefydliad. Nid yw'r sefydliad sy'n ein herlyn yn rhoi unrhyw bwys ar werthoedd cymdeithasol nac ysbrydol — ni wél werth mewn cymuned leol oherwydd mae'n fwy "rhesymol" gyrru gweithwyr fel peiriannau i ddiwydiannau ffyniannus Lloegr; ni wél werth ychwaith yn iaith a gwareiddiad Cymru oherwydd y mae'n fwy "rhesymol" i gael pawb i wyllo rhaglenni Saesneg ar y teledu.

Rhan o araith Arfon Jones yn Llys y Goron, Huddersfield, 1973

Mae'n siŵr y carech i ni ddweud ychydig am y weithred ei hun. Yn gyntaf roedd yn weithred symbolaidd, yn dangos difrifoldeb y sefyllfa bresennol. Roedd hefyd yn weithred uniongyrchol, gyda'r bwriad o greu anhwylostud i'r awdurdodau darlledu drwy beri difrod cyfyngedig i'w heiddo.

Cyn i mi fynd ymlaen, carwn esbonio nad yw'r hyn yr wyf yn mynd i'w ddweud nawr yn ymgais i amddiffyn ein hunain rhag canlyniadau'r weithred mewn unrhyw fodd — mae'r weithred wedi ei chyflawni, ac yr ydym wedi ein cael yn euog o dorri cyfraith Lloegr. Yr hyn yr wyf am geisio ei wneud yw dangos i'r llys hwn nad criw o bobl anghyfrifol gwyllt yw aelodau Cymdeithas yr Iaith; ond fod yr hyn oll yr ydym yn ei wneud, gan gynnwys y weithred ger bron y llys hwn, fel yr ydych yn gwybod wedi ei threfnu yn ofalus ymlaen llaw, a'n bod wedi ystyried pob agwedd ar y

weithred cyn ei chyflawni. Nid gweithred hunanol mohoni, oherwydd nid oedd yn dwyn unrhyw elw personol i ni. Ni ellwch ddweud ychwaith mai fandaliaid ydym, oherwydd roedd ein gweithred yn un gyfrifol, wedi ei pharatoi o flaen llaw fel y gwyddoch. Felly mae'n hollol amlwg nad ydym yn droseddwy'r cyffredin. Yr ydym yn hollol sicr nad oedd unrhyw elfen o drais na pherygl yn ein gweithred.

Fel yr ydych yn gwybod ni wnaeth yr un ohonom fygwth y gwylwyr mewn unrhyw fodd, ond dilyn cyfarwyddyd ac eistedd yn dawel i aros yr heddlu — hyn yn dangos nad oeddem ychwaith yn bwriadu dianc, ond yn hytrach wynebu canlyniadau yr hyn a wnaethom.

Nid gweithredu mewn ysbryd malais a chasineb a wnaethom, ond mewn ysbryd cariad tuag at ein gwlad, ein hiaith, a'n pobl. Bydd y cariad hwn, a chyfiawnder ein hachos yn ein galluogi i wynebu'r canlyniadau'n hyderus.

Rhan o arraith Wayne Williams yn Llys y Goron, Caerdydd, 1973

Wrth y barnwr: Os ydych chi'n disgwyl imi ymddiheurio am yr hyn â wnes, yr ydych yn mynd i gael siom. Dydw i ddim yn edifarhau o gwbl... Y mae fy llwybr i yn eglur ac mi wnaaf yr un peth eto ac eto os bydd rhaid i sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg. Pa beth bynnag sydd yn digwydd heddiw, mi af ymlaen i weithredu'n difrifol yn yr ymgyrch. Os caf garchar, mi af ymlaen i herio'r gyfundrefn a'r gyfraith sydd yn lladd yr iaith Gymraeg, hyd eithaf fy ngallu, ac os caf ddedfryd ohiriedig mi wnaaf ei thorri. Ni allwch obeithio lladd Cymdeithas yr Iaith drwy gosb a bygythiad, fe awn ymlaen nes inni gael Cymru Rydd a Chymru Gymraeg.

Rhannau o anerchiad Dr Pennar Davies yn Llys y Goron, Caerfyrddin, 1980

Ein gweithred oedd diffodd am amser byr y rhaglenni a oedd yn cael eu hanfon allan o drosglwyddydd Pencarreg; a phwrpas y weithred oedd dangos fod tywallt llifeiriant o Saesneg dros ranbarth helaeth o Gymru lle y mae'r Gymraeg yn ymdrechu i fyw — a gwneud hyn yn feunyddiol, yn gyson ac yn ddiarbed — yn drais dinistriol yn erbyn ein hiaith a'n hetifeddiaeth a'n bodolaeth fel cenedl fechan.

Mae natur y weithred yn dibynnu ar y cymhelliaid. Mae'r fath beth yn bod â thorri cyfraith yn dechnegol er mwyn cyflawni a sefydlu cyfraith uwch. Mae hen hanes am Gristion yn torri cyfraith yr Ymerodraeth Rufeinig trwy ymyrryd â difyrrwch y cyhoedd. Dyna a wnaethom ni. Neidiodd y dyn hwnnw i'r arena i sefyll rhwng dau ddyn a oedd yn ceisio lladd ei gilydd. Yr oedd gweld pobl yn ymladd hyd at farwolaeth yn rhoi mwynhad i filoedd yn y dyddiau hynny ac yr oedd y gyfraith o'u plaid. Torrodd y Cristion y gyfraith. Ei amcan oedd achub bywyd a newid y drefn yn enw Iesu o Nasareth. Yr oedd yn ufuddhau i gyfraith

uwch er mwyn gwneud y weledigaeth am y gymdeithas gyfiawn a chariadus yn ffaith ar y ddaear hon...

Mae wedi dod yn gwbl amlwg mai polisi sylfaenol y llywodraeth sy'n teyrnasu o Lundain yw siarad yn galonog am yr iaith Gymraeg a rhoi ychydig o arian i rai o'r sefydliadau a gweithgareddau sy'n ymdrechu i hyrwyddo'r iaith ond ar yr un pryd gwrthod creu'r amgylchiadau sy'n angenrheidiol i'w hiechyd a'i pharhad... Mae pob ystum o du llywodraethau'r Deyrnas i noddio'r Gymraeg — er mor anniginol fo'r noddod — yn gyffesiad o euogrwydd ynglŷn â'r difrodi barbariaid a fu ar iaith a threftadaeth Cymru...

Credaf fod tair ffactor yn cyfiawnhau gweithredu anghyfansoddiadol — anghyfiawnder dybryd, argyfwng enbyd, a diffyg cyfle i ddefnyddio dulliau perswâd. Ac y mae'r tair ffactor yn bresennol yn ein sefyllfa ni yng Nghymru.

Rhan o anerchiad Dr Meredydd Evans yn Llys y Goron, Caerfyrddin, 1980

Un peth a ddaeth yn boenus o amlwg i mi yn ystod deng mlynedd o weithio yn y gwasanaeth darlledu yng Nghymru... mai peth cywilyddus o ymylol yw darlledu Cymraeg oddi mewn i gyfundrefn ddigamsyniol Brydeinig na all gymryd, neu na fynn gymryd, y diwylliant Cymraeg o ddifri.

Rhan o erthygl gan Ned Thomas yn dilyn yr achos

Petasai canmol gwerth yr iaith yn medru'i hachub, mi fyddai ei dyfodol yn sicr. Ond y mae angen mwy na chanmoliaeth arni. Mae angen yr amodau a wna yn bosibl iddi oroesi...

Pan gyhoeddodd Mr Whitelaw fod y llywodraeth am fynd yn ôl ar addewid maniffesto'r Blaid Doriaidd ynglŷn â'r bedwaredd sianel yng Nghymru, syfrdanwyd y Cymry Cymraeg, ac ni wyddem i ba gyfeiriad i fynd nesaf. Roedd yn rhaid wynebu dyfodol heb sianel Gymraeg, ond yn fwy na hynny, ddyfodol lle byddai'n anodd credu mwyach mewn dulliau cyfansoddiadol.

Yn raddol sylweddolais y byddai cenedl a oedd yn bodloni ar y driniaeth a dderbyniodd ym mater y sianel yn fodlon derbyn popeth. I mi, gweithred fach symbolaidd yn dangos ein bod yn gwrthod y fath driniaeth oedd gweithred Pencarreg.

Rhannau o araith Ffred Ffrancis ym Mrawdlys yr Wyddgrug, 1971

Nid yw'r achos hwn yn ymwneud â throeddau cyfreithiol; nid yw'n ymwneud â difrod na thresmasu na chynllwynio. Y mae yn hytrach yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a gwareiddiad Cymru ac enaid ein cenedl.

Ein cariad at ein gwlad a'n hymdeimlad o gyfrifoldeb at ein cyd-Gymry, at ein cyndeidiau ac at y cenedlaethau o Gymry i ddod sydd wedi ysgogi'n gweithredoedd. Dyma sydd ar brawf heddiw. Yr ydym ni ar brawf oherwydd fod deffro cenedlaethol wedi bod ymhlith ieuencid Cymru. Yr ydym ni'n mynnu adfer yr iaith i'w phriod le ym mywyd Cymru — ac fel arwydd o'r diwygiad y mae dau o'r tri diffynnydd yn y prawf hwn wedi gorfod dysgu Cymraeg fel ail iaith — a chydag adferiad yr iaith yr ydym ni'n diogelu'n gwareiddiad ac yn adennill ein hunan-barch fel cenedl a'n hawydd am ryddid o hualau'r drefn Seisnig sy'n tagu bywyd Cymru.

Y prif gyfryngau cyflym yn y broses hon (o danseilio Cymreictod) erbyn hyn yw'r cyfryngau darlledu yng Nghymru. I bob pwrpas, Saesneg yw iaith y teledu a'r radio yng Nghymru ac Eingl-Americanaidd yw deunydd y rhaglenni. Fel hyn, cyflyrir ein pobl i anghofio'r iaith Gymraeg a gwerthoedd ein gwareiddiad; cyflyrir ni i feddwl fel Saeson ac i edrych ar y byd trwy lygaid Seisnig. Mae'r teledu a'r radio yn gyfryngau imperialaeth ddiwylliannol Lloegr yng Nghymru, ac y mae hyn yn llawer mwy difrifol nag imperialaeth wleidyddol. Dyma drais yn erbyn personoliaeth a chymeriad ac ysbryd ein pobl; ac y mae trais yn erbyn y bersonoliaeth o leiaf mor ddifrifol â thrais yn erbyn y corff. Byddem yn llai na chyfrifol ac yn bradychu egwyddorion cariad a chyfiawnder petaem ni'n caniatáu i'r broses hon o drais yn erbyn ein pobl fynd yn ei blaen yn ddiwrthwynebiad. Oherwydd ein her i'r gyfundrefn ddarlledu Seisnig yng Nghymru, yr ydym ni ar brawf heddiw.

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi ymrwymo i weithredu yn y dull di-drais, gan gydnabod fod grym cariad ac aberth yn anrhaethol fwy na grym casineb a thrais. Rwy'n dal fod difrod i eiddo, dan amgylchiadau arbennig, yn gwbl gydnaws ag ysbryd y dull di-drais o weithredu, a'i bod hi'n ddyletswydd arnom weithiau i ddefnyddio'r dull hwn er mwyn atal trais — yn yr achos hwn, trais yn erbyn iaith a phersonoliaeth Cymru gan gyfryngau darlledu Lloegr.

Aeth Ffred ymlaen i sôn am yr amodau roedd yn rhaid eu cyflawni cyn y gellid cyfiawnhau difrodi eiddo fel dull o weithredu. Soniodd am yr ymgyrch hir o lythyru a deisebu a phwyso'n gyfansoddiadol. Yna, cyn derbyn y ddedfryd o dair blynedd o garchar (dwy ohonyn nhw i gydredeg), dyma ei eiriau wrth y barnwr:

Fefuoch chi'n gwbl anghywir, syr, os gwir adroddiad yn y wasg, pan ddywedsoch fod hwn yn achos trais. Hwyrach fod hwn yn achos tristwch i rai dynion yn y Swyddfa Gartref gan mor druenus yw eu methiant i ddiffodd fflamau'r chwyldro yng nghalonau Cymry ifainc. Ond, yn sicr, mae'r achlysur hwn a'r frwydr yn achos gorfoledd i ni; y mae'n cenhedlaeth ni wedi torri'n rhydd o daeogrwydd canrifoedd, ac yr ydym ni'n talu am ryddid ein gwlad; y mae'n cenedlaeth ni wedi gwrthod plygu i anghyfiawnder ac yr ydym yn talu am wasanaeth darlledu teilwng i Gymru trwy dderbyn yn llawen y canlyniadau am ein gweithredoedd. Teimlwn orfoledd oherwydd grym ewyllys rydd a chydwybod glir a'n hymwybyddiaeth o'r ffaith ein bod wedi bod yn ffyddlon i'r iaith a'r genedl yr ydym yn eu caru, drwy weithredu dros gael Sianel Gymraeg. Ac, yn sicr, cyn fod cof am yr achos cynllwynio ym Mrawdlys yr Wyddgrug yn dechrau pallu, bydd pêr sain ein hiaith

annwyl yn llenwi aelwydydd ledled Cymru drwy'r set deledu — yn difyrru ac yn addysgu cenhedlaeth newydd o Gymry Cymraeg gyda rhaglenni'n seiliedig ar werthoedd iach ein cenedl, ac yn cryfhau'n Cymreictod, ac yn ennyn ymdeimlad newydd o deyrngarwch at Gymru ymhlith y rhai ohonom sy'n gorfod dysgu'r Gymraeg fel ail iaith.

Gyda'r gobaith hwn yr wyf yn wynebu'r ddedfryd yr ydych ar fin ei rhoi i mi. Ym mis Mai eleni, rhoddwyd dedfryd ohiriedig o ddeuddeg mis o garchar i mi. Yr oedd hyn yn ymgais i gaethiwo fy ewyllys a'm cydwybod, a'm gorfodi i dderbyn trefn anghyfiawn drwy rym y gyfraith. Dywedais eisoes na chaniataf i unrhyw lys neu gyfraith brynu fy nghydwybod. Felly, penderfynais herio'r ddedfryd honno yn enw Cymru ac yn enw rhyddid. Ac yn awr mae'r penderfyniad gyda chwi; dyna ddiwedd fy apêl at eich cydwybod. Os cydnabyddwch gyfiawnder fy achos a'm gweithredoedd, fe ddylech ddatgan hynny'n gyhoeddus a'm rhyddhau. Os gwrthodwch fy nadleuon yn gydwybodol, eich dyletswydd amlwg yw rhoi dedfryd drom arnaf y tro hwn. Ni allaf ddweud pa effaith gaiff hynny arnaf; ond gobeithiaf yn angerddol y caf i nerth ar ôl fy rhyddhau i fynd ymlaen gyda'r frwydr i ryddhau Cymru a diogelu'n gwareiddiad drwy sicrhau gwasanaeth darlledu cyflawn a chyfrifol i Gymru.

Ôl-nodyn

Awst 1985

Aeth pum mlynedd heibio bellach ers y ‘fuddugoliaeth’ fawr. Yn ystod eu hymdriniaeth drwsogl o’r ymgyrch, ildiodd y llywodraeth lawer fwy nag a fwriadent o ran awdurdod i’r Sianel, cyllid, a dangos rhaglenni Cymraeg ar oriau brig. Bu Cymdeithas yr Iaith hithau’n pwysu rhwng 1980–2 am amodau teg i’r Sianel i sicrhau ei llwyddiant.

Bu’r Sianel ar yr awyr bellach ers tair blynedd, a bwriad swyddogol y llywodraeth yn awr yw adolygu’i dyfodol. Wrth atgoffa’n hunain yn y llyfr hwn o’r hyn a gostiodd y Sianel i lawer o bobl Cymru, manteisiwn ninnau ar y cyfle i adolygu’r Sianel. Mae’r amser yn aeddfed yn awr am gamau sylweddol ymlaen o ran:

- Democrateiddio Awdurdod S4C.
- Sicrhau Corfforaeth Ddarlledu Gymreig annibynnol a fydd yn gallu bwrw golwg dros yr holl gyfryngau darlledu Cymraeg a Saesneg yng Nghymru.
- Adran newyddion annibynnol Gymraeg.
- Amserlen datblygu S4C — gyda chyllid digonol — i fod yn wasanaeth llawn, sef i fod yn sianel deledu Gymraeg a gwireddu nod yr ymgyrch o’r diwedd.

S4C—Pwy Dalodd Amdani?

Hanes ymgyrch ddarlledu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Erbyn hyn, mae cenhedlaeth o blant Cymru'n dechrau cymryd S4C yn ganiataol — yn rhan naturiol o'r drefn. Wrth adolygu dyfodol y Sianel, mae'n werth i ni atgoffa ein hunain o'r frwydr fawr rhwng 1968–80 i ennill y Sianel. Mae'r llyfr hwn yn rhoi, nid yn unig yr hanes, ond hefyd llawer o wybodaeth a oedd tu ôl i'r penawdau newyddion. Dyma ymdriniaeth fywiog ag un o gyfnodau mwyaf cyffrous hanes diweddar Cymru.

Meinir Ffrancis, Awst 1985

Mae penderfyniad annemocrataidd ac anghyfiawn llywodraeth Llundain i dorri cyllideb S4C a'i hisraddio i fod yn adain o'r BBC yn golygu nad oes dewis ond brwydro unwaith eto dros y sianel — a'r Gymraeg. Er mwyn gallu ymgyrchu'n effeithiol, rhaid deall natur yr ymgyrch wreiddiol a sut y sicrhawyd llwyddiant, i ni werthfawrogi beth sydd yn y fantol, ac yn bennaf oll, i wybod y gallwn ennill eto os unwn gyda'n gilydd i ymroi ac aberthu dros gyfiawnder. Darllenwch, codwch, gwnewch!

Menna Machreth, Cadeirydd Grŵp Darlledu Cymdeithas yr Iaith, Tachwedd 2010

